

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

4/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

12/01/2022

## Gwerthusiad o Brosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol: Adroddiad Terfynol 2021

# Gwerthusiad o Brosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol: Adroddiad Terfynol

Awduron: Charlie Falzon, Simon Tanner a Judith Welford  
Wavehill

Adroddiad Ymchwil Llawn: Falzon, C; Tanner, S; Welford, J (2022). *Gwerthusiad o Brosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol: Adroddiad Terfynol 2021*.  
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y  
Llywodraeth: 4/2022  
Ar gael fan yma: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-brosiectau-arddangos-y-goedwig-genedlaethol>

Barn yr ymchwilwyr ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd, a fynegir  
yn yr adroddiad hwn

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Aimee Marks

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 259 321

E-bost: [ymchwildyfodolcynaliadwy@llyw.cymru](mailto:ymchwildyfodolcynaliadwy@llyw.cymru)

## Tabl cynnwys

|    |                                                                                                 |    |
|----|-------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad/Cefndir .....                                                                        | 1  |
|    | Gwerthusiad .....                                                                               | 5  |
| 2. | Methodoleg .....                                                                                | 6  |
|    | Pandemig y coronafeirws .....                                                                   | 8  |
|    | Trosolwg o Ganfyddiadau'r Gwerthusiad .....                                                     | 9  |
| 3. | Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (FIRS) .....                                              | 12 |
|    | Disgrifiad .....                                                                                | 12 |
|    | Dylunio a gweithredu .....                                                                      | 12 |
|    | Cyflawni.....                                                                                   | 16 |
|    | Cyflawni'r amcanion .....                                                                       | 16 |
|    | Sylwadau clo .....                                                                              | 19 |
| 4. | Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Coetiroedd Cymunedol: Canfyddiadau<br>Allweddol..... | 20 |
|    | Disgrifiad .....                                                                                | 20 |
|    | Y broses ymgeisio a'r dyluniad.....                                                             | 21 |
|    | Cyflawni.....                                                                                   | 25 |
|    | Cyflawni amcanion .....                                                                         | 27 |
|    | Sylwadau Clo .....                                                                              | 28 |
| 5. | Cynllun Gwella Coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru .....                                         | 30 |
|    | Disgrifiad .....                                                                                | 30 |
|    | Dylunio a gweithredu .....                                                                      | 30 |
|    | Cyflawni.....                                                                                   | 31 |
|    | Cyflawni amcanion .....                                                                         | 32 |
|    | Sylwadau clo .....                                                                              | 33 |
| 6. | Cadwch Gymru'n Daclus – Cynlluniau Coedwigoedd Bychain a Phlannu Coed .....                     | 34 |
|    | Disgrifiad .....                                                                                | 34 |
|    | Dylunio a chyflawni.....                                                                        | 35 |
|    | Cyflawni amcanion .....                                                                         | 41 |
|    | Sylwadau clo .....                                                                              | 44 |

|    |                                                                                              |     |
|----|----------------------------------------------------------------------------------------------|-----|
| 7. | Safbwyntiau'r Rhaglen – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Gymuned .....                         | 45  |
|    | Cefndir gwerthuso digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid .....                              | 45  |
|    | Gwybodaeth Flaenorol, Darganfod y Digwyddiad a'r Sail Resymegol am fod yn Bresennol .....    | 45  |
|    | Presenoldeb a Sgoriau'r Sesiynau .....                                                       | 47  |
|    | Gwybodaeth ar Ôl y Digwyddiad a Diddordeb mewn Derbyn y Wybodaeth Ddiweddaraf .....          | 48  |
|    | Sylwadau clo ar y digwyddiadau i rhanddeiliaid .....                                         | 53  |
|    | Safbwyntiau rhanddeiliaid.....                                                               | 54  |
|    | Sail resymegol y prosiectau arddangos.....                                                   | 54  |
|    | Dylunio a chyflawni'r prosiectau arddangos .....                                             | 57  |
|    | Ymwybyddiaeth ar draws cynlluniau .....                                                      | 58  |
|    | Ymgysylltu â rhanddeiliaid.....                                                              | 58  |
|    | Y tu hwnt i'r prosiectau arddangos – pwyntiau dysgu ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol ..... | 61  |
|    | Cynnwys cymunedau amrywiol .....                                                             | 63  |
| 8. | Casgliadau ac Argymhellion.....                                                              | 67  |
|    | Trosolwg o'r rhaglen.....                                                                    | 67  |
|    | Dylunio a chyflawni'r cynlluniau.....                                                        | 67  |
|    | Ymgysylltu â chymunedau amrywiol .....                                                       | 69  |
|    | Atodiad A: Theori Newid .....                                                                | 75  |
|    | Atodiad B: Siartiau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth.....                               | 78  |
|    | Atodiad C: Proffil Adborth ar y Digwyddiadau i Rhanddeiliaid.....                            | 79  |
|    | Atodiad D: Astudiaethau Achos o Brosiectau .....                                             | 80  |
|    | Canllaw Trafod Cyfweiliadau Cwmpasu .....                                                    | 94  |
|    | Canllaw Trafod Rheolwyr Prosiect .....                                                       | 97  |
|    | Canllaw Trafod Rhanddeiliaid.....                                                            | 100 |
|    | Canllaw Trafod Astudiaethau Achos .....                                                      | 102 |
|    | Arolwg Ar-lein Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth .....                                   | 103 |

## Rhestr o dablau

|                                                                                     |    |
|-------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Tabl 1.1: Cyllideb Ddyranedig y Rhaglen yn ôl Cynllun .....                         | 4  |
| Tabl 3.1: Diben Cais Pob Prosiect yng Nghynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth ..... | 13 |

## Rhestr o ffigurau

|                                                                                                                                                    |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Ffigur 2.1: Amlinelliad o Amserlen ar gyfer Cyflawni Rhaglen y Goedwig Genedlaethol i'r Dyfodol .....                                              | 11 |
| Ffigur 3.1: Pa mor heriol i brosiectau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth oedd y broses o ymgeisio am arian .....                               | 14 |
| Ffigur 3.2: Ymwybyddiaeth bod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn rhan o fenter ehangach i ddatblygu Goedwig Genedlaethol Cymru .....         | 15 |
| Ffigur 7.1: Bod yn Gyfarwydd â chysyniad y Goedwig Genedlaethol cyn cymryd rhan yn y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid .....         | 46 |
| Ffigur 7.2: Sut y gwnaeth y cyfranogwyr glywed am y digwyddiad. ....                                                                               | 46 |
| Ffigur 7.3: Barn y cyfranogwyr am y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid. ....                                                          | 47 |
| Ffigur 7.4: Barn y cyfranogwyr am gydrannau'r sesiwn/sesiynau y buont iddynt .....                                                                 | 48 |
| Ffigur 7.5: Pa mor debygol neu annhebygol ydyw y bydd yr ymatebwyr yn mynd i sesiynau tebyg ynglŷn â Goedwig Genedlaethol Cymru yn y dyfodol ..... | 49 |
| Ffigur 7.6: Dewis ffordd yr ymatebwyr i glywed am ddatblygiad y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.....                                             | 50 |
| Ffigur 7.7: Y graddau mae'r ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau ynglŷn â'r digwyddiad .....                                         | 51 |
| Ffigur 7.8: Camau y mae'r ymatebwyr yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i fynd i'r digwyddiad .....                                                   | 53 |
| Ffigur B.1: Pa fath o sefydliad ydych chi? .....                                                                                                   | 78 |
| Ffigur B2: Y Sefydliadau y mae'r Ymgeiswyr yn Gweithio gyda Hwyl.....                                                                              | 78 |

## **Geirfa**

### **Acronym / Gair allweddol**

CRoW

CVS

ENRaW

EOI

FIRS

INNS

KWT

NF

NGOs

NLHF

NRW

PAWS

Peri-urban

PID

PROW

RDP

S106

ToC

WCVA

WGWE

WIMD

WSAP

### **Diffiniad**

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [2000]

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol

Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant

Mynegiant o Ddiddordeb

Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth

Rhywogaethau Anffroddol Ymledol

Cadwch Gymru'n Daclus

Coedwig Genedlaethol

Sefydliadau Anllywodraethol

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Adnoddau Naturiol Cymru

Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol

Ardal ger dinas neu ardal drefol

Dogfen Cychwyn Rhaglen Goedwig Genedlaethol

Hawl Tramwy Cyhoeddus

Rhaglen Datblygu Wledig

Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Damcaniaeth Newid

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Panel Cynggori Strategol Coetir

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

## Cefndir

- 1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn disgrifio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygiad cynaliadwy. Mae'n sefydlu dyletswyddau ac yn cyflwyno nodau ar gyfer iechyd a llesiant, gan geisio'r nod hwn: 'Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl'.<sup>1</sup>
- 1.2 Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed, Coetiroedd i Gymru (2018), yn cydnabod y potensial hwn, drwy fynd ati i gyflawni pedair thema strategol sy'n gysylltiedig â Nodau ac Egwyddorion Llesiant, ac un o'r rhain yw 'Coetiroedd i Bobl'. Y tri arall yw 'Ymateb i newid yn yr hinsawdd', 'Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig' ac 'Ansawdd yr amgylchedd – gwneud cyfraniad cadarnhaol i fioamrywiaeth'.
- 1.3 Mae bioamrywiaeth yn dirywio'n ddifrifol. Ffactor allweddol ar gyfer hyn yw'r newid yn yr hinsawdd a fydd, fel y mae'r panel rhynglywodraethol ar y newid yn yr hinsawdd wedi adrodd (2018),<sup>2</sup> yn arwain at 'ddirwiad trychinebus' ym mhoblogaethau llawer o rywogaethau a cholli rhai ecosystemau yn gyfan gwbl. Yn ôl adroddiad diweddaraf Sefyllfa Byd Natur (2019)<sup>3</sup>, roedd 17% o'r 3,902 o rywogaethau a nodwyd o dan fygythiad o ddiflannu ac mae 2% wedi diflannu yng Nghymru. Mae'r pryder gymaint, fel y mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21<sup>4</sup> yn ei ddweud, nes bod 'y Prif Weinidog wedi gwneud bioamrywiaeth a thwf amgylcheddol yn brif flaenoriaeth ar gyfer ei gyflawniad dros weddill y tymor hwn o'r Cynulliad, gan gyhoeddi argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019' [wedi'i gyfieithu].
- 1.4 Menter allweddol yw gwella cyflwr a sefyllfa coetiroedd presennol yng Nghymru a chyflymu'r arfer o blannu coed i ateb heriau'r argyfwng newid hinsawdd a chynorthwyo i wrthdroi'r dirwiad mewn bioamrywiaeth. Rhoddodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 rym cyfreithiol i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r 'dull

---

<sup>1</sup> Er enghraifft, [White, M.P. et al., 'Spending at least 120 minutes a week in nature is associated with good health and well-being'. Scientific Reports. Mehefin 2019](#)

<sup>2</sup> [IPCC\(2018\) 'Special Report on Global Warming'](#)

<sup>3</sup> [National Biodiversity Network \(2019\) 'State of Nature 2019' Nottingham.](#)

<sup>4</sup> [Llywodraeth Cymru \(2020\) Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-2021](#)

rheoli ar lefel yr ecosystem', y gellir crynhoi ei ddeuddeg egwyddor i dair thema: cynnwys pobl; deall sut mae natur yn gweithio; a gwerthfawrogi gwasanaethau natur. Mae'r ddeddf yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a mynd i'r afael â her y newid yn yr hinsawdd.<sup>5</sup> Mae'r ddwy Ddeddf hon yn darparu'r llwyfan deddfwriaethol i ddatblygu'r Goedwig Genedlaethol.

- 1.5 Yn gychwynnol, gwnaeth y Prif Weinidog ymrwymiad i Goedwig Genedlaethol Cymru yn ei fanifesto yn 2018 gyda'r nod o adfer coetiroedd presennol a chreu coetiroedd newydd. Yr uchelgais yw Coedwig Genedlaethol ar hyd a lled Cymru i sicrhau y gall Cymru gyfan elwa ohoni. Heb ei bod wedi'i chyfyngu i un ardal ddaearyddol, yr uchelgais yw cynnwys coetiroedd mewn gwahanol ardaloedd i greu rhwydwaith ecolegol cysylltiedig ledled Cymru. Bydd hyn yn creu adnodd cenedlaethol megis Llwybr Arfordir Cymru a'r Parciau Cenedlaethol.
- 1.6 Mae manifesto Llafur Cymru [2021]<sup>6</sup> yn nodi unwaith eto ymrwymiad y Llywodraeth i'r Goedwig Genedlaethol [t6]. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu [Mehefin 2021]<sup>7</sup>, sydd â'r nod o wella ugain o goetiroedd presennol i gyflawni dynodiad Coedwig Genedlaethol, yn ogystal â chynorthwyo cymunedau i greu deg ar hugain o goetiroedd newydd. Nod rhaglen y Goedwig Genedlaethol yw cryfhau'r warchodaeth i goetiroedd hynafol gwarchodedig, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cyfeirio at symud ymlaen tuag at ddiwydiant coed cynaliadwy.

### **Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

- 1.7 Ym mlwyddyn gyntaf Rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, crëwyd rhaglen i brofi dulliau a phrosesau ariannu a chyflawni a gweithio tuag at gyflawni canlyniadau'r rhaglen. Gwnaed hyn ar ffurf cronfa gyfalaf o £4.5m yn 2020/21 a oedd yn cynnwys pedwar cynllun allweddol:
- Cynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
  - Cadwch Gymru'n Daclus
    - o Coedwigoedd Bychain
    - o Cynllun plannu coed mewn ysgolion
  - Cyfoeth Naturiol Cymru
    - o Cynllun Gwella Coetiroedd

---

<sup>5</sup> [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

<sup>6</sup> [Symud Cymru Ymlaen](#)

<sup>7</sup> [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru \(2021\)](#)



- Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (FIRS)<sup>8</sup>

- 1.8 Cynllun grantiau cyfalaf yw'r Cynllun Coetiroedd Cymunedol sy'n cael ei ariannu a'i weinyddu gan y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, ac yn mae'n agored i sefydliadau nid-er-elw. Cynigir grantiau o rhwng £10,000 a £250,000. Yn wahanol i'r tri chynllun arall, mae hwn wedi'i lunio i redeg dros gyfnod o ddwy flynedd. Gall y grant dalu am gaffael tir, a gall gynnwys plannu a/neu wella rheolaeth i fodloni Safon Coedwigaeth y DU, yn ogystal â hybu mynediad i'r cyhoedd. Mae cynnwys y gymuned yn faen prawf hanfodol i ddyfarnu grant.
- 1.9 Roedd Cynllun Coedwigoedd Bychain yn seiliedig ar gynnig gan Cadwch Gymru'n Daclus, a dderbyniodd £140,000 gan Lywodraeth Cymru i weithio mewn sawl lleoliad gydag amryw bartneriaid i ddatblygu a phlannu ardaloedd bach a dwys o goetir tua main cwt tennys gyda haenau amrywiol o goed. Byddai'r ardaloedd a ddewisir yn lleoedd a fyddai heb lawer o fynediad i goetiroedd yn gyffredinol, a byddai ganddynt gyswllt cryf â chymunedau a fyddai'n ymwneud â'r gwaith o'u plannu a gofalu amdanynt wedyn. Byddent yn ystafelloedd dosbarth awyr agored i blant ddysgu am fuddion coetir. Y disgwyl oedd y byddai pob Coedwig Fechan newydd, gan gynnwys amser swyddog prosiect, yn costio tua £24,000.
- 1.10 Bwriad y Cynllun Plannu Coed oedd cyflwyno'r Goedwig Genedlaethol i mewn i raglen Eco-Sgolion.<sup>9</sup> Canolbwyntiodd ar weithio gyda 22 o ysgolion i blannu 400 o goed ar y safle neu gerllaw ynghyd â darn addysgol i helpu'r disgyblion i ddysgu am gasglu hadau, lledaeniad hadau a phwysigrwydd stoc leol. Dyrannwyd £60,000 i Cadwch Gymru'n Daclus i gyflawni'r cynllun.
- 1.11 Roedd cynllun gwella coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar goetiroedd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, ac roedd iddi ddwy elfen. Yr elfen gyntaf oedd ceisio gwaredu coed planhigfa ar Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a gwaredu Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Yr elfen arall oedd ceisio gwella mynediad ar safleoedd gyda chysylltiadau hamdden amlwg. Y nod oedd gwella tua 95Ha o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, a gwella mynediad i gyfanswm o 440Km o dir hygyrch ar yr ystad. Ariannwyd y cynllun yn uniongyrchol drwy Raglen

---

<sup>8</sup> Yn dilyn y dyraniad cychwynnol o £4.5m ar gyfer y pedwar cynllun, daeth arian ychwanegol ar gael i hybu cyllid ar gyfer y FIRS

<sup>9</sup> Mae [rhaglen Eco-Sgolion](#) yn cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus a chaiff ei gwerthuso ar wahân.

y Goedwig Genedlaethol ac fe'i rheolwyd gan staff perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru.

- 1.12 Bwriad Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth oedd hybu sector coedwigaeth cryf ac sy'n tyfu er mwyn helpu i gyflawni targedau'r Goedwig Genedlaethol. Yn rhannol, roedd y Cynllun yn fenter i gynorthwyo'r sector i adfer o effeithiau COVID-19, ond ei brif ffocws oedd cynyddu capasiti'r sector meithrinfeydd coed. Roedd yn gynllun cyfalaf wedi'i ariannu'n uniongyrchol drwy Raglen y Goedwig Genedlaethol, yn darparu arian i brynu neu ddiweddarau offer, at ddibenion cynaeafu a thrin coed, er mwyn mynd i'r afael â chlefyd coed ynn, a chael mynediad i fannau anghyraeddadwy er mwyn eu gwella. Diben darparu arian i feithrinfeydd coed oedd cynyddu eu capasiti yn gyffredinol, a chynyddu faint o goed o stoc leol sydd ar gael. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ddangos bod angen eu prosiect, a bod marchnad i'w gweithgareddau a'u cynnyrch.
- 1.13 Diben y prosiectau Arddangoswyr yw dysgu gwersi ynglŷn â gwahanol ddulliau cyflawni posibl ar gyfer y Goedwig Genedlaethol yn erbyn tair elfen waith benodol a thema drawsbynciol newid hinsawdd / datgarboneiddio. Y tair elfen waith yw:
- Ansawdd amgylcheddol (e.e. ansawdd bioamrywiaeth, dŵr ac aer)
  - Sector coedwigaeth cystadleuol a chynaliadwy (e.e. mwy o bren yn cael ei dyfu, ei brosesu a'i ddefnyddio yng Nghymru; gweithlu ffyniannus a medrus)
  - Coetiroedd i bobl (e.e. pobl yn ymwneud â'u coetiroedd lleol ac yn elwa ohonynt; byw bywydau iachach; a chyfleoedd addysg a dysgu)

### Cyllideb y Rhaglen

- 1.14 Mae'r cyllidebau a ddyrannwyd ar gyfer y cynlluniau i'w gweld isod:

**Tabl 1.1: Cyllideb Ddyranedig y Rhaglen yn ôl Cynllun**

| Cyllideb y rhaglen (£) | Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth | Cyfoeth Naturiol Cymru | Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol | Coedwigoedd Bychain Cadwch Gymru'n Daclus | Cynllun Plannu Coed Cadwch Gymru'n Daclus | Cyfanswm y Gyllideb (£) |
|------------------------|---------------------------------------|------------------------|---------------------------------------------------------------|-------------------------------------------|-------------------------------------------|-------------------------|
|                        | 2,340,000                             | 2,100,000              | 1,000,000 <sup>10</sup>                                       | 140,000                                   | 60,000                                    | <b>5,640,500</b>        |

Ffynhonnell: Tîm Rhaglen y Goedwig Genedlaethol, Llywodraeth Cymru

<sup>10</sup> Cyfrannodd NLHF £600,000 yn ychwanegol mewn cyllid referniw

## **Gwerthusiad**

1.15 Ym mis Chwefror 2021, comisiynwyd Wavehill i gynnal gwerthusiad o Brosiectau Arddangos Coedwig Genedlaethol Cymru. Nod y gwerthusiad yn benodol yw archwilio'r amcanion lefel uchaf canlynol:

- Archwilio effeithiolrwydd gwahanol fodelau ariannu a dulliau cyflawni;
- Deall sut orau i gynnwys cymunedau amrywiol yn y gwaith o greu Coedwig Genedlaethol Cymru; ac
- Barnu effeithiolrwydd yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid a nodi meysydd i'w gwella.

## 2. Methodoleg

- 2.1 Elfen allweddol o'r gwerthusiad oedd casglu data mewn perthynas â'r pedwar cynllun arddangos er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn â modelau cyflawni yn y dyfodol, yn ogystal ag ystyried cwestiynau trawsbynciol ynglŷn â chynnwys cymunedau ac effeithiolrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â Rhaglen y Goedwig Genedlaethol.
- 2.2 Er mwyn gwneud hyn, dechreuwyd ar y gwaith gwerthuso drwy ddatblygu Theori Newid i gwmpasu'r cynlluniau arddangos a'u cyfraniad i raglen y Goedwig Genedlaethol.
- 2.3 Y peth gorau yw ystyried Theori Newid yn fap sy'n disgrifio'r pethau y mae angen iddynt ddigwydd er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol a fwriedir a diwallu'r angen am yr ymyriad (a chyflawni'r sail resymegol). Y mae hefyd yn ffordd i nodi'r tybiaethau a wneir yn y 'gadwyn achosol' a nodir, rhwystrau y mae angen eu goresgyn, a'r galluogwyr – y pethau y mae angen iddynt fod yn eu lle er mwyn i'r theori weithio.
- 2.4 Mae'r Theori Newid sy'n sylfaen i'r gwaith gwerthuso i'w gweld yn Atodiad A.
- 2.5 Fel a nodwyd eisoes, mae pandemig COVID-19, cyfyngiadau symud, canllawiau aros gartref a mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi effeithio ar allu rheolwyr y cynlluniau a'r prosiectau i gyflawni. Un o dasgau allweddol y gwerthusiad hwn oedd ystyried effaith y mesurau hyn am ei bod yn bwysig ystyried y cyflawniad yn y cyd-destun hwn.
- 2.6 Mae'r gwerthusiad yn dibynnu ar gymysgedd o ddata ansoddol a dau arolwg yn ogystal â data monitro ac adroddiadau cynnydd a ddarparwyd fel rhan o'r rhaglen. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mehefin 2021 a gohiriwyd y gwaith o gasglu data yn ystod y cyfnod o 5 wythnos cyn etholiadau'r Senedd 2021. Defnyddiwyd y dulliau canlynol, a lywiwyd gan y Theori Newid yn Atodiad A, i gasglu data i gynorthwyo'r gwerthusiad:
- Cyfweiliadau cwmpasu lled-strwythuredig ag 11 o reolwyr cynllun a staff cyflawni allweddol a nodwyd gan dîm rhaglen y Goedwig Genedlaethol.
  - Cyfweiliadau lled-strwythuredig ag 14 o reolwyr prosiect a staff cyflawni ar draws y cynlluniau fel a ganlyn:

- Cynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – pump
  - Cynllun Coedwigoedd Bychain Cadwch Gymru'n Daclus – chwech<sup>11</sup>
  - Cynllun Gwella Cyfoeth Naturiol Cymru – tri.
- Arolwg ar-lein gydag ymgeiswyr Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth. Dosbarthwyd yr arolwg i bob un o'r 76 o ymgeiswyr (48 llwyddiannus a 28 aflwyddiannus). Derbyniwyd a dadansoddwyd ugain o ymatebion – 15 gan ymgeiswyr llwyddiannus, a phump gan ymgeiswyr aflwyddiannus, sy'n golygu cyfradd ymateb o 25.6% yn gyffredinol (cyfradd ymateb o 31.2% ymysg yr ymgeiswyr llwyddiannus ac 17.8% ymysg yr ymgeiswyr aflwyddiannus).
  - Arolwg ar-lein gyda'r rhai a oedd yn bresennol yn y tridiau o ddigwyddiad, *Coedwig Genedlaethol Cymru – Eich Safbwyntiau a'ch Lleisiau*. Anfonwyd yr arolwg adborth i bob un o'r 268 o gyfranogwyr a derbyniwyd 44 o ymatebion, sy'n gyfradd ymateb o 16.4%. Roedd cyfres arall o ddigwyddiadau wedi'i hanelu at ymgysylltu â grwpiau mwy amrywiol ac nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r arolwg yma am fod y digwyddiadau i'w cynnal y tu allan i amserlen y gwerthusiad hwn.
  - Cyfweiliadau lled-strwythuredig â naw o Swyddogion Polisi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y diwydiant yn ehangach.
  - Naw astudiaeth achos o werthusiad prosiectau.
- 2.7 Rhoddwyd y dewis i holl ymatebwyr yr arolygon a chyfranogwyr y cyfweiliadau gymryd rhan yn yr ymchwil yn Gymraeg neu Saesneg.
- 2.8 Arweiniodd amseriad y gwerthusiad at sawl her o ran casglu a dadansoddi'r data. Y bwriad yn wreiddiol oedd cynnal y gwerthusiad ar draws mis Chwefror a mis Mawrth 2021, ond roedd llawer o'r personél cyflawni yn brysur yn ystod y cyfnod ymchwil arfaethedig am fod diwedd y flwyddyn ariannol a diwedd yr un flwyddyn o gyllid yn prysur agosáu. Roedd hyn yn golygu bod llawer yn dal yn brysur yn cyflawni. Roedd y ffaith nad oedd personél allweddol ar gael wedi'i waethygu gan y ffaith bod y cyfnod cyn-etholiadol yn cychwyn tuag at ddiwedd mis Mawrth ac yn sgil hyn cafodd

---

<sup>11</sup> Datblygwyd pump o safleoedd Coedwigoedd Bychain ond am i reolwr prosiect mewn un safle adael heb gyswllt hysbys arall i siarad â hwy, pedwar o'r chwe phrosiect yn unig â gyfwelwyd.

y gwerthusiad ei ohirio a'i ymestyn i fis Mehefin 2021. Yn y dyfodol, dylai gwerthusiadau yn ddelfrydol gael eu cynnal y tu allan i gyfnodau ariannol a chyflawni allweddol ac o bosibl dylent hefyd gael eu haddasu gan ystyried amserlenni cyflawni gwahanol (hynny yw, roedd prosiect Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn dal i fod ar gamau cymharol gynnar). Oherwydd amseriad y gwerthusiad, roedd modd i reolwyr y cynlluniau a'r prosiectau siarad am amcanion a oedd yn eu lle ond nid oedd modd iddynt siarad gymaint am ganlyniadau am mai tynnu at ei derfyn oedd y gwaith cyflawni mewn llawer o achosion.

### **Pandemig y coronafeirws**

- 2.9 Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar gynnal y gwaith gwerthuso a gwaith cyflawni'r cynllun.
- 2.10 Ar wahân i Gynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a oedd wedi'i gynllunio i redeg am ddwy flynedd, cynlluniau un flwyddyn oedd y gweddill a oedd wedi'u datblygu a'u cymeradwyo tuag at ddiwedd 2019 a dechrau 2020. Bwriadwyd lansio'r cynlluniau yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2020/21. Roedd hyn yn cyd-daro â phandemig y coronafeirws, cyfyngiadau symud cysylltiedig, cadw pellter cymdeithasol, a mesurau iechyd cyhoeddus ehangach a orfodwyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru.
- 2.11 Cyfeirir at effeithiau'r pandemig drwy gydol yr adroddiad hwn lle y maent yn berthnasol, ond effeithiwyd ar bob un o'r cynlluniau i ryw raddau gan rwystrau a heriau cyffredin a gododd o'r pandemig. Yn fyr, roedd y tarfiadau hyn yn cynnwys:
- Byrhau'r amser a oedd ar gael i gyflawni
  - Effeithio ar gyswllt rhwng rheolwyr y cynlluniau a'r prosiectau am fod staff ar ffyrlo ac ar y rhestr warchod
  - Cyfyngu ar fomentwm grwpiau cymunedol a'r arfer o gynnwys cymunedau lleol mewn gwaith cynllunio, gweithredu a chyflawni
  - Cyfyngu ar hyfforddiant gwirfoddol a'r arfer o gynnwys gwirfoddolwyr mewn gwaith cyflawni
  - Cyfyngu ar gyfleoedd i hyrwyddo prosiectau (hynny yw, lansio safleoedd)
  - Creu amgylchedd mwy heriol ar gyfer caffael peiriannau ac offer.

- 2.12 Fel cynlluniau a luniwyd i ymgysylltu â gwirfoddolwyr, cymunedau ac ysgolion, prosiectau Coedwigoedd Bychain a Phlannu Coed Cadwch Gymru'n Daclus gafodd eu heffeithio'n fwyaf sylweddol gan fesurau cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol. Er y bu angen addasu'r prosiectau hyn er mwyn cyflawni'u hamcanion (gan gynnwys mwy o rôl i dîm Cadwch Gymru'n Daclus a chontractwyr yn y gwaith plannu, croesawu niferoedd is o wirfoddolwyr mewn lleoliadau sy'n ddiogel o ran COVID-19, ac addasu cynlluniau i ymgysylltu ag ysgolion wyneb yn wyneb i ddigwyddiadau rhithwir) ni ddylid ystyried y flwyddyn beilot hon yn nodweddiadol o'r effaith y byddai'r cynlluniau'n debygol o fod wedi'i chael. Roedd rheolwyr y cynllun yn cytuno ei bod yn anodd mesur faint o gefnogaeth a allai fod wedi'i cholli wrth i bobl fethu â chymryd rhan mewn gwaith plannu ac yn sgil ymgysylltiad rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb o ganlyniad i'r cyfyngiadau mewn ymateb i'r pandemig.
- 2.13 Yn ychwanegol at effaith y pandemig ar y cynlluniau a'r prosiectau arddangos, mae hefyd wedi effeithio ar natur y gwerthusiad a'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data. Gwnaed yr holl waith maes o bell drwy gasglu data ar-lein a chynnal cyfweiliadau drwy gyfleusterau ffôn a fideo gynadleda. Nid oedd modd cynnal unrhyw ymweliadau â safleoedd, gan olygu na chafwyd yr elfen o drafodaethau mwy anffurfiol.


### **Trosolwg o Ganfyddiadau'r Gwerthusiad**

- 2.14 Nod craidd menter y prosiectau arddangos yw profi amrywiaeth o ddulliau a phrosesau ariannu a chyflawni er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau Rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. O ystyried yr agenda eang y mae Coedwig Genedlaethol Cymru'n gysylltiedig â hi, mae'r cynlluniau arddangos, ac felly'r prosiectau, yn cydweddu ag amcanion penodol y Goedwig Genedlaethol ond nid y cyfan.
- 2.15 Mae hefyd angen i'r canfyddiadau hyn gael eu hadolygu yn erbyn y ffaith eu bod yn cyfeirio at gynlluniau sy'n weithgareddau cyntaf yn rhaglen hirdymor y Goedwig Genedlaethol ac mae'r gwaith o'u profi a'u gwerthuso yn bwydo i mewn i'r gwaith cyflawni sy'n rhedeg hyd at fis Mawrth 2026. Mae Ffigur 2.1 ar y dudalen nesaf yn dangos sut mae'r gwerthusiad o'r prosiectau arddangos yn bwydo i mewn i ymgynghoriad pellach (tuag at ddiwedd 2021) a'r cyfnod gweithredu llawn o fis Ebrill 2022.

- 2.16 Mae'r penodau canlynol felly yn cefnogi'r cyfraniad hwn gan gyflwyno'r canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phob cynllun ar sail gwaith maes gydag amryw randdeiliaid y cynlluniau a'r prosiectau.



**Ffigur 2.1: Amlinelliad o Amserlen ar gyfer Cyflawni Rhaglen y Goedwig Genedlaethol i'r Dyfodol**



**Gweithgareddau/digwyddiadau allweddol**

**Darganfod a chasglu tystiolaeth**

29/06/2021 – 16/03/2022

**Cyhoeddi gwerthusiad o'r prosiect arddangos**

Hydref 2021

**Cyhoeddi'r ymgynghoriad**

01/10/2021

**Ymgynghoriad**

26/11/2021 – 16/03/2022

Ffynhonnell: Tîm rhaglen y Goedwig Genedlaethol

### **3. Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (Forest Industry Recovery Scheme- FIRS)**

#### **Disgrifiad**

- 3.1 Mae Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn rhagweld yr angen i adeiladu capasiti yn y diwydiant coedwigaeth er mwyn ymateb i'r galw tebygol yn y dyfodol yn sgil Rhaglen y Goedwig Genedlaethol a datblygiadau cysylltiedig. Fel y nododd cydgysylltydd y Cynllun Adfer, gallai'r farchnad fod yn ehangu mewn ychydig flynyddoedd, ond heb fod digon o goed i ymateb i'r galw.<sup>12</sup> Y mae hefyd yn rhannol yn ymateb i heriau COVID-19, a allai fod wedi tanseilio capasiti contractwyr coedwigaeth a'r sector meithrinfeydd coed i gyflawni.
- 3.2 Nod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yw darparu arian i'r diwydiant coedwigaeth i wneud buddsoddiadau cyfalaf er mwyn ei alluogi i gyfrannu at adferiad gwyrdd.

#### **Dylunio a gweithredu**

- 3.3 Roedd y cynllun cyllid cyfalaf hwn yn agored i ymarferwyr sy'n ymwneud â thyfu, stocio a chynaeafu rhywogaethau a stoc priodol o goed yn gynaliadwy, a rheoli coed heintiedig. Roedd y cynigion buddsoddi cymwys yn cynnwys prynu offer e.e. gwaith diogelwch coed yn gysylltiedig â chlefyd coed ynn, ac adeiladu, caffael a gwella eiddo ansymudol. Roedd y grantiau a oedd ar gael yn amrywio o leiafswm o £5,000 i fwyafswm o £182,000 y person. Roedd creu meithrinfeydd coed yn un o flaenoriaethau'r cynllun, a mynd i'r afael â chlefyd coed ynn wedi hynny.<sup>13</sup>
- 3.4 Roedd llawer o'r rhai a ymgeisiodd am grant yn gweithio yn y sector preifat, yn aml yn gweithredu fel unig fasnachwyr neu bartneriaethau heb lawer o gyflogeion. Mae ffigurau am amrywiaeth y sefydliadau yr oedd yr ymgeiswyr yn ymwneud â hwy, ac ym mha awdurdodau lleol yr oeddent yn gweithio, i'w gweld yn Atodiad B.
- 3.5 Elfen allweddol o Brosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol yw cynnwys cymunedau, yn arbennig cymunedau difreintiedig. Mae'r ymatebion i'r cyfweiliad yn dangos bod nifer o'r cyfranogwyr wedi gweithio neu'n gweithio ar hyn o bryd gydag amrywiaeth eang o gyrff trydydd sector, cyrff sydd â chefnogaeth wirfoddol sylweddol eu hunain. Yn ogystal â sefydliadau anllywodraethol, roedd nifer o

---

<sup>12</sup> Gohebiaeth bersonol rhwng tîm y gwerthusiad a rheolwr y cynllun 23/02/2021

<sup>13</sup> *ibid*,

gyfranogwyr yn dweud eu bod yn gweithio gyda grwpiau ieuenctid ac ysgolion, lleiafrifoedd ethnig, grwpiau LGBT+ a menywod, a phobl sydd â heriau iechyd corfforol a meddyliol sy'n golygu eu bod yn targedu grwpiau yn ôl demograffeg, nodweddion penodol neu anghenion (Ffigur B.2).

- 3.6 Nid yw'n syndod bod 18 o brosiectau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn cynnwys prynu offer (Tabl 3.1). Ar sail y data sydd ar gael, cyfanswm gwerth y grantiau a ddarparwyd ar gyfer addasu neu brynu offer paratoi safle oedd £425,000.<sup>14</sup> Cyfanswm gwerth grantiau'r pum cais i addasu neu brynu offer meithrinfa goed oedd £1,566,876 er nad yw'n hysbys a oedd un o'r rhain, gwerth £1,400,000, yn llwyddiannus. Cyfanswm y chwe chais a oedd yn gysylltiedig â rheoli clefyd coed ynn oedd £190,785.

**Tabl 3.1: Diben Cais pob Prosiect yng Nghynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth**


| Diben y cais                                                                              | Nifer yr ymatebion |
|-------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|
| Prynu offer paratoi safle                                                                 | 9                  |
| Prynu offer rheoli coed ynn                                                               | 8                  |
| Prynu peiriannau / offer meithrinfa goed                                                  | 6                  |
| Gwella capasiti prosesu hadau / addasu peiriannau / offer gan gynnwys offer paratoi safle | 7                  |

Ffynhonnell: Arolwg Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth 2021, N=20. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Am beth y gwnaethoch ymgeisio?' ac roedd modd iddynt ddewis mwy nag un ymateb.

- 3.7 Ar raddfa o 1 to 5, roedd saith o'r 20 ymgeisydd a lenwodd yr arolwg o'r farn bod y broses yn heriol iawn neu'n eithriadol o heriol, ac nid oedd chwech yn meddwl ei bod yn sylweddol o heriol. Efallai bod hyn yn adlewyrchu pa mor hawdd oedd i'r ymgeiswyr lenwi ceisiadau ar-lein, pa mor gyfarwydd ydynt â phrosesau ymgeisio, sut mae'r meini prawf sgorio wedi'u hamlinellu yn y deunydd cyfarwyddyd, a'u hyder wrth fynegi'r derminoleg briodol, er nad oes modd cadarnhau hyn. Disgrifiodd cydgysylltydd y cynllun y broses ymgeisio yn fanwl, gan dystio i'w symlrwydd.

<sup>14</sup> Rhestr Derbyn a Gwrthod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth 2020-21 [1]. Taenlen Excel. Darllenwyd Chwefror 2021

**Ffigur 3.1: Pa mor heriol i brosiectau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth oedd y broses o ymgeisio am arian**



Ffynhonnell: Arolwg Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (Pob Ymgeisydd) 2021, N=20. Gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'Ar raddfa o 1-5 (gyda 5 yn golygu heriol iawn ac 1 yn golygu nid yn heriol o gwbl), Pa mor heriol oedd y broses o ymgeisio am arian?'

- 3.8 Roedd 14 o'r ymgeiswyr yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth ategol gan Lywodraeth Cymru i'w cynorthwyo â'u ceisiadau i'r Cynllun Adfer. Fodd bynnag, dywedodd chwech o'r ymgeiswyr nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth neu gymorth digonol yn ystod y broses, sy'n awgrymu bod diffyg cynefindra â phroses o'r fath mewn rhai achosion. Dywedodd pump ymgeisydd nad oeddent wedi derbyn adborth digonol ynglŷn â pham nad oedd eu cynnig wedi llwyddo<sup>15</sup>, ac roedd y sylwadau'n cynnwys:

*"Ni chawsom wybod nad oeddem ni'n llwyddiannus, hyd yn oed. Wedi i 1 mis fynd heibio, mi wnes i anfon e-bost i holi am y statws ond chlywais i ddim byd yn ôl."*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

*"Byddai unrhyw adborth o unrhyw fath wedi bod yn ddefnyddiol. Yr unig beth gefais i oedd llythyr yn dweud nad oeddwn i'n llwyddiannus."*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

<sup>15</sup> Roedd oedi cyn darparu adborth oherwydd cyfnod derbyn o 10 diwrnod, cyn y gellid anfon llythrau i ymgeiswyr aflwyddiannus.

*“Esboniad pam nad oeddwn i’n llwyddiannus a sut gallwn i wella yn y dyfodol.”*


Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

Dylid nodi mai anecdotaidd yw’r datganiadau hyn, ac nid ydynt wedi’u triongli gyda data eraill. Dylid felly eu hystyried yn y cyd-destun hwn.

Yn ddiddorol, mae’n ymddangos nad oes cydberthyniad rhwng maint sefydliad, yr arian yr ymgeisir amdano, ac i ba raddau yr ystyriwyd bod y broses yn heriol.

- 3.9 Roedd 13 o ymatebwyr yn ymwybodol o’r cysylltiadau rhwng Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth a Rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn ehangach, er nad oes gwybodaeth ynglŷn â faint maent yn ei wybod a’i ddeall am y cysylltiadau hynny. Nid oedd saith o’r rhai a holwyd yn ymwybodol o gyswllt. Mae hyn yn ddiddorol o ystyried bod canllawiau’r Cynllun Adfer wedi’u labelu â ‘#CoedwigGenedlaetholCymru’ ar y clawr<sup>16</sup> ac yn cyfeirio’n benodol ati yng nghynnwys y canllawiau. Fodd bynnag, nid yw’r ffurflen gais ei hun yn cyfeirio at Raglen y Goedwig Genedlaethol.

**Ffigur 3.2: Ymwybyddiaeth bod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn rhan o fenter ehangach i ddatblygu Coedwig Genedlaethol Cymru**



Ffynhonnell: Arolwg Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (Pob Ymgeisydd) 2021. N=20. Gofynnwyd i’r ymatebwyr, ‘I ba raddau’r ydych yn ymwybodol bod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn rhan o fenter ehangach i ddatblygu Coedwig Genedlaethol?’

<sup>16</sup> [Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth](#)

## **Cyflawni**

- 3.10 Rheolwyd y cynllun fel system grantiau canolog. Fel arfer, byddai rhywun sydd â diddordeb yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am ffurflen gais. Proses ar-lein ydoedd a gallai ymgeisydd gyflwyno ymholiadau, ond nid oedd cyngor yn cael ei roi na'r cyfle i drafod syniadau cynnar am brosiectau, ar wahân i gyngor ar gymhwysedd. Derbyniwyd ceisiadau am ffurflenni cais gan 120 o bobl, a rhoddwyd cod cyfeirnod unigryw i bob un i gael mynediad i'r system. Derbyniwyd tua 79 o geisiadau'n ffurfiol, ac roedd tua 70 o'r rhain yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol.<sup>17</sup> Roedd y broses o gyflwyno cais ffurfiol i wneud penderfyniad yn cymryd tua 10 wythnos. Ystyriwyd y ceisiadau gan banel o dri pherson mewn dwy garfan, yn seiliedig ar feini prawf a ddisgrifiwyd yng nghanllawiau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth. Roedd yr aseswyr yn cynnwys un person o Lywodraeth Cymru, un o Gyfoeth Naturiol Cymru ac un o Lywodraeth yr Alban. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar system sgorio, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r canllawiau.

## **Cyflawni'r amcanion**

- 3.11 Bwriad Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yw cynyddu capasiti'r diwydiant coedwigaeth i ymateb i'r galw am ragor o goed, a chynorthwyo i wella ased coetir y genedl.
- 3.12 Dylai cyflawni amcanion a chanlyniadau gael eu hystyried mewn tair ffordd:
- Y rhai sy'n cael eu cyflawni gan yr ymgeiswyr
  - Rhai Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth
  - Rhai'r Goedwig Genedlaethol.
- 3.13 Mae'r Adroddiad ar Brif Bwyntiau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth<sup>18 19</sup> yn nodi'n glir mai ei fwriad yw cynorthwyo buddsoddiad yn y sector coedwigaeth/coetiroedd i gynyddu'u capasiti, yn benodol er mwyn prynu offer i ddarparu coed, paratoi'r tir, gwaith diogelwch coed, a gwella'r cynaeafu<sup>20</sup>. O ystyried bod 16 o'r 20 o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi cwblhau eu prosiect ar

---

<sup>17</sup> Gohebiaeth bersonol rhwng cydgysylltydd y cynllun a'r tîm gwerthuso ar 23/02/2021

<sup>18</sup> Prosiect y Goedwig Genedlaethol: Adroddiad ar y Prif Bwyntiau Medi 2020 fersiwn 00.01 LIC

<sup>19</sup> Gohebiaeth bersonol rhwng cydgysylltydd y cynllun â'r tîm gwerthuso ar 23/02/2021

<sup>20</sup> Gohebiaeth bersonol rhwng cydgysylltydd y cynllun â'r tîm gwerthuso ar 23/02/2021

amser ac yn unol â'r gyllideb, hyd yn oed yn wyneb tywydd heriol a phandemig COVID-19, mae modd dadlau bod yr amcan hwn wedi'i gyflawni.<sup>21</sup>

- 3.14 O'r 16 o ymatebion yma, dywedodd pump y byddai'r offer newydd yn helpu i gynyddu rhagolygon cyflogaeth a'r cyfle i ehangu eu gwaith.
- 3.15 Mewn chwe achos, roedd cynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o ran echdynnu a phrosesu, a gwella gwerth y pren sydd hyd yma wedi'i ystyried yn amhroffidiol, yn cael ei ystyried yn hanfodol, ac felly hefyd gynyddu'r potensial ar y fferm i blannu a phrosesu pren wedi'i sychu mewn odyd i'w ddefnyddio ar gyfer biomas a siarcol.
- 3.16 Roedd un enghraifft a ddarparwyd gan yr ymatebwyr yn cyfeirio at grefftwy'r lleol yn defnyddio pren wedi'i brosesu mewn prosiectau, megis y parc chwarae newydd i blant yn Llanfihangel Troddi. Mae'r effeithlonrwydd yma, ynghyd â'r gallu i gael mynediad i ardaloedd nad oedd yn bosibl mynd yno'n gorfforol yn flaenorol, wedi cynyddu'r potensial i reoli coetiroedd yn gadarnhaol.

*"Mae fy mhrosiect wedi fy ngalluogi i gysylltu â pherchnogion tir sydd â choetiroedd aneconomaidd bach i reoli eu coedwigoedd a darparu incwm cymharol fach iddynt. Mae gwerth i'r coedwigoedd hyn bellach."*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

- 3.17 Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod gwerthoedd cymdeithasol ac addysgol yn ganlyniadau arfaethedig pwysig oherwydd y cynnydd yn y capasiti i reoli coetiroedd:

*"Gobeithiwn annog grwpiau ieuenctid lleol i hwyluso'r coetir ar gyfer gweithgareddau awyr agored ynghyd â chynnig gwersylla gwyllt / teithiau cerdded yn y coed yn y dyfodol."*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

*"Fforddio ardal o harddwch ac iechyd corfforol yn ogystal â meddyliol, er mwyn cael cerdded, ymlacio a chymdeithasu heb bwysau na disgwyliadau. Hefyd, ar gyfer addysg a gwybodaeth drwy ganolfan sydd ar agor i ysgolion a sefydliadau eraill."*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

---

<sup>21</sup> Gohebiaeth bersonol rhwng cydgysylltydd y cynllun â'r tîm gwerthuso ar 23/02/2021

3.18 Mewn un achos, roedd yr ymatebydd yn ystyried eu hunain:

*“...yn ganolbwynt i sefydliadau eraill gael offer a chynghor arbenigol ynglŷn â chasglu hadau a phlannu.”*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

3.19 Dywedodd arweinwyr prosiectau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth hefyd fod ffactorau bioamrywiaeth ac ecosystem yn ganlyniadau arfaethedig allweddol sy'n codi o gynnydd yng nghapasiti'r diwydiant:

*“Drwy newid strwythur y coetiroedd o fod yn wastad eu hoedran i fod yn anwastad, rwy'n newid lefelau'r golau yno, a fydd yn helpu i gynyddu lefelau bioamrywiaeth.”*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

*“Bydd plannu coed newydd o gymorth i ddiwydiant coedwigaeth gwell a mwy integredig yng Nghymru drwy gyfuno cynhyrchu pren â buddion lluosog i ffermydd, gwella dŵr, bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn ogystal â chynhyrchu pren at eu defnydd eu hunain ac er mwyn creu gwerth ychwanegol mewn melinau lleol. Bydd mwy o goetiroedd yn gwneud Cymru'n fwy cynaliadwy ac yn well lle i fyw yn ogystal â chyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd.”*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

*“Bydd y coetiroedd yn cael eu stocio gan goed wedi'u tyfu'n lleol o stoc addas, gan helpu i gynyddu eu gallu i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau.”*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

3.20 Cyfeiriodd naw at gynnydd mewn pwysau i waredu coed heintiedig a phlannu sbesimenau cydnerth yn eu lle, mewn ymateb i faterion yr hinsawdd. Roedd un arall yn dweud bod cyflawni'r canlyniadau'n amodol ar:

*“Y cyhoedd a'r diwydiant yn dod yn fwy ymwybodol o gynaliadwyedd defnyddio pren lleol o ansawdd uchel.”*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021



- 3.21 Dywedodd un person mai ffactor allweddol ar gyfer cyflawni canlyniadau yng Nghynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yw polisi ehangach y llywodraeth ei hun:

*“Llywodraeth Cymru i gyflawni ar ei manifest o gynyddu'r arfer o blannu coed yng Nghymru, a rhoi ar waith alwadau i blannu a rheoli coetiroedd yn weithredol. Bydd methiant y Llywodraeth i gyflawni'i haddewidion heddiw yn effeithio'n negyddol ar yr economi wledig mewn degawdau i ddod.”*

Ymatebydd i holiadur Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, 2021

### Sylwadau clo

- 3.22 I gloi, wrth adolygu'r canfyddiadau uchod, mae'r cryfderau a'r gwendidau canlynol wedi'u nodi ar gyfer Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth.

| Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cryfderau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Gwendidau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Meini prawf a phroses ymgeisio clir, er nad dyma oedd barn pob ymgeisydd</li> <li>Cyflawni ymarferol; mesuradwy a gweladwy</li> <li>Cymorth da gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y broses ymgeisio</li> <li>Cymhelliad y tu ôl i'r ceisiadau'n bennaf oedd adeiladu capasiti a/neu wella effeithlonrwydd ac ati, ond roedd rhai hefyd yn ymwneud â gwella'r amgylchedd, iechyd a lles</li> <li>Roedd llawer o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn brofiadol ar weithio gydag amrywiaeth o fuddiannau cymunedol</li> <li>Roedd deiliaid grantiau yn rheoli'r prosiectau mewn ffordd gymharol syml; dywedodd mwyafrif prosiectau'r arolwg y gwnaeth eu cynllun redeg yn unol â'r amserlen er gwaethaf ffactorau allanol</li> <li>Roedd amryw amcanion a chanlyniadau'r dyfodol y cyfeiriodd ymgeiswyr llwyddiannus atynt yn ymwneud ag adeiladu capasiti, gwerth cymdeithasol ac addysgol, a ffactorau bioamrywiaeth ac ecosystem</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Amserlenni – prin oedd y cyfle i gynnal trafodaeth gynnar rhwng sefydliad a'r corff dyfarnu i nodi cyfradd ymyriadau realistig / fforddiadwy / perthnasol a fyddai'n gwneud gwahaniaeth. Y rheswm am hyn oedd am fod yn rhaid i'r cynllun gael ei gyflawni ym mlwyddyn ariannol 2020/21 oherwydd gofynion cyllidebol</li> <li>Prosesau'n rhy fiwrocrataidd a chymhleth i lawer o ymgeiswyr</li> <li>Teimlodd rhai ymgeiswyr aflwyddiannus y gallai adborth ar gynigion fod wedi bod yn fanylach.</li> </ul> |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r Gwerthusiad

## **4. Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Coetiroedd Cymunedol: Canfyddiadau Allweddol**

### **Disgrifiad**

- 4.1 Mae cynllun Grantiau Cyfalaf Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri (cyfanswm o £2.1 miliwn) yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda Llywodraeth Cymru'n dyrannu £1.5 miliwn (cyfalaf) i'r gronfa a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cyfrannu £600,000 (refeniw). Mae'r cynllun, sy'n agored i sefydliadau nid-er-elw, yn cynnig grantiau o rhwng £10,000 a £250,000 a hyd at 100% o gyllid.
- 4.2 Bwriad y cynllun yn ôl yr hyn a gyhoeddwyd yw adfer, creu, cysylltu a rheoli coetiroedd. Yn ogystal â meini prawf yn ymwneud â choetiroedd o ansawdd da a phlannu coed, mae'r cynllun yn gwahodd ceisiadau am brosiectau sydd â chymunedau lleol yn cyfrannu'n sylweddol ar y sail y bydd cynnwys y gymuned yn helpu i annog pobl i ddefnyddio'r coetiroedd. Awgrymir y gallai rôl y gymuned gynnwys:
- Gweithgareddau i gynnwys pobl mewn camau i adfer a chreu coetiroedd
  - Cyfleoedd economaidd
  - Arloesi a datblygu
  - Gweithgareddau addysgol
  - Rheoli'r coetiroedd.
- 4.3 Amcanion lefel uchaf y cynllun yw:
- Cynyddu cyswllt pobl a'r gymuned â natur
  - Cynyddu'r carbon a gaiff ei ddal a'i storio ar ystad Awdurdodau Lleol er mwyn cynorthwyo i ddatgarboneiddio'r ystad gyhoeddus
  - Cynyddu'r arfer o grwpiau cymunedol yn rheoli coetiroedd
  - Adfer asedau cyhoeddus presennol sy'n cael eu tanreoli er mwyn dal a storio cymaint o garbon â phosibl
  - Cynyddu coetiroedd hygyrch ledled Cymru.<sup>22</sup>

---

<sup>22</sup> Briff Prosiect Arddangos Cyd-ymgyrch Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Llywodraeth Cymru, 2020

- 4.4 Roedd cydgysylltydd y cynllun yn ystyried mai cyfraniad allweddol y cynllun i'r Goedwig Genedlaethol oedd caniatáu i'r gymuned fod yn rhan o ddatblygu'r Goedwig Genedlaethol ac mae'n amlwg o ddogfen briff y gyd-ymgyrch bod y cynllun yn cydweddu â sawl elfen waith y Goedwig Genedlaethol.
- 4.5 Dechreuodd cynllun Coetiroedd Cymunedol dderbyn a chymeradwy ceisiadau ym mis Hydref 2020. Pan ddechreuodd y gwerthusiad o Brosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol, roedd pum cais wedi'u cymeradwyo. Mae cofnodion Bwrdd y Goedwig Genedlaethol o ddechrau mis Chwefror 2021 yn dangos bod 16 o brosiectau eraill ar waith â chael eu datblygu gyda rhwydwaith Llais-y-Goedwig (rhwydwaith coetiroedd cymunedol Cymru) a grwpiau cymunedol.<sup>23</sup>
- 4.6 O ystyried bod dau o'r prosiectau Coetiroedd Cymunedol a gymeradwywyd ar gam cynnar (cyn 'caniatâd i ddechrau'), tri phrosiect yn unig a wnaeth gynydd digonol gael eu cynnwys yn y gwerthusiad hwn. Roedd i'r rhain strwythurau sefydliadol gwahanol iawn, gan gynnwys un prosiect wedi'i arwain yn llwyr gan y gymuned a dau brosiect wedi'u harwain ar y cyd:
- Coedwigoedd Rhyd-y-Penau a Gwern-y-Bendy – wedi'i arwain gan Ddŵr Cymru gan ddatblygu grŵp 'Cyfeillion'
  - Carving a Future for Craig Gwladus Woods – wedi'i arwain ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyfeillion Craig Gwladus
  - Gwaith ar goed, draenio a garddwriaeth i wella Sgwâr Victoria, Penarth – dan arweiniad cymunedol Cyfeillion Sgwâr Fictoria

### **Y broses ymgeisio a'r dyluniad**

- 4.7 Yng nghyfarfod Bwrdd Prosiect y Goedwig Genedlaethol ym mis Ionawr 2021, mae cofnodion y cyfarfod yn dangos, hyd at hynny, mai lefelau isel o ymholiadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r cynllun Coetiroedd Cymunedol.<sup>24</sup> Pan y'u cyfwelwyd, roedd cydgysylltydd y cynllun yn teimlo bod y prosiectau a ariannwyd hyd yma yn cydweddu'n iawn â'r cynllun. Fodd bynnag, roeddent yn mynegi pryder ynglŷn â nifer isel y ceisiadau. Er nad yw'n gwbl glir pam fod y cynllun wedi denu cyn lleied o ymholiadau, awgrymodd cydgysylltydd y cynllun y gallai fod mai'r rheswm dros y

---

<sup>23</sup> Bwrdd Prosiect y Goedwig Genedlaethol 16<sup>eg</sup> Chwefror 2021

<sup>24</sup> Bwrdd Prosiect y Goedwig Genedlaethol 12<sup>fed</sup> Ionawr 2021. Eitem 4.8

diddordeb isel hwn oedd y cymhlethdod sydd ynghlwm wrth adfer a chreu coetir, ac y gallai'r meini prawf cyllido fod yn edrych yn hynod anodd.

4.8 Adlewyrchwyd hyn i ryw raddau gan reolwyr y prosiectau. Er bod gan bob un rywfaent o brofiad o ymgeisio am arian o'r fath, neu fynediad i bersonél neu gymorth gan unigolion a oedd â phrofiad o'r fath, cymysg oedd yr adborth a dderbyniwyd ynglŷn â'r broses ymgeisio. Roedd rheolwyr prosiectau a arweiniwyd ar y cyd (cyngor a sefydliad nid-er-elw) yn awgrymu eu bod yn gyfarwydd â'r math o broses ymgeisio ac felly bod ymgeisio yn gymharol hawdd. Mae hyn yn cyferbynnu â'r prosiect dan arweiniad y gymuned a ddywedodd, er eu bod wedi derbyn Grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn flaenorol, fod cyflwyno cynnig yn heriol, yn arbennig mewn amgylchiadau pandemig.

4.9 Er y lefelau isel o ymholiadau i gychwyn, dywedodd cydgysylltydd y cynllun a'r rheolwyr prosiect bod y cynllun wedi'u hyrwyddo'n dda. Mae'n glir o'r cyfweiliadau â rheolwyr y prosiectau y gwnaeth y prosiectau a arweiniwyd ar y cyd ddod yn ymwybodol o'r cynllun drwy rwydweithiau e-bost (rhwydweithiau'r Llywodraeth neu rwydweithiau eraill tebyg yn y sector cyhoeddus), ond roedd y prosiect dan arweiniad y gymuned yn teimlo mai ar hap y gwnaethant glywed am y cynllun penodol hwn, wrth i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gyfeirio cynnig presennol tuag at gronfa Coetiroedd Cymunedol.

*"Dim ond am i'r Gronfa Dreftadaeth y Loteri ei awgrymu y clywsom ni am y cynllun. Roeddem ni'n ffodus bod strwythur yn ei le'n barod a dim ond gwneud mân addasiadau i brosiect presennol oedd ei angen."*

Cyfweiliad â Rheolwr Prosiect, 2021

4.10 Er bod hyn yn seiliedig ar nifer fach o brosiectau a gymeradwywyd yn unig, mae rhywfaint o awgrym, sy'n cael ei ategu gan y cyfweiliadau â'r rheolwyr prosiect, bod y prosiectau hynny a arweiniwyd ar y cyd, gyda sefydliad yn arwain (yn hytrach na'r gymuned) mewn gwell sefyllfa ar gyfer y math hwn o broses ymgeisio. Er bod un prosiect dan arweiniad y gymuned a oedd wedi'i gymeradwyo ar adeg cynnal y gwerthusiad, dywedodd rheolwr y prosiect fod y broses ymgeisio'n fwy heriol, yn gymharol, er eu bod yn disgrifio eu hardal fel cymuned 'gyfoethog' sy'n meddu ar adnoddau da a gweithwyr proffesiynol wedi ymddeol. Gallai fod angen mwy o gymorth i alluogi i ragor o brosiectau wedi'u harwain gan y gymuned o ardaloedd amrywiol gael eu datblygu a denu cyllid. Dylid nodi y daethpwyd â Llais-y-Goedwig

(rhwydwaith coetiroedd cymunedol Cymru) i mewn yn gynnar yn 2021 i ddarparu cefnogaeth i fynd i'r afael â'r mater hwn.

- 4.11 Roedd y rheolwyr prosiect a gyfwelwyd yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a dderbyniwyd oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ystod y broses ymgeisio, ond gwers allweddol a gynigwyd gan gydgyssylltydd y cynllun oedd ei bod yn bwysig cael cymorth ar gam cynnar gan dîm y Gronfa Dreftadaeth, yn wahanol i'r dull arferol o weithredu mewn perthynas â'r math hwn o waith prosiect.

*“Rwy’n credu bod angen dull gwahanol o ddarparu cymorth. Mae angen i ni gynnig mwy o anogaeth i ymgeiswyr. Mae angen i ni ymweld â nhw a’u safleoedd, rhoi gwybod iddyn nhw bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yma i’w helpu i dderbyn yr arian, nid i’w baglu.”*

Cyfweliad â Chydgyssylltydd y Cynllun, 2021

- 4.12 Dylid nodi bod y pandemig wedi effeithio’n sylweddol ar allu aelodau tîm Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ymweld â safleoedd a rheolwyr.
- 4.13 Elfen allweddol a oedd yn gyffredin rhwng y prosiectau cyntaf a ariannwyd yw’r synnwyr eu bod yn brosiectau a oedd yn chwilio am arian, yn hytrach na rhai a ddyluniwyd ac a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer y gronfa Coetiroedd Cymunedol. Dywedodd pob un o’r rheolwyr prosiect bod eu safleoedd a’u prosiectau penodol wedi bod yn cael eu datblygu ers peth amser, yn aml yn seiliedig ar waith arolwg amgylcheddol blaenorol, cyn gwneud cais i’r gronfa Coetiroedd Cymunedol.
- 4.14 Mae hyn efallai yn rhoi coel ar yr awgrym pwysig y bu cymhlethdod creu ac adfer coetiroedd yn rhwystr i ymgeisio ar gyfnod cynnar y cynllun, a bod angen mwy o amser i ddatblygu cynigion effeithiol. Felly mae angen darparu adnodd i gynorthwyo mwy o waith datblygu, yn arbennig o brosiectau newydd sy’n dod i’r amlwg yng nghylchoedd cyllido’r rhaglen gyflawni yn y dyfodol.
- 4.15 Mae’r tri phrosiect a gymeradwywyd yn cydweddu’n agos â gofynion ariannu Coetiroedd Cymunedol, a’r edefyn sy’n eu cysylltu yw adfer coetir neu ddatblygu gofod sy’n cael ei dan-ddefnyddio i wella amrywiaeth a chreu mannau i bobl leol ac ymwelwyr eu mwynhau. Mae’n glir, serch hynny, bod pob prosiect i ryw raddau yn rhan o gynllun ehangach i ddatblygu man gwyrdd yn yr ardal honno.
- 4.16 Roedd yn gyffredin i gyllid Coetiroedd Cymunedol gael ei ddefnyddio i ariannu elfen o brosiect ehangach, gan ganolbwyntio ar elfen Coetiroedd Cymunedol y prosiect yn benodol. Roedd cynlluniau eraill (er enghraifft, gwaith pellach i wella mynediad)

yn cael eu dal yn ôl er mwyn ceisio dod o hyd i ffynonellau cyllido eraill yn y dyfodol. Er enghraifft, gwnaeth un prosiect ollwng elfennau treftadaeth o'i gynnig (gyda'r bwriad o droi'n ôl ato ar ôl i brosiect Coetiroedd Cymunedol gael ei gyflawni) ac roedd prosiect arall yn canolbwyntio ar adfer coetir gan fynd at i ddatblygu canolfan ymwelwyr ar ôl i'r prosiect sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ddod i ben.

- 4.17 Yn ôl Cydgysylltydd y Cynllun, roedd y ffaith mai cyllid cyfalaf yn unig a gynnigwyd gan Lywodraeth Cymru yn ffactor cyfyngol yn nyluniad y model. Er nad oedd wedi'i ddynodi, roedd cyfraniad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol o hyd at 30% yn cynnig rhywfaint o gymorth refeniw i'r sawl oedd ei angen. Roedd teimlad clir na allai'r prosiectau a gymeradwywyd fod wedi mynd rhagddynt heb elfen refeniw y Gronfa Dreftadaeth. Er hyn, roedd rhai rheolwyr prosiect yn dal i deimlo bod y gronfa'n gyfyngol, a bod y ffaith nad oedd modd ariannu swyddi rheolwr / cydgysylltydd prosiect yn achosi anawsterau.

*“Mae gennym anhawster tymor byr am mai cyfalaf a hyfforddiant tymor byr yn unig y mae modd eu hariannu, ac nad oes modd ariannu swyddi. Mae Dŵr Cymru'n ysgwyddo hyn yn y tymor byr ac unwaith y bydd y ganolfan ymwelwyr wedi'i hadeiladu, Dŵr Cymru fydd yn ysgwyddo'r staffio yn y cyfleuster hwnnw...”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 4.18 Heb fod unrhyw ofynion penodol i gynnwys y gymuned yn nyluniad y cynigion, roedd y gymuned wedi'i chynnwys i raddau gwahanol wrth ddylunio a datblygu pob un o'r prosiectau a gymeradwywyd. Mae hyn yn amrywio o ddylunio'r prosiect gan y sefydliad arweiniol yn bennaf; dylunio'r prosiect ar y cyd rhwng y cyngor, y gymuned a grŵp 'Cyfeillion'; i ddylunio'r prosiect yn llawn drwy ymgysylltu â'r gymuned.
- 4.19 Fel a drafodwyd yn flaenorol, roedd pob prosiect wedi'i ddylunio dros gyfnod o amser (rhai dros gyfnod o dair blynedd), ond mae'n glir bod gan y rhai sydd wedi cynnwys y gymuned fwyaf gyfnod datblygu hwy, gydag amser ac ymdrech amlwg wedi'u neilltuo i ddeall anghenion a dymuniadau'r gymuned a galluogi perchnogaeth gymunedol o'r prosiect. Er y bu'r cyfnodau datblygu yn hwy, roedd y rheolwyr prosiect yn ystyried mai peth cadarnhaol yn unig oedd cynnwys y gymuned yn y gwaith dylunio, ei fod wedi grymuso grwpiau ac yn y pen draw wedi helpu i greu diddordeb mwy hirdymor yn y prosiectau.

*“Mae cynnwys y gymuned wrth benderfynu beth i’w wneud â’r safle wir wedi helpu i greu diddordeb.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

### **Cyflawni**

- 4.20 Roedd yr holl reolwyr prosiect a staff a gyfwelwyd yn gadarnhaol a hyderus ynglŷn â chyflawni eu prosiect a’r cynnydd a wnaed, er y tarfiadau a achoswyd gan y pandemig a materion eraill yn gysylltiedig â phrosiectau penodol. Oherwydd yr amserlen o ddwy flynedd, cafodd cyfyngiadau’r pandemig lai o effaith o gymharu â rhai cynlluniau eraill ac er y gwelwyd oedi wrth gychwyn ar brosiectau, roedd modd i waith cynnar ar safleoedd gyda chontractwyr fynd rhagddo (cwmpo coed peryglus, ac ati) yn ôl y bwriad mewn ffordd ddiogel gan gadw pellter cymdeithasol. Yn wir, roedd un rheolwr prosiect yn benodol yn teimlo y bu’r oedi’n annisgwyl o fanteisiol wrth ganiatáu mwy o amser i archwilio ac ystyried y safle yn llawn.
- 4.21 Er hyn, dywedodd pob rheolwr prosiect mai’r pandemig oedd y rhwystr mwyaf sylweddol i weithredu a chyflawni. Ym mhob achos, cyfeiriodd y rheolwr prosiect at fod wedi colli momentwm gyda’r gymuned oherwydd y gorchmynion aros gartref a chadw pellter cymdeithasol. Roedd y momentwm a adeiladwyd ynghylch ehangu grwpiau ‘Cyfeillion’ yn un golled nodedig.

*“Achosodd COVID-19 nifer o anawsterau, yn arbennig yn nhwf organig rôl y gymuned. Troesom at hyrwyddo ar-lein a thrwy rwydweithiau eraill ond mi wnaeth rwystro twf ein grŵp.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 4.22 Yn achos un prosiect a arweiniwyd ar y cyd, roedd y ffaith nad oedd modd cyfathrebu â’r grwpiau cyfeillion yn rhithwir oherwydd materion allgáu digidol (diffyg mynediad i galedwedd / sgiliau mewn dulliau cyfathrebu rhithwir) wedi golygu bod rheolwr prosiect y cyngor, a oedd â rôl hwyluso yn bennaf, o’u hanfodd, wedi ymgymryd ag arwain y prosiect am gyfnod ar ran y grŵp Cyfeillion i wneud yn siŵr ei fod yn symud yn ei flaen.

*“Roedd COVID-19 yn golygu bod cyfathrebu’n anodd. O ystyried cyfartaledd oedran y grŵp ‘Cyfeillion’ roedd yn anodd i’w cael i gytuno i gwrdd yn rhithwir, ac roedd hynny’n her i symud pethau yn eu blaen.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 4.23 Yn y pen draw, roedd yr amharodrzydd ymysg y gymuned i ymgysylltu drwy blatfform rhithwir yn golygu bod gofyn gwneud addasiadau i delerau'r amserlen gyflawni, gan wthio'r darnau addysgol yn ôl i'r haf.

*“Roedd gennym ni 150 o bobl a oedd eisiau bod yn rhan o'r grŵp 'Cyfeillion', ond cyfran fach oedd yn barod i gymryd rhan mewn hyfforddiant os yw ar-lein, felly bu'n rhaid i ni ohirio'r darn addysg hyd at yr haf.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 4.24 Effeithiodd cyfyngiadau'r pandemig yn sylweddol hefyd ar rôl gwirfoddolwyr. Yn y prosiect a gymeradwywyd gyntaf, arweiniodd hyn at leihau rôl gwirfoddolwyr ar y safle, ac mewn prosiectau eraill bu'n rhaid i contractwyr yn hytrach na gwirfoddolwyr ymgymryd â chyfran fwy o waith cychwynnol i glirio'r safle.
- 4.25 Yn y pen draw, er y bu'r ffaith nad oedd y gymuned wedi'i chynnwys yn heriol, roedd y rheolwyr prosiect yn gadarnhaol ynglŷn ag ymgysylltu yn y dyfodol. Mae amserlen ddwy flynedd y prosiect wedi caniatáu i addasiadau gael eu gwneud, wrth i'r rheolwyr prosiect ragweld y bydd modd cynnwys y gymuned ymhellach yn ôl y bwriad dros fisoedd yr haf a'r hydref gan fod y gwaith cyflawni'n parhau hyd at fis Mawrth 2022. Er y bu rhywfaint o darfu, myfyriodd y rheolwyr prosiect y bydd yr amserlen yn dal i ganiatáu i'r gymuned gael ei chynnwys yn ôl y bwriad, ac yn caniatáu i raglen addysg a hyfforddiant gwirfoddolwyr a gwaith ymgysylltu ag ysgolion, y bu'n angenrheidiol eu gohirio, gael eu blaenoriaethu yn hwyrach yn oes y prosiectau.
- 4.26 Nodwyd bod sawl her arall yn ymwneud â phrosiectau penodol yn codi o'r broses gyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys ei chael yn anodd dod o hyd i offer oherwydd y pandemig a chymhlethdodau o ganlyniad i berchennog tir yn tynnu'n ôl ar ôl iddynt roi caniatáu i ddatblygu ar eu tir. Yn yr ail achos yma, achosodd hyn anawsterau sylweddol a dywedwyd bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol rywfaint yn absennol pan geisiwyd cymorth. Er bod rheolwr y prosiect yn credu y gallai'r absenoldeb yma fod o ganlyniad i darfiadau'r pandemig, roedd teimlad ymysg y ddau reolwr prosiect y gallai mwy o gymorth fod wedi'i gynnig gan y Gronfa Dreftadaeth pan fo anawsterau'n codi.



*“Ni fu unrhyw brif wendidau, ond bu llawer o heriau annisgwyl a gallai fod wedi bod yn well cael mwy o gymorth, neu fwy o gyswllt, pan fyddai anawsterau’n codi.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 4.27 Yn yr un modd, roedd y rheolwyr prosiect hynny a oedd yn llai profiadol gyda phrosesau’r Gronfa Dreftadaeth yn adlewyrchu ar eu canfyddiad ei fod yn cynnwys baich gweinyddol eithaf trwm, gyda rheolwr y prosiect ar gyfer y prosiect a arweinir yn llwyr gan y gymuned yn adlewyrchu ei fod yn gyfrifoldeb sylweddol i arwain y prosiect (yn enwedig yn ystod y pandemig) gyda disgwyliad i reoli a chyflawni’r prosiect yn annibynnol iawn ar y Gronfa Dreftadaeth.

*“Byddai mwy o gymorth gyda’r ochr weinyddol wedi bod yn ddefnyddiol, yn arbennig ynghylch prynu.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 4.28 Roedd rheolwyr prosiect yn falch o adrodd, er gwaethaf rhywfaint o syfrdanu canfyddedig datblygiad grwpiau ‘Cyfeillion’ ac oedi cyn cymryd rhan mewn gwirfoddoli, addysg a hyfforddiant, mae hyrwyddo prosiect wedi bod yn llwyddiant cymharol, gyda diddordeb sylweddol gan gymunedau lleol ym mhob prosiect. Defnyddiwyd hyrwyddiad trwy gylchlythyrau, rhestrau dosbarthu e-bost, cyfryngau cymdeithasol a’r wasg leol gefnogol yn eang. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd olrhain eu heffaith oherwydd y pandemig, ond cyfeiriodd rheolwyr prosiect hefyd at y diddordeb lledaenu ehangach mewn mannau gwyrdd a choetiroedd sy’n codi oherwydd y pandemig.

### **Cyflawni amcanion**

- 4.29 Mae’r prosiectau a gymeradwywyd yn gweithio’n galed i gyflawni’r amcanion a amlinellwyd yng nghynigion y prosiectau ac a gytunwyd gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er gwaethaf anawsterau’n ymwneud â’r prosiectau a’r her mwy sylweddol a gododd yn sgil y pandemig fel a drafodwyd yn flaenorol.
- 4.30 Ar gam mor gynnar yn y cyflawni, roedd y rheolwyr prosiect yn teimlo ei bod yn anodd asesu pa mor dda mae’r prosiectau’n cyflawni yn erbyn eu hamcanion. Ond fel a ddisgrifiwyd eisoes, roedd teimlad cadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â’r cynnydd a wnaed. Dywedwyd bod gwaith ar y safleoedd yn bwynt cyswllt i ddeall y cynnydd a wnaed tuag at adfer a chreu coetiroedd, er bod rôl y gymuned yn anoddach i’w mesur ar hyn o bryd. Roedd y rheolwyr prosiect yn falch o’r lefelau o ddiddordeb

sy'n dod i'r amlwg ymysg y gymuned o ran ymwneud â'r prosiectau, a dywedwyd bod twf 'grwpiau Cyfeillion', ychwanegiadau at bwyllgorau rheoli craidd, a chyflawni rhywfaint o weithgareddau addysg a hyfforddiant i wirfoddolwyr yn adlewyrchu'r llwyddiant sy'n dod i'r amlwg a, gobeithio, yn arwydd o gynaliadwyedd wedi i'r ariannu ddod i ben.

*“Rwy’n credu ein bod ni’n cyflawni’n dda hyd yma ond mae gwaith i’w wneud o hyd a dim ond dechrau dod ynghyd mae pethau’n awr. Rwy’n falch o’r cynnydd.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 4.31 Fodd bynnag, roedd pob rheolwr prosiect yn ymwybodol eu bod ar gam cymharol gynnar yng nghyflawniad y prosiect a bod elfennau sylweddol yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned ac ysgolion wedi'u cynllunio ond yn dal yn yr arfaeth.

*“Rydym ni’n cyflawni’n dda hyd yma ond rydym ni’n dal i fod ar gam cynnar. Yn sgil oedi o ran cynnwys y gymuned, mae llawer o’r gwaith cymunedol ac addysgol yn dal i fod angen ei gynnal. Y cynllun yw i hyn gael ei gynnal dros yr haf. Mae’r diddordeb yno, ond mae angen i ni allu cwrdd wyneb yn wyneb.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

### **Sylwadau Clo**

- 4.32 Wedi asesu'r dystiolaeth werthuso a gyflwynwyd, gall cryfderau a gwendidau cynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gael eu crynhoi fel a ganlyn:

| <b>Coetiroedd Cymunedol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cryfderau</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | <b>Gwendidau</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynllun wedi'i hyrwyddo'n gymharol dda ac mae systemau hyrwyddo ar-lein Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gweithio'n dda</li> <li>• Ysbrydoli mwy o ddiddordeb mewn coetiroedd, coedwigoedd a seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd lleol</li> <li>• Mae amserlenni hwy wedi golygu y bu effeithiau'r pandemig yn llai difrifol a bod a mwy o amser i addasu cynlluniau</li> <li>• Adfer a chreu coetiroedd sy'n hygyrch i gymunedau</li> <li>• Hwyluso'r arfer o gynnwys y gymuned drwy ddatblygu a thyfu grwpiau cymunedol i gynllunio, cyflawni a/neu reoli</li> <li>• Mae'r ffocws ar hyfforddi gwirfoddolwyr ac addysg yn cyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd y prosiectau a gyflawnodd hyn yn y tymor hwy</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r broses ymgeisio yn gymhleth, yn arbennig i rai sydd heb brofiad neu brofiad cyfyngedig yn flaenorol</li> <li>• Mae'r gofynion ymgeisio, cynllunio, rheoli prosiect a chyflawni yn fwy addas i sefydliadau a chymunedau sydd â gwell adnoddau.</li> <li>• Adfer neu greu coetiroedd yn edrych yn go anodd, a gallai hyn fod yn effeithio ar nifer yr ymgeiswyr</li> <li>• Mae'r gronfa'n gyfyngol am nad oes modd iddi ariannu swyddi newydd (ffocws ar Gyfalaf a Gweithgareddau yn hytrach na reffeniw)</li> </ul> |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r Gwerthusiad

## **5. Cynllun Gwella Coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru**

### **Disgrifiad**

- 5.1 Roedd dwy elfen i'r cynllun hwn: gwella cadwraeth a gwella mynediad.
- 5.2 Roedd yr elfen gadwraeth yn ymwneud â gwaredu coed planhigfa ar Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a chreu bylchau yn y canopi er mwyn gwella bioamrywiaeth ac annog twf newydd; a chan dargedu, gwaredu rhywogaethau estron goresgynnol megis rhododendron ponticum a chegid.
- 5.3 Mewn arolygon diweddar o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, nodwyd rhywogaethau sapsrosylig<sup>25</sup> sy'n gysylltiedig iawn â choetiroedd hynafol, ac mae cyfleoedd i adfer y rhywogaethau hyn a'u cynefinoedd i gyflwr ffafriol.
- 5.4 Roedd yr elfen o wella mynediad yn canolbwyntio ar brosiectau'n seiliedig yng Nghoedwigoedd Coed y Brenin, Afan a Brechfa, a Choed Gwent yn Nyffryn Gwy.
- 5.5 Diben trosfwaol yr elfen o wella mynediad oedd adfer mynediad i gerddwyr a beicwyr mynydd ar ôl gwneud gwaith ar seilwaith, a gwella mynediad yn gyffredinol ar lwybrau hawliau tramwy cyhoeddus ac ar dir a ddiffiniwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 drwy waredu rhwystrau a gwella arwynebau. Yn ôl cyfweiliadau â rheolwyr y cynllun a'r prosiectau, roedd hyn yn gysyniad cryf a oedd yn hawdd i'w werthu i rai sy'n paratoi cynigion prosiectau.

### **Dylunio a gweithredu**

- 5.6 Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer yr elfen gwella cadwraeth oedd £170,000, a darparwyd £203,000 ar gyfer gwella mynediad. Er nad oedd gweithgareddau'r prosiectau wedi'u cynllunio ar adeg cyflwyno'r cynnig, dywedodd uwch staff Cyfoeth Naturiol Cymru y daw'r cynigion o'r Cynllun Gwasanaeth Stiwardiaeth Tir ac felly maent yn gysylltiedig iawn â maes sy'n ffocws strategol i Lywodraeth Cymru gan ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r cynllun yn gyffredinol.<sup>26</sup>

---

<sup>25</sup> Gohebiaeth bersonol â rheolwr cynllun Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol 04/06/2021, Chwilod a'u larfâu yw sapsrosylgau, megis chwilog corniog sy'n bwyta pren sy'n pydru.

<sup>26</sup> Templedi briff Prosiect y Goedwig Genedlaethol – Rhaglen gwella cadwraeth natur ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru a Rhaglen gwella mynediad ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru

- 5.7 Mae cyfweiliadau gwerthuso ag arweinwyr prosiectau Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu y daeth yr arian a gedwir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru ar gael heb lawer o rybudd, ac roedd rhywfaint o bwysau i ymateb i'r ffaith bod yr arian ar gael, a'r amserlen sydd ar gael, heb lawer o rybudd ymlaen llaw a heb esboniad clir ynghylch pam fod yr amserlenni wedi'u gosod fel hynny. Ym marn y gwerthuswyr, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru fod wedi cydweithio i gynnig gwell dealltwriaeth i arweinwyr y prosiectau ynglŷn â'r materion hyn.
- 5.8 Hefyd, er bod y prosiectau arddangos wedi'u dylunio i fod yn brosiectau tymor byr, mae gwaith Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a Rhywogaethau Estron Goresgynol yn cael ei gydnabod yn ymdrech yn y tymor canol i hir, ac felly bydd y gwaith yn parhau y tu hwnt i'r un flwyddyn o gyllid ac roedd hyn yn gyfyngiad ar y prosiectau arddangos yn 2020/21.

### **Cyflawni**

- 5.9 Mewn rhai achosion, bu'n rhaid gohirio'r cyflawni yn sgil ffactorau tymhorol megis llifogydd ac eira. Roedd hyn yn wir yn benodol yn achos gwaith i baratoi'r tir ar gyfer llwybrau a meysydd parcio. Ffactor arall a effeithiodd ar gyflawni yng Nghoedwig Brechfa oedd COVID-19, a olygodd bod gofyn i'r contractwyr hunanynysu. Mae'n bosibl bod hyn wedi cyfrannu at y tanwariant o £80,000 yn y lleoliad penodol hwn.<sup>27</sup>
- 5.10 Er y ffactorau uchod a'r amserlen dynn, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud, gan gynnwys gwaith arolwg a graddio safleoedd mewn perthynas â Sapro syligau mewn Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol; ffustio llarwydd ifanc a chlirio tir ar gyfer plannu; gwaredu rhododendron a chegid goresgynol; gwaredu coed a gwymptyd gan y gwynt; gosod rhwystrau; gwaredu coed peryglus; strimio a ffustio i glirio llwybrau cerdded a llwybrau marchogaeth; gosod gatiau i bobl o bob gallu, paneli dehongli a cherfluniau a gwella hygyrchedd a chyflwr llwybrau.

---

<sup>27</sup> Grŵp Gweithrediadau'r Goedwig Genedlaethol, Chwefror 2021

5.11 Cafwyd crynodeb o'r broses reoli gan un ymatebydd:

*"Rwy'n gweithio ar dim Ystadau Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gofyn am anfonebau, a minnau'n eu hanfon i fyny iddynt hwy [tîm Ystadau Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru]. Caiff y gwaith cymeradwyo ei wneud yn fewnol drwy system o reolwyr contract a goruchwylwyr. Mae'n rhaid i'r goruchwylwyr gyttuno bod y gwaith wedi'i wneud yn foddhaol cyn cymeradwyo. Caiff asesiad risg ei gynnal yn flynyddol a chaiff archwiliadau eu cynnal – mae pa mor aml yn dibynnu ar faint o ddefnydd sydd o'r cyfleuster – os yw'n anghysbell, mae gan yr ymwelwyr fwy o gyfrifoldeb i adrodd ar anawsterau."*

Rheolwr Prosiect, 2021

5.12 Fel a nodir uchod, roedd rhywfaint o feirniadaeth bod systemau ariannol ac adrodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhy fiwrocraidd (yn arbennig ynghylch dychwelyd arian tanwariant), ac roedd diffyg eglurder ynglŷn ag a allai tanwariant gael ei drosglwyddo i greu mynediad, ond nid oedd hyn yn gyffredin i bob achos:

*"Roeddwn i'n codi archebion prynu ac yn cyflwyno anfonebau. Roeddwn i'n llunio taenlen fisol. Roedd y contractwyr yn cyflwyno amcan-bris, yn darparu'r archeb brynu ac yn cael eu talu. Nid oedd unrhyw oedi amlwg wrth dalu. Nid oedd yn or-fiwrocraidd... Doedd dim angen gwneud llawer iawn o waith wrth adrodd."*

Rheolwr Prosiect, 2021

### **Cyflawni amcanion**

- 5.13 O ran ei amcanion ei hun, bwriad y cynllun oedd gwella tua 170Ha o dir Cyfoeth Naturiol Cymru at ddiben cadwraeth (75Ha o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a 95Ha o reoli rhywogaethau estron goresgynnol). Roedd hefyd am geisio gwella 117km o lwybrau hawliau tramwy cyhoeddus a thir a ddiffiniwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a'u gwneud yn hygyrch i deuluoedd.<sup>28</sup>
- 5.14 Nid yw'n bosibl mesur faint o welliannau sydd wedi'u cyflawni yn nhermau'r gwerthoedd uchod, am nad yw hyn wedi'i nodi yn y data monitro diweddaraf a ddarparwyd.<sup>29</sup> Fel y dywedodd un ymatebydd:

---

<sup>28</sup> Templedi briff Prosiect y Goedwig Genedlaethol – Rhaglen gwella cadwraeth natur ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru a Rhaglen gwella mynediad ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru

<sup>29</sup> Er enghraifft, Crynodeb o Ddiweddariad ar y Goedwig Genedlaethol i Lywodraeth Cymru – 02.02.2021.

*“Mae’n anodd mesur maint y tir sydd wedi’i wella felly ni allaf wneud sylw ar hynny. Nid oedd yn cynnwys gosod arwyneb newydd, ond roedd yn cynnwys mynedfeydd, llwybrau a chlirio.”*

Rheolwr Prosiect, 2021

- 5.15 Roedd y rhwystrau posibl i gyflawni’r amcanion wedi’u nodi’n flaenorol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac roeddent yn cynnwys problemau ynghylch caffael a chytuno ar gcontractau yn yr amser a oedd ar gael, ac adnoddau staff.
- 5.16 Mae’n rhy gynnar i farnu i ba raddau mae’r prosiectau wedi cyflawni amcanion ehangach y rhaglen. Efallai mai’r amcan mwyaf perthnasol i’r cynllun hwn yw sicrhau ‘coetiroedd cydnerth o ansawdd uchel sydd wedi’u cynllunio’n dda ac sy’n cael eu rheoli’n dda’, un o chwe chanlyniad posibl y Goedwig Genedlaethol. Mae cyflawni hyn yn galw am raglen barhaus o wella a rheoli dros amser. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr eraill yn y cynllun hwn ac yn fwy cyffredinol mewn cyfweiliadau ar gyfer cynlluniau eraill oddi mewn i’r Prosiectau Arddangos. Er enghraifft,

*“Mae’r amserlen yn rhy gyfyngedig i wybod a fu’r cyllid yn effeithiol.”*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

## Sylwadau clo

- 5.17 Gan adolygu’r dystiolaeth a gyflwynwyd, gall cryfderau a gwendidau cynllun Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu crynhoi fel a ganlyn:

| <b>Cynllun Gwella Coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cryfderau</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | <b>Gwendidau</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymrwymiad cryf i’r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru</li> <li>Cysyniad pwerus – hawdd ei werthu i grwpiau cymunedol ac ymgeiswyr posibl</li> <li>Ceisio gwella cyfleoedd er budd cymunedol a chyhoeddus drwy ddarparu cadwraeth ychwanegol cyfunol i gynefinoedd a gwella trefniadau mynediad iddynt, a hynny wedi’i ariannu drwy’r cynllun</li> <li>Cymorth cyllid yn darparu cyfleoedd i ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol o ran mynediad a chadwraeth sy’n bwysig i safleoedd penodol.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Arian yn cael ei ddal yn ganolog gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na chael ei ddosbarthu i Gyfoeth Naturiol Cymru a Rheolwyr Prosiectau i’w drin</li> <li>Angen egluro’n well y rheswm dros y rheolau cyllido a’r amserlenni ar gyfer prosiectau a’r cyfyngiadau a roddir arnynt yn sgil anghenion y gyllideb a rheolau caffael perthnasol.</li> </ul> |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o’r Gwerthusiad

## **6. Cadwch Gymru'n Daclus – Cynlluniau Coedwigoedd Bychain a Phlannu Coed**

### **Disgrifiad**

- 6.1 Cysyniad Coedwigoedd Bychain yw creu ardaloedd bach o goetir brodorol sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n fioamrywiol iawn. Mae'r dull hwn o dyfu coed 10 gwaith yn gyflymach, 30 gwaith yn fwy trwchus a 100% yn fwy amrywiol na choetiroedd safonol sy'n cael eu plannu o'r newydd.
- 6.2 Coetiroedd brodorol trwchus tua maint cwrn tennis yw Coedwigoedd Bychain. Mae maint bach y coedwigoedd yn golygu y gallant fod mewn ardaloedd o gwmpas trefi ac ardaloedd trefol lle daeth y diffyg cyswllt â natur yn amlycach a lle mae llai o gyfleoedd i fanteisio ar fannau gwyrdd. Mae Coedwigoedd Bychain yn cael eu hystyried yn gynyddol yn ffordd allweddol i 'atgoffa pobl o fanteision rhyngweithio â natur, ei rôl mewn iechyd a lles, ac ar gyfer addysgu cenedlaethau'r dyfodol.'<sup>30</sup>
- 6.3 Nod datganedig cynllun arddangos Coedwigoedd Bychain yw peilota'r arfer o ddwyn 'natur Cymru yn ôl i'r ddinas.'<sup>31</sup> Nid yn unig y gall y coedwigoedd greu lleoliad deniadol ar gyfer bywyd gwyllt a chynyddu bioamrywiaeth, gallant hefyd fod yn lleoedd lle gall pobl fwynhau natur. Mae lle canolog i addysg hefyd yng nghynllun Coedwigoedd Bychain, a'r bwriad yw i bob safle gynnwys dosbarth awyr agored a phartneriaethau ag ysgolion sy'n cael eu hannog i'w mabwysiadu.
- 6.4 Y bwriad oedd y byddai'r cynllun yn cynnwys adeiladu pum Coedwig Fechan newydd (gan gynrychioli 0.026 hectar o goetir newydd) a byddai Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru yn cytuno rhyngddynt ar y meini prawf ar gyfer dethol safleoedd. Roedd y blaenoriaethau allweddol wrth ddethol safleoedd yn cynnwys:
- Lleoliadau heb lawer o fynediad i goetir natur / mannau gwyrdd
  - Y gallu i gyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2021
  - Cynllun rheoli a sefydliad arweiniol i ymgymryd â chyfrifoldeb rheoli wedi i'r cynllun ddod i ben ym mis Mawrth 2021
  - Caniatâd perchennog y tir

---

<sup>30</sup> Cynnig Coedwigoedd Bychain Cadwch Gymru'n Daclus, t. 2.

<sup>31</sup> Cynnig Coedwigoedd Bychain Cadwch Gymru'n Daclus, t. 3.



- Wedi'i leoli mewn ardal o amddifadedd (fel a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) <sup>32</sup>
- Lleoliadau trefol / o gwmpas trefi
- Lefel o gyfranogiad cymunedol a fwriedir, gan gynnwys ceisio ymgysylltu â chymunedau o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

6.5 Yn ogystal â'r Coedwigoedd Bychain, roedd cynllun Plannu Coed hefyd yn cael ei gyflawni gan Cadwch Gymru'n Daclus. Nod cynllun Plannu Coed oedd cyflwyno'r Goedwig Genedlaethol i mewn i raglen Eco-Sgolion<sup>33</sup>. Roedd yn canolbwyntio ar weithio gyda 22 o ysgolion (un ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru) i blannu 400 o goed ar y safle neu gerllaw (gan greu pum hectar o goetir newydd) ac addysgu disgyblion am gasglu hadau, lledaeniad hadau a phwysigrwydd stoc leol.

6.6 Gyda'r nod o greu cenhedlaeth newydd o warcheidwaid coed, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar helpu i ymgysylltu â phlant ysgol i'w galluogi i ddeall gwerth coed, eu harwyddocâd wrth helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd a'r manteision eraill y maent yn eu darparu gan gynnwys amsugno carbon, diogelu yn erbyn llifogydd, darparu cysgod a bod yn angor i fioamrywiaeth planhigion a bywyd gwyllt drwy greu ecosystemau iach.

### **Dylunio a chyflawni**

6.7 O ystyried y cyfyngiad ar y nifer o brosiectau Coedwigoedd Bychain (pump) a Phlannu Coed (22) a gynlluniwyd fel rhan o'r cynlluniau Arddangos, ynghyd â'r meini prawf dethol y cytunwyd arnynt rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru, yn hytrach na phroses ymgeisio agored ffurfiol, roedd y prosiectau fel arfer yn cael eu trefnu wrth i dîm Cadwch Gymru'n Daclus gysylltu â safleoedd posibl. Ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn rheoli'r broses yn ymwneud â chyflawni nifer gyfyngedig o brosiectau peilot lle'r oedd yn debygol y byddai'r galw'n uchel.

<sup>32</sup> Gweler [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | LLYW.CYMRU](#) i gael mwy o fanylion

<sup>33</sup> [Eco-Sgolion | Cadwch Gymru'n Daclus](#)

*“Cytunom ar ychydig o feini prawf gyda Llywodraeth Cymru...wedyn aethom ati i ganfod safleoedd posibl. Roedd gennym gryn nifer, ond pum coedwig yn unig oedd gennym felly allem ni ddim mynd ati ar raddfa fawr gan ein bod yn gwybod y byddem yn cael ein boddi gan geisiadau felly aethom ati gan dargedu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein meini prawf.”*

Cyfweliad â Chydgysylltydd y Cynllun, 2021

- 6.8 Roedd gwasgariad daearyddol swyddogion cymunedol Cadwch Gymru'n Daclus yn cael ei ystyried yn fantais yn y broses o nodi safleoedd posibl. Gyda pherthnasoedd presennol cryf yn amlwg rhwng swyddogion cymunedol ac ardaloedd lleol ledled Cymru, roedd Cadwch Gymru'n Daclus yn gallu defnyddio'r rhwydwaith hwn i nodi safleoedd sy'n cyflawni'r meini prawf a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru. Dywedodd sawl rheolwr prosiect bod swyddogion cymunedol Cadwch Gymru'n Daclus wedi cysylltu â hwy i fod yn rhan o'r cynllun ar sail gwaith partneriaeth cryf presennol.
- 6.9 Gan nad oedd proses ymgeisio ffurfiol yn ei lle, roedd gofyn i reolwyr a gwarcheidwaid y prosiectau lofnodi cytundeb i gynnal pob safle ar ôl i'r cyfnod cyllido o un flwyddyn ddod i ben ac nid yw Cadwch Gymru'n Daclus yn gyfrifol am y safleoedd mwyach. Er nad yw'n glir bod y gofyniad hwn yn rhwystr cyffredin i fod yn rhan o'r cynllun, awgrymodd rheolwyr y cynllun bod y strwythur hwn wedi golygu bod gofyn dod o hyd i safleoedd a oedd yn barod i lofnodi cytundeb a bod cyfalaf o un flwyddyn yn unig yn cynrychioli risg o ran rheoli a chynnal a chadw'r safle ar ôl cwblhau'r gwaith cyflawni.
- 6.10 Yn wir, roedd yn amlwg o rai cyfweliadau â rheolwyr prosiect Coedwigoedd Bychain bod elfen o ansicrwydd ynglŷn â sut y byddai neu sut y dylai'r safleoedd gael eu cynnal ar ôl i'r cyfnod cyllido ddod i ben. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw bod y pandemig wedi arwain at lai o ymgysylltiad, neu ymgysylltiad gwahanol, rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a'r rheolwyr prosiect o gymharu a'r disgwyl yn wreiddiol. Ond efallai bod hefyd angen ymgysylltu a thrafod yn fanylach ar gam cynharach ynglŷn â beth yw'r gwaith o gynnal a chadw'r coetiroedd a'r mathau hyn o goedwigoedd.
- 6.11 Cyfeiriodd rheolwyr y cynllun at rwymedigaethau i ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gymunedau lleol i ofalu am y safleoedd yn y tymor hir, ond y disgwyl oedd y byddai angen rhyw fath o drefn i oruchwylio'r safleoedd, o bosibl o dan

raglen y Goedwig Genedlaethol, ac efallai bod hynny eisoes dan ystyriaeth. Awgrymwyd hefyd y byddai cynnwys elfen refeniw i'r cyllid yn ffordd allweddol i liniaru'r risg hwn.

- 6.12 Ni nodwyd bod canfod safleoedd ar gyfer y Coedwigoedd Bychain yn broblematig ac yn wir cyfeiriodd y rheolwyr prosiect at lefelau uchel o ddiddordeb o'r cychwyn cyntaf oherwydd y 'bri' o fod ag un o'r Coedwigoedd Bychain cyntaf yng Nghymru a'r graddau yr oedd y prosiectau'n cydweddu â blaenoriaethau lleol presennol o ran seilwaith gwyrdd neu waith addysgol. Roeddent hefyd yn pwysleisio bod y cynlluniau'n aml yn denu diddordeb y cyfryngau lleol wrth i brosiectau ddatblygu ac yn arbennig pan gychwynnwyd ar y plannu. Fodd bynnag, dywedodd rheolwyr y cynllun fod denu cefnogaeth ysgolion yn anoddach, yn bennaf am iddynt orfod cau yn sgil y pandemig a bod hynny'n creu amgylchedd mwy heriol.

*“Roedd yn gysylltiedig â'n rhaglen addysg bresennol ac arfaethedig...roedd yn fuddiol i'r ddwy ochr am y byddem ni'n cael safle addysg a byddai Cadwch Gymru'n Daclus yn cael Coedwig Fechan uchel ei phroffil.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

*“Yr elfen amgylcheddol oedd y sbardun cyntaf; roedd yn ddarn o dir cwbl ddiwerth a allai gael ei droi i fod yn ddarn o dir y gellid ei ddefnyddio. Ond mae'r manteision yn llawer ehangach – adnodd o ystafell ddosbarth i'r plant, gofod dysgu a chymorth i ddysgu mwy am natur.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 6.13 Gyda ffiniau cymharol benodol ar gyfer cynllun Coedwigoedd Bychain, Cadwch Gymru'n Daclus oedd yn gyrru'r dyluniad yn bennaf, yn hytrach na rheolwyr prosiectau unigol. Gyda dull a meini prawf anhyblyg a strwythuredig ar gyfer dynodi Coedwigoedd Bychain, mabwysiadwyd y dyluniad ar y cyfan drwy addasu ar gyfer rhywogaethau Cymreig, yn hytrach na'u datblygu o'r cychwyn cyntaf gyda mewnbwn sylweddol gan y rheolwyr prosiect. Er nad oedd hyn o anghenraid yn golygu bod y cyflawni'n hawdd, roedd y dylunio a'r gweithredu'n symlach.

*“O ran Coedwigoedd Bychain, roeddem yn dilyn dull strwythuredig a phenodol iawn, felly i ni a'n gwaith gweithredu, ni fu'n hawdd, peidiwch â chamddeall, ond bu'n gymharol syml yn yr ystyr bod yno gynllun y mae'n rhaid i chi ei ddilyn er mwyn iddi gael ei hystyried yn Goedwig Fechan.”*

Cyfweliad â Chydgysylltydd y Cynllun, 2021

- 6.14 Roedd nifer o'r rheolwyr prosiect yn ystyried bod strwythur penodol y dyluniad yn fantais, gan gyfeirio at rwyddineb y broses a dweud bod mai nodi a thrafod lleoliadau posibl yn unig oedd eu rhan hwy yn y dyluniad. I'r unigolion hyn, roedd y strwythur anhyblyg yn gryfder ac roedd balchder sylweddol o gael bod yn un o'r Coedwigoedd Bychain cyntaf yng Nghymru.
- 6.15 Serch hynny, awgrymodd y rheolwyr prosiect bod risg i natur strwythuredig dyluniad cynllun Coedwigoedd Bychain am nad oedd modd iddynt o anghenraid gael eu haddasu ar gyfer ardaloedd lleol unigol, yn y modd y cawsant eu cyflawni drwy safleoedd y prosiectau arddangos. Awgrymwyd y gellid rhoi mwy o ystyriaeth i amgylchiadau lleol, yn arbennig mewn perthynas â hygyrchedd a defnyddioldeb, pa mor weladwy ydynt yn y gymuned a'r mathau o ddeunyddiau a ddefnyddir.

*“O edrych yn ôl, mae heriau'n ymwneud â llwyr ragweld pwysigrwydd mynediad a lleoliad er mwyn i'r prosiect gronni'r manteision cymunedol mwyaf ar hyd pob cam.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 6.16 Roedd gan dîm Cadwch Gymru'n Daclus rôl allweddol yn cyflawni'r prosiectau ac roedd llawer o'r rheolwyr prosiect yn ystyried bod arweiniad, profiad ac arbenigedd eu rheolwyr yn gadarnhaol. O ganlyniad i hynny, roedd y cyflawni'n gymharol esmwyth o safbwynt rheolwr prosiect. Roedd yn cael ei ystyried bod y modd yr oeddent yn llywio'r gwaith cynllunio, trafod â chontractwyr, prynu, a threfnu gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r plannu, yn gwaredu baich prosesau gweinyddol.

*“Roedd yn broses esmwyth iawn. Dydw i ddim wedi gorfod ymdrin ag unrhyw waith gweinyddol, â dweud y gwir, ar wahân i ateb cwestiynau Cadwch Cymru'n Daclus a mynychu cyfarfodydd ar y safle. Roedd peidio â gorfod ymdrin â'r baich gweinyddol yn chwa o awyr iach.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 6.17 Fodd bynnag, nid oedd yr arddull hon o reoli bob amser yn cael ei gwerthfawrogi a dywedodd un rheolwr prosiect y byddai'n well ganddynt fod wedi cael mwy o rôl yn trefnu contractwyr, archebu a threfnu contractau, am eu bod yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i wneud hynny. Yn yr achos hwn, mae'n ymddangos bod diffyg cyfathrebu hefyd wedi bod yn anhawster.

*“O ran plannu, doeddem ni ddim yn siŵr pwy oedd yn gyfrifol am drefnu gwirfoddolwyr.”*

- 6.18 Roedd rhywfaint o awgrym hefyd y gallai dulliau tynn Cadwch Gymru'n Daclus o reoli prosiect fod wedi golygu nad oedd y Coedwigoedd Bychain mewn sefyllfa addas i gynnal a chadw eu safleoedd ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo.

*“Rydym ni’n teimlo bod angen i ni fod mewn gwell sefyllfa i gynnal a chadw’r safle er mwyn iddo lwyddo. Roedd angen i ni fod â mwy o berchnogaeth ohono o’r dechrau.”*

- 6.19 Roedd y graddau yr oedd rheolwyr prosiect a grwpiau cymunedol yn ymwneud â’r gwaith gweithredu a chyflawni yn amrywio’n sylweddol yn seiliedig ar ba mor dda oedd eu sefyllfa i reoli’r broses gyflawni a ffactorau cyfyngol yn ymwneud â chyfyngiadau’r pandemig. Mewn rhai achosion, roedd Cadwch Gymru’n Daclus yn llywio’r gwaith cyflawni’n gadarn, yn ôl y galw o ran amgylchiadau prosiectau unigol, ac mewn achosion eraill (hynny yw, safleoedd â chynngor yn arwain) mae’n ymddangos ei bod yn broses fwy cydweithredol.
- 6.20 Fel yn achos sawl prosiect arddangos arall yn y rhaglen, daeth i’r amlwg bod amserlenni am fod yn her i’r cyflawni gyda’r gwaith ar y safleoedd a’r plannu’n digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn na’r hyn fyddai’n cael ei ystyried yn ddelfrydol yn sgil COVID-19. Nodwyd hyn mewn cyfweiliadau â chydlynwyr y cynllun a rheolwyr prosiectau, a dywedodd y cydlynwyr bod y flwyddyn ‘fer’ yn her. Fodd bynnag, yn y pen draw, ni ystyriwyd bod hyn yn rhwystr sylweddol i’r cyflawni.
- 6.21 Mewn rhai achosion, roedd hefyd yn cael ei ystyried y gallai amserlenni tynn fod wedi arwain at ddiffyg dealltwriaeth o’r safle a diffyg paratoi digonol, gan arwain at waith a gwariant ychwanegol ar ôl i’r gwaith cyflawni ddechrau, gydag anawsterau’n codi ar ôl y cyflawni gan gynnwys costau anfwriadol.

*“Roedd gennym rywfaint o ran yn penderfynu ar y lleoliad ond doeddwn i ddim yn teimlo yr ymgynghorwyd â ni’n briodol am fod ansawdd y pridd yn y safle yn wael ar gyfer plannu. Fe allem ni fod wedi darparu data ar bethau fel glawiad ac ati pe bydden nhw wedi gofyn ond roedd y cyfan yn ymddangos yn fryslog iawn. Mae bellach angen i ni edrych ar faterion yn ymwneud â dyfrhau.”*

6.22 Mae'r trafodaethau ag arweinwyr y cynllun a'r rheolwyr prosiect yn awgrymu bod yr heriau allweddol a brofwyd yn ymwneud â'r tarfu a achoswyd gan y pandemig. Profwyd yr heriau hyn mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys:

- cyfyngiadau o ganlyniad i flwyddyn a oedd yn artiffisial o fyr
- rhoi staff ar ffyrlo
- gorfod dibynnu i raddau helaethach ar contractwyr am fod cyfyngiadau'r pandemig yn golygu na allai gwirfoddolwyr fod ar y safle i'r graddau disgwylidig;
- nid oedd modd i wirfoddolwyr ac ysgolion ymwneud â'r gwaith plannu.

6.23 Cynnwys cymunedau ac ysgolion yw'r agwedd a ddioddefodd fwyaf yn sgil y pandemig. Er bod tystiolaeth o rywfaint o ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid yn y camau cynllunio cynnar a chanfod safleoedd rhai Coedwigoedd Bychain, roedd cyfyngiadau'r pandemig yn rhwysr i ymgysylltu'n helaethach.

*"Ymgynghorwyd â Chymdeithas y Trigolion ynglŷn â'r safle a dylanwadodd hynny ar newid lleoliad i fod yn agosach at dai a'r ardd gymunedol. Wedyn cynhaliodd peirianwyr arolwg o'r tir ac roeddent yn cytuno bod dewis safle'r trigolion yn well ar gyfer plannu."* Cyfweiliad â Rheolwr Prosiect, 2021

*"Mae'r prosiect mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ond nid oedd y sefydliadau partner yn rhan o'r cyfnod dylunio. Roedd y cyfnod clo yn anhawster sylweddol i'r math yma o gynnwys partneriaid."*

Cyfweiliad â Rheolwr Prosiect, 2021

6.24 Er bod y gwaith plannu wedi'i gyflawni'n llwyddiannus yn y pen draw gyda chymorth ychwanegol gan contractwyr, tîm Cadwch Gymru'n Daclus, a nifer lai o wirfoddolwyr lle'r oedd modd eu cynnwys yn ddiogel, roedd cydgysylltydd y cynllun yn ystyried bod y plannu yn gam allweddol yn y broses hirdymor o ddenu cefnogaeth ar gyfer pob safle. Pwysleisiodd cydgysylltydd y cynllun bwysigrwydd denu cefnogaeth gychwynnol yn arbennig mewn perthynas â'r cynllun Plannu Coed. Roeddent yn cyfeirio at siom sylweddol ymysg ysgolion nad oedd modd i'r disgyblion ymgymryd â'r plannu. Er eu bod yn deall y sail resymegol, mynegwyd pryderon bod hyn yn achos o golli cyfle allweddol i harneisio'r gefnogaeth gychwynnol bwysig honno sydd mor bwysig i fentrau dysgu ac yn wir i gynaliadwyedd hirdymor y safleoedd.

*“Y bwriad oedd sefydlu hyn, trefnu gwarcheidwaid a beth bynnag, ac wrth gwrs os nad ydyn nhw wedi’u cynnwys yn y gwaith plannu, efallai eich bod wedi colli’r gefnogaeth gychwynnol yna, wyddom ni ddim, ond nid dyma sut byddem ni wedi mynd o’i chwmpas hi fel arfer.”*

Cyfweliad â Chydgyssylltydd y Cynllun, 2021

- 6.25 Er i dîm Cadwch Gymru’n Daclus ddarparu sesiynau addysgol eraill, gweithdai rhithwir a phecynnau athrawon i gefnogi’r dysgu a gwaith cynnal a chadw parhaus ar y safleoedd, y mae’n rhy gynnar i ddeall effaith yr achos hwn o golli cyfle.
- 6.26 Wrth fyfyrion, awgrymodd un rheolwr prosiect Coedwig Fechan, yn hytrach na bod y plannu’n bwynt cyntaf o ddenu cefnogaeth, dylai’r ymgysylltu ddigwydd yn gynharach a chynnal hynny wedyn rhwng y cynllunio cychwynnol a’r plannu, am fod y diffyg cyfathrebu rhwng y camau (o bosibl yn ymwneud â’r pandemig) wedi arwain at ddrwgdybiaeth ymysg rhai trigolion pan ddaeth y diwrnod plannu.

*“Mae ymgysylltu yn fater allweddol; mae gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol a swyddogion/aelodau lleol o’r cychwyn cyntaf yn hanfodol. Mi allan nhw helpu i ledaenu’r neges ar lawr gwlad a bod yn ymwybodol o’r teimladau yn lleol.”*

Astudiaeth Achos o Brosiect, 2021

### **Cyflawni amcanion**

- 6.27 Ar sail tystiolaeth y gwerthusiad gan gynnwys yr hyn a ddaw o adroddiadau monitro’r cynllun, mae’r prosiectau wedi cyflawni nifer o’r amcanion a’r targedau craidd, gan gynnwys:
- creu ardaloedd newydd o goetir a all cynnal bioamrywiaeth ehangach
  - gwneud natur yn fwy hygyrch i bobl
  - darparu cyfleoedd dysgu.
- 6.28 Yn wir, er nad yw’n unigryw i’r cynllun hwn yn benodol, mae’r ffaith y llwyddwyd i blannu ar safleoedd er gwaethaf yr heriau lu a wynebwyd drwy gydol 2020/21 yn benodol o gymeradwy.
- 6.29 Er i’r pandemig greu rhwystrau ychwanegol i gynnwys y gymuned, roedd ei brwdfrydedd yn amlwg, yn arbennig mewn perthynas â’r prosiectau Coedwigoedd Bychain. Gwnaeth y cyfyngiadau symud a’r cadw pellter cymdeithasol gyfyngu ar gynnwys pobl yn y gwaith plannu, ond cafodd gwirfoddolwyr eu cynnwys lle’r oedd

yn bosibl a chyfeiriodd cydgysylltwyr y cynllun a'r rheolwyr prosiect at ddiddordeb sylweddol gan y gymuned yn y diwrnodau plannu.

*“Roedd ymgysylltu â'r gymuned yn anodd ar y pryd oherwydd sefyllfa COVID-19, ond er hynny roedd diddordeb ac ymgysylltiad y gymuned yn ddymunol o uchel. Fe allem ni fod wedi treblu nifer ein gwirfoddolwyr ar y diwrnod plannu.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 6.30 Er y rhwystrau i ymgysylltu â chymunedau ac ysgolion a'u cynnwys, y mae'n amlwg mai cyflawniad pwysig yw nid yn unig dod â natur yn agosach at bobl, ond hefyd darparu ysbrydoliaeth a sbardun ar gyfer diddordeb pellach gan y gymuned mewn natur ac awydd i greu ardaloedd o seilwaith gwyrdd yn lleol. Mae'r gallu i ddangos i gymunedau yr hyn sy'n bosibl y tu allan i'r hyn a fu'n norm yn gryfder.

*“...fel arfer, byddem yn parhau i “dincro” â phlannu ar y stryd heb i brosiect arddangos y Goedwig Genedlaethol ehangu ein gorwelion a'n hymwybyddiaeth o'r hyn y gellid ei wneud ac sy'n rhaid ei wneud i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn seilwaith gwyrdd a ddatblygodd dros genedlaethau.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 6.31 Yn wir, er mai'n ddiweddar y cawsant eu cwblhau, mae rhai o brosiectau arddangos y Coedwigoedd Bychain wedi arwain at gynllunio mwy o brosiectau seilwaith gwyrdd.

*“Rydym wedi gallu dangos bod y gymuned wir eisiau gweld mwy o orchudd coed a pharc sy'n fwy bioamrywiol a chyfeillgar i natur – yn hytrach na'r erwau presennol o “goncrit gwyrdd” y gwair sydd wedi'i dorri'n fyr. Mae'r grŵp eisoes wedi rhoddi £1000 o'u cyllid i blannu mwy o goed yr hydref yma, ac mae aelodau lleol wedi nodi swm sylweddol o gyllid S106<sup>34</sup> i wella mannau agored gan gynnwys mwy o goed ac ardal weigrlodd.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

---

<sup>34</sup> Mae hyn yn cyfeirio at gytundebau â datblygwyr ynglŷn â gwelliannau lleol y gellid eu gwneud i gynnig datblygu a gytunir drwy'r broses gynllunio. I gael esboniad pellach, gweler y [trosolwg hwn o rwymedigaethau S106 | Cymdeithas Llywodraeth Leol](#)



*“Dangosodd aelodau’r gymuned lawer o ddiddordeb yn y posibilrwydd o greu rhagor o Goedwigoedd Bychain mewn ardaloedd eraill yn y Fro – mater o ddod o hyd i safleoedd addas yn unig ydyw.”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 6.32 Mae gallu’r cynlluniau i arwain at y canlyniad yma, er gwaethaf amodau’r pandemig, yn tystio i fwy o awydd i gael mynediad i natur a mannau gwyrdd, ac mae rhai rheolwyr prosiect yn priodoli hynny i’r pandemig ei hun. Yn y cyd-destun hwn, mae’r cynlluniau’n arwydd amserol o’r hyn y gellid ei gyflawni’n lleol.

*“Oherwydd y pandemig yn bennaf, mae’r diddordeb yn y prosiect hwn, a pha mor berthnasol ydyw, wedi cynyddu...”*

Cyfweliad â Rheolwr Prosiect, 2021

- 6.33 Yn gyffredinol, roedd y rheolwyr prosiect wedi’u bodloni â sut roedd y prosiectau’n cyflawni yn erbyn yr amcanion, ond mae’r rhan fwyaf yn ymwybodol bod disgwyl i ganlyniadau prosiectau fel hyn fod yn rhai tymor byr, canolig a hir. Myfyriodd nifer o’r rheolwyr prosiect bod amcanion wedi’u cyflawni o ran cyflawni cynlluniau’r prosiect (coed yn y ddaear) ond y gallai fod yn gryn amser cyn i amcanion a chanlyniadau tymor canolig a hirdymor gael eu cyflawni.
- 6.34 Roedd rhai o’r amcanion tymor canolig hyn, er enghraifft ysgolion yn ymwneud â safleoedd Coedwigoedd Bychain, wedi’u rhoi ar y droed ôl yn sgil amgylchiadau’r pandemig yn unig. Fodd bynnag, mae sut mae cymunedau’n elwa o’r mannau a grëwyd yn debygol o ddod yn amlycach wrth i’r coetiroedd a’r coedwigoedd dyfu.

## Sylwadau clo

- 6.35 Gan adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd, gall cryfderau a gwendidau cynlluniau Coedwigoedd Bychain a Phlannu Coed gael eu crynhoi fel a ganlyn:

| Coedwigoedd Bychain a Phlannu Coed                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cryfderau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Gwendidau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y broses weinyddu rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru yn ysgafn a syml</li> <li>• Bu'r Coedwigoedd Bychain yn benodol o atyniadol i gyfryngau a chymunedau lleol gan annog ymgysylltiad er gwaethaf heriau, er y cwtogwyd rywfaint ar waith ymgynghori â'r gymuned a'r defnydd o wirfoddolwyr yn sgil ymatebion i'r pandemig</li> <li>• Ystyrir ei fod yn syml iawn a hawdd i Warcheidwaid / Rheolwyr Prosiect o ran cynllunio a chyflawni</li> <li>• Coed wedi'u plannu mewn amrywiaeth o ardaloedd gwahanol gan gynnwys y rhai sydd â grwpiau cymunedol mwy amrywiol ac mewn ardaloedd trefol</li> <li>• Ffocws ar ddysgu ac addysg ar draws y ddau gynllun ond rhwystrwyd hyn gan y pandemig</li> <li>• Denwyd cefnogaeth cymunedau lleol i'r prosiectau er gwaethaf y tarfu ar ymgysylltiad yn sgil y pandemig</li> <li>• Roedd gwaith monitro a gwerthuso parhaus yn rhan greiddiol o'r cynlluniau drwy asesu yn erbyn amcanion craidd y prosiectau</li> <li>• Ystyrir bod y Coedwigoedd Bychain yn sbarduno diddordeb pellach mewn prosiectau seilwaith gwyrdd.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffyg proses ymgeisio a natur cyfalaf yn unig y cyllid yn achosi rhai pryderon ynglŷn â chynnal a chadw a rheoli'r safleoedd yn barhaus.</li> <li>• Cadwch Gymru'n Daclus yn llywio'r gwaith gweinyddu, cynllunio a chyflawni'n gadarn – yn cael ei werthfawrogi gan rai rheolwyr prosiect ond eraill yn ei ystyried yn gyfyngol</li> <li>• Natur strwythuredig ac anhyblyg y cynlluniau yn golygu nad oes llawer o rôl i Warcheidwaid / Rheolwyr Prosiect</li> <li>• Strwythur anhyblyg prosiectau Coedwigoedd Bychain yn golygu nad yw amgylchiadau lleol bob amser yn cael eu hystyried</li> <li>• Amserlenni tynn wedi arwain at waith/gwariant ychwanegol ar y safle mewn rhai achosion</li> </ul> |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r Gwerthusiad

## **7. Safbwyntiau'r Rhaglen – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Gymuned**


### **Cefndir gwerthuso digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid**

- 7.1 Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau 'Coedwig Genedlaethol Cymru – Eich Safbwyntiau' yn rhithiol ar 10<sup>fed</sup>, 11<sup>eg</sup>, a 12<sup>fed</sup> Mawrth 2021. Roeddent wedi'u hanelu at amrywiaeth eang o randdeiliaid (er nad oeddent yn targedu grwpiau amrywiol wedi'u nodi'n benodol) gan gynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Roedd y digwyddiad ym mis Mawrth 2021 yn cynnwys amrywiaeth eang o sesiynau ar Goedwig Genedlaethol Cymru gan gynnwys prif anerchiadau, cyflwyniadau, sesiynau trafod, sesiynau holi ac ateb a rhwydweithio. Roedd cyfres o ddigwyddiadau ar wahân wedi'u hanelu at ymgysylltu â grwpiau mwy amrywiol ac nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r arolwg a gyflwynir yn y bennod hon.
- 7.2 Dangoswyd llawer o ddiddordeb yn y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid, gyda 540 yn cofrestru i ymuno â'r digwyddiad, a 268 yn y pen draw yn bresennol mewn un neu fwy o sesiynau yn ystod y tri diwrnod. Dosbarthodd trefnydd y digwyddiad, Cazbah, arolwg adborth byr i bob un o'r 268 o gyfranogwyr. Arweiniodd yr arolwg at 44 o ymatebion, sy'n gyfradd gwblhau o 16.4%.
- 7.3 Ar sail ymatebion yr arolwg, mae'n ymddangos bod y digwyddiad wedi denu cyfran debyg o rai a oedd yn bresennol mewn rhinwedd bersonol ac mewn rhinwedd broffesiynol, gan awgrymu o bosibl bod grŵp eang o randdeiliaid yn bresennol.

### **Gwybodaeth Flaenorol, Darganfod y Digwyddiad a'r Sail Resymegol am fod yn Bresennol**

- 7.4 Dywedodd rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn gyfarwydd, o leiaf i ryw raddau, â chysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru cyn cymryd rhan yn y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid. Gyda 18 o'r 44 o ymatebwyr yn dweud eu bod yn ychydig yn gyfarwydd a deg yn dweud nad oeddent yn gyfarwydd o gwbl, y mae'n amlwg fod y sesiynau wedi bod yn gyfle i lawer o randdeiliaid glywed a dysgu mwy, ac o bosibl am y tro cyntaf, am Goedwig Genedlaethol Cymru. Dywedodd 16 o'r 44 o ymatebwyr eu bod yn gyfarwydd iawn â chysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru.


**Ffigur 7.1: Bod yn gyfarwydd â chysyniad y Goedwig Genedlaethol cyn Cymryd rhan yn y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid**



Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Cyn cymryd rhan yn y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid, pa mor gyfarwydd oeddech chi â chysyniad Goedwig Genedlaethol Cymru?'

- 7.5 Y brif ffordd y clywodd ymatebwyr yr arolwg am y sesiynau oedd drwy e-bost (19/44), ac wedyn ar lafar (7/44) a thrwy gylchlythyrau digidol (6/44). Llai na phump o ymatebwyr a glywodd am y digwyddiadau i rhanddeiliaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd ffyrdd 'eraill' o glywed am y digwyddiadau y cyfeiriodd yr ymatebwyr atynt yn cynnwys drwy gydweithwyr / y gwaith a thrwy neges destun.

**Ffigur 7.2: Sut y gwnaeth y cyfranogwyr glywed am y digwyddiad**




Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Dywedwch wrthym ni sut y gwnaethoch glywed am y digwyddiadau', ymatebion lluosog.

- 7.6 Dywedodd tri chwarter ymatebwyr yr arolwg (33/44) fod y wybodaeth a gawsant am y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid cyn cymryd rhan yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Llai na phump o ymatebwyr a ddywedodd nad oedd y wybodaeth yn ddefnyddiol o gwbl.
- 7.7 Darparodd yr unigolion amrywiaeth o seiliau rhesymegol personol a phroffesiynol pam eu bod wedi dod i'r sesiynau, gan adlewyrchu'r gyfran a ddywedodd eu bod yn bresennol am resymau personol a phroffesiynol. Cyfeiriodd llawer at ddiddordeb yn y Goedwig Genedlaethol, ac mewn cael gwybod mwy, ehangu gwybodaeth a chael clywed y ddiweddaraf am gynnydd. Roedd y rhesymau hyn yn aml yn gysylltiedig â diddordeb neu angerdd personol at goetiroedd, rheoli tir a bioamrywiaeth. Roedd yn amlwg bod eraill yn bresennol mewn rhinwedd broffesiynol yn bennaf am eu bod yn gweithio yn y sector neu'n edrych am wybodaeth y gallent eu defnyddio yn eu gweithle.

### Presenoldeb a Sgoriau'r Sesiynau

- 7.8 Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg bod eu profiad cyffredinol o'r sesiynau Ymgynghori â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid yn dda neu'n rhagorol gydag o leiaf 35 o'r 44 o ymatebwyr yn rhoi sgôr o 8, 9 neu 10 ar raddfa o 1 i 10. Yn gyffredinol, roedd y sesiynau'n derbyn sgoriau uchel ar draws yr holl agweddau a fesurwyd. Trefniadaeth y sesiynau oedd fwyaf tebygol o gael ei hystyried yn dda neu'n rhagorol, gan 38 o'r 44 o ymatebwyr, wedi hynny roedd perthnasedd y cynnwys (36/44), amseru'r sesiynau (35/44) ac yn olaf hyd y sesiynau (35/44).


**Ffigur 7.3: Barn y cyfranogwyr am y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid**



Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Gan ddefnyddio'r tabl isod, rhwch sgôr i'r agweddau canlynol ar y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid.'

7.9 Roedd llawer o gydrannau'r sesiynau hefyd yn denu sgoriau uchel, gyda'r cyflwyniadau arddangos (30/44) a'r trafodaethau grŵp (33/44) yn benodol yn cael eu hystyried yn eithriadol o ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Derbyniodd y sesiwn rwydweithio sgoriau llawer is gan gyfranogwyr yr arolwg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi ei bod yn ymddangos mai nifer fach o ymatebwyr yr arolwg oedd yn bresennol yn y sesiwn hon ac mae tystiolaeth eang bod sesiynau rhwydweithio yn anodd iawn i'w cyflawni'n llwyddiannus mewn amgylchedd rhithwir a orfodwyd ar drefnwyr digwyddiadau gan y pandemig.<sup>35</sup>

**Ffigur 7.4: Barn y cyfranogwyr am gydrannau'r sesiwn/sesiynau y buont iddynt**



Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Rhowch sgôr i ba mor ddefnyddiol oedd cydrannau'r sesiwn/sesiynau y buoch iddynt.'

### **Gwybodaeth ar Ôl y Digwyddiad a Diddordeb mewn Derbyn y Wybodaeth Ddiweddaraf**


7.10 Yn cyferbynnu â'r lefelau o wybodaeth a nodwyd cyn bod i'r sesiynau, ar ôl y sesiynau roedd tri chwarter (33/44) cyfranogwyr yr arolwg yn dweud bod ganddynt wybodaeth am Goedwig Genedlaethol Cymru, ac roedd chwech o'r 44 o ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt 'wybodaeth lawn'. Mae hyn yn dangos yn

<sup>35</sup> [Adweek \(2021\) Networking Is the Biggest Challenge Virtual Event Marketers Face in 2021](#)

glir effaith y sesiynau ar gyfathrebu cysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru i'r cyfranogwyr.

- 7.11 Dywedodd 38 o'r 44 o ymatebwyr eu bod yn debygol neu'n debygol iawn o fynd i sesiynau tebyg ynglŷn â Choedwig Genedlaethol Cymru yn y dyfodol, gan ddangos ymagwedd awyddus at ddilyn cynnydd a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.


**Ffigur 7.5: Pa mor debygol neu annhebygol ydyw y bydd yr ymatebwyr yn mynd i sesiynau tebyg ynglŷn â Choedwig Genedlaethol Cymru yn y dyfodol**



Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pa mor debygol neu annhebygol ydych o fynd i ddigwyddiadau tebyg ynglŷn â Choedwig Genedlaethol Cymru yn y dyfodol?'

- 7.12 Dywedodd 37 o'r 44 o ymatebwyr hefyd fod ganddynt ddiddordeb mawr mewn parhau i glywed am gynnydd a rhannu eu safbwyntiau ar raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.
- 7.13 Mae bron i bob un o'r rhai a fyddai'n hoffi dilyn cynnydd a rhannu eu safbwyntiau yn awyddus i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost (40 o'r 44 o ymatebwyr). Mae hefyd lefelau uchel o ddiddordeb mewn mynd i ddigwyddiadau rhithiol a chael eu gwahodd i ymgynghoriadau yn y dyfodol. Roedd llawer llai o ddiddordeb mewn mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb yn y dyfodol, a allai fod yn adlewyrchu pryderon parhaus ynghylch COVID-19 neu ei bod yn anoddach mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb.

**Ffigur 7.6: Dewis ffordd yr ymatebwyr i glywed am ddatblygiadau y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol**



Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Sut fyddai'n well gennych glywed am gynnydd yn y dyfodol?'

7.14 Mae lefelau uchel o debygolrwydd y bydd cyfranogwyr yr arolwg yn argymhell digwyddiad tebyg i ffrindiau, perthnasau a chydweithwyr, gyda 27 yn dweud eu bod yn debygol iawn o argymhell digwyddiad tebyg neu y byddant yn bendant yn gwneud hynny (gan roi sgôr o 8, 9 neu 10). Dywedodd llai na phump na fyddent yn argymhell digwyddiad tebyg (sgôr o 0 ar y raddfa o 0 i 10).

7.15 Roedd y mwyafrif yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- bod fformat y sesiynau'n caniatáu i unigolion fynd i'r rhai yr oedd ganddynt fwyaf o ddiddordeb ynddynt
- roedd llawer yn teimlo bod cydbwysedd da rhwng cyflwyniadau a holi ac ateb
- roedd unigolion yn teimlo eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd; ac
- roedd y fformat yn caniatáu iddynt fod yn bresennol pan y byddai'n bosibl na fyddent yn gallu fel arall.


Mae'r ymatebion hyn yn eithriadol o gadarnhaol ynglŷn â'r graddau y mae'r fformat yn caniatáu i ehangu presenoldeb ac felly ehangu'r rhanddeiliaid.

7.16 Nid oedd fformat rhithwir y sesiynau a orfodwyd gan y pandemig yn gweddu i alluogi'r cyfranogwyr i rwydweithio'n effeithiol, fel a nodwyd mewn gwaith ymchwil



blaenorol <sup>36</sup>, er bod yr adborth cyffredinol gadarnhaol am y sesiynau a dderbyniwyd uchod yn awgrymu nad yw hyn wedi effeithio'n benodol o negyddol ar brofiad y cyfranogwyr yn y digwyddiad. Er bod 32 o'r 44 ymatebwyr 'yn teimlo bod eu llais wedi'i glywed', dyma'r gosodiad yr oedd cyfranogwyr yr arolwg leiaf tebygol o gytuno'n gryf ag ef o'r rhestr o osodiadau a gyflwynwyd iddynt ynglŷn â'r digwyddiad.

**Ffigur 7.7: Y graddau mae'r ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau ynglŷn â'r digwyddiad**



Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'I ba raddau'r ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol ynglŷn â'r digwyddiad?'

Noder: Ar bob agwedd, pump, neu lai, o ymatebwyr a oedd yn anghytuno / anghytuno'n gryf â'r gosodiadau a gyflwynwyd iddynt.

- 7.17 Roedd y meysydd yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallent gael eu gwella yn amrywio o'r ymarferol (materion technegol yn ymwneud â chael mynediad i'r sesiynau, fformatau'n dibynnu'n fawr ar PowerPoint a pheidio â derbyn digon o rybudd bod y digwyddiad yn cael ei gynnal) i bryderon mwy penodol ynglŷn ag a oedd cwestiynau wedi'u hateb (neu wedi'u hateb yn ddigonol) ac a oedd rhywfaint o'r iaith a'r naws mewn sesiynau yn briodol i gynulleidfaoedd ehangach o randdeiliaid.

<sup>36</sup> [Adweek \(2021\) Networking Is the Biggest Challenge Virtual Event Marketers Face in 2021](#)

- 7.18 Er bod llawer yn teimlo bod y fformat hwn wedi caniatáu iddynt fod yn bresennol lle na fyddent wedi gallu fel arall, roedd adborth cryf nad oedd ochr dechnegol y digwyddiad mor llyfn neu hygyrch ag y gallai fod wedi bod i'r cyfranogwyr.

*“Cefais ychydig o broblem yn cael i mewn i rai o'r sesiynau...”*

Arolwg ymgysylltu â rhanddeiliaid, 2021

*“Roeddwn i'n teimlo nad oedd fy nghwestiwn yn y sesiwn Holi ac Ateb wedi'i ateb. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ateb cwestiynau penodol yn ddigonol.”*

Arolwg ymgysylltu â rhanddeiliaid, 2021


*“Rwy'n cydymdeimlo â'r siaradwyr yn y fformat rhithwir, ond roedd gormod o ddefnyddio PowerPoint – byddai mwy o siarad yn uniongyrchol â'r gynulleidfa wedi bod yn well.”* Arolwg ymgysylltu â rhanddeiliaid, 2021

*“Roedd cyfnewid rhwng sesiynau Zoom yn teimlo ychydig yn lletchwith ac weithiau roedd yn rhaid i mi aros am dipyn i gael yn ôl i mewn. Hefyd, collwyd y sgwrs flaenorol wrth symud, a oedd yn drueni.”*

Arolwg ymgysylltu â rhanddeiliaid, 2021

- 7.19 Yn olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth allent wneud o ganlyniad i fod i'r digwyddiad. Y mae'n glir o'r ymatebion y llwyddodd y digwyddiad nid yn unig i gyflwyno gwybodaeth ond hefyd annog ymgysylltiad a thrafodaeth pellach.
- 7.20 Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol (36 o'r 44 o ymatebwyr) i ddweud y byddent yn siarad gyda ffrindiau, perthnasau a chydweithwyr am Goedwig Genedlaethol Cymru. Byddai 34 o'r 44 o ymatebwyr yn dod i wybod mwy yn eu hardal leol a dywedodd 33 o'r 34 o ymatebwyr y byddent yn dilyn cynnydd rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn agosach.

**Ffigur 7.8: Camau y mae'r ymatebwyr yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i fynd i'r digwyddiad**



Ffynhonnell: Arolwg o'r Rhanddeiliaid yn Dilyn y Digwyddiad (Mawrth 2021) N=44. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Yn olaf, o ganlyniad i fynd i'r digwyddiad, pa rai o'r canlynol ydych chi'n credu y byddwch yn eu gwneud? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.'

### **Sylwadau clo ar y digwyddiadau i randdeiliaid**

- 7.21 Er bod yr ymatebion i'r arolwg a nodir yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i gyfran yn unig o'r rhai a fu'n bresennol yn sesiynau Coedwig Genedlaethol Cymru – Eich Safbwyntiau a'ch Lleisiau, mae'r rhain yn dangos profiad cadarnhaol ar y cyfan.
- 7.22 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y digwyddiad wedi'i drefnu'n dda, a bod y fformat yn caniatáu i rai fod yn bresennol na fyddai efallai'n gallu bod fel arall. Mae tystiolaeth y gallai fformat y digwyddiad gael ei wella gyda phroses dechnolegol lyfnach i gael mynediad i'r sesiynau.
- 7.23 Llwyddodd o digwyddiad i roi gwybodaeth i amrywiaeth o randdeiliaid am raglen Coedwig Genedlaethol Cymru, a dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn teimlo ei bod yn gwybod am y rhaglen yn dilyn y digwyddiad. Mae lefelau uchel o ddiddordeb mewn dilyn y cynnydd a pharhau i ymgysylltu â'r rhaglen ymysg ymatebwyr yr arolwg ac mae'n debygol, yn sgil mynd i'r sesiynau, y bydd llawer yn parhau i ledaenu'r gair am Goedwig Genedlaethol Cymru ac ymwneud â digwyddiadau a chynnwys yn y dyfodol.
- 7.24 Er i'r digwyddiad sbarduno llawer o ddiddordeb mewn cofrestru (540), mae'n werth nodi mai tua hanner wnaeth ddod i ddigwyddiadau (268/540).<sup>37</sup> Mae'n ymddangos i'r fformat rhithwir agor cyfleoedd i fod yn bresennol, ond mae'n werth ystyried pa

<sup>37</sup> Darparwyd yr adroddiad gan drefnwyr y digwyddiad, Cazbah, a oedd yn ymdrin â chofrestru ar gyfer y digwyddiad a phresenoldeb drwy eu system archebu.

ddulliau sydd fwyaf addas i gyrraedd cymunedau mwy amrywiol drwy'r math hwn o ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid.

### **Safbwyntiau rhanddeiliaid**

- 7.25 Cynhaliwyd cyfweiliadau â naw o rhanddeiliaid yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2021. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant coedwigaeth, rheolwyr a gweinyddwyr y cynllun a thrydydd sector coetiroedd a chymunedau. Mae rhai o'r cyfweleion yn aelodau presennol neu flaenorol o'r Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd. Roedd y cyfweiliadau'n canolbwyntio ar Raglen y Goedwig Genedlaethol a sail resymegol y prosiectau arddangos, dyluniad a chyflawniad y cynllun, lefelau ymwybyddiaeth, ymgysylltu a gweithio gyda chymunedau amrywiol, a chyflawni amcanion.

### **Sail resymegol y prosiectau arddangos**

- 7.26 Bwriad penodol y prosiectau arddangos yn erbyn cefndir o gyflawni 'yn ddi-oed' yw peilota/profi amryw ddulliau a modelau gwahanol ar gyfer cyflwyno rhaglen y Goedwig Genedlaethol fesul cam yn y dyfodol, gyda'r disgwyl y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni mewn cyfnod o un flwyddyn. Roedd y dull hwn yn ei le cyn i bandemig COVID-19 gychwyn. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn.
- 7.27 Pan ofynnwyd iddynt am sail resymegol y prosiect arddangos, dywedodd un cyfwelai, "*Mae rhywfaint o wleidyddiaeth y tu ôl iddynt.*" A dywedodd un arall:

*"Sail resymegol y prosiect arddangos oedd bod angen dangos ei fod yn gweithio. Roedd yna elfen o werth am arian yn erbyn y canfyddiad o gyflawni pethau'n gyflym."*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.28 Cyfeiriodd un at ba mor weladwy oedd yr allbynnau (yn hytrach na chanlyniadau), a ddywedodd,

*"Mae'r Coedwigoedd Bychain yn debygol o fod yn fwy gweladwy ac o godi ymwybyddiaeth o'r Goedwig Genedlaethol, o gymharu â gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n llai tebygol o fod yn weladwy ond a allai fod â mwy o fuddion hirdymor i fioamrywiaeth ac ati."*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.29 Roedd consensws eang bod y broses wedi'i brysio rywfaint. Fel y dywedodd un cyfwelai:

*“Yn fy achos i, roedd amserlen dynn i gwblhau contractau. Os nad oes gennych gynllun yn ei le mae'r amser yn brin. Mae'r contractwyr yn rhy brysur. Anfantais fawr yw nad oes dilyniant yn nhermau rhywogaethau estron goresgynnol. Yn aml dyma'r achos mewn prosiectau sy'n cael eu hariannu. Maen nhw'n fyrhoedlog a 'does dim yn dilyn ymlaen ohonynt.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.30 Gan wybod rhywfaint am yr amserlen, gwnaeth rhai sefydliadau, a allai fod wedi ymwneud â'r rhaglen fel arall, ddewis peidio â chymryd rhan:

*“Ni wnaeth [enw wedi'i gelu] eu hunain fynd am brosiect arddangos am eu bod yn teimlo na allent gyflawni yn yr amser a oedd yn ofynnol.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.31 Fodd bynnag, roedd hyn yn dibynnu ar y cynllun unigol. Er enghraifft, roedd yn cael ei gydnabod bod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn llwyddiannus oherwydd ei symrlwydd ac am ei bod yn hawdd cyflawni'r amcanion mewn cyfnod cymharol fyr. Roedd cynlluniau eraill, yn arbennig rhai sydd ag elfen gref o adeiladu capasiti cymunedol, yn cael eu hystyried yn heriol.

*“Roedd gan Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth ryw £5 miliwn i'w wario, yn bennaf ar offer, adeiladu capasiti a'r gadwyn gyflenwi. Mae'n awr yn bryd dweud dyma gyllideb am 10 mlynedd – does dim gwerth gwneud prosiect sy'n rhaglen flynyddol. Mae'r coedwigoedd bychain yn gysyniad diddorol, ond sut allwch chi ei chreu mewn blwyddyn ac wedyn ei chynnal am y 50 mlynedd nesaf? Mae Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn dda iawn – mae ymgeisio yn syml ac roedd y cynigion yn gymesur â maint y cyllid – roedd yn gweithio'n dda.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.32 I un cyfwelai, roedd yn ymddangos mai un her allweddol oedd y broses o roi cais hyfyw at ei gilydd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a'r amser roedd yn ei gymryd i symud o fynegi diddordeb i'r pwynt o gael cymeradwyaeth a gallu dechrau ar y gwaith.

*“Mae’r broses o ymgeisio i Gronfa Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn hir o gymharu â, dweder, Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, ac yn ddealladwy nid oes arbenigedd mawr mewn rheoli coetiroedd oddi mewn i’r Loteri.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.33 Mater o bryder hefyd oedd y diffyg capasiti oddi mewn i sefydliadau i reoli’r hyn oedd yn eu barn hwy yn faich ychwanegol o gyflawni prosiect arddangos yn ychwanegol at eu gwaith dydd i ddydd, yn arbennig yn nhermau gweinyddu. Y mae’n werth bod yn ymwybodol o’r gwahaniaeth rhwng yr amryw brosesau mewnol sydd yn eu lle, megis prosesau Llywodraeth Cymru, yr amryw bartneriaid cyflawni a’r contractwyr y gellid eu defnyddio i ymgymryd â’r gwaith.
- 7.34 Mater cysylltiedig oedd er bod yr arian yn cael ei groesawu i ymgymryd â gwaith cychwynnol, effaith hyn oedd blaenoriaethu prosiectau na fyddai efallai wedi dod yn eu blaen ar y cam hwn fel arall am nad oeddent yn teimlo’n barod i gyflawni. Roedd hefyd yn ymrwymo’r sefydliad i ariannu gofal dilynol angenrheidiol na chyllidebwyd ar ei gyfer.
- 7.35 Gwnaed pwynt diddorol ynglŷn â’r syniad o brosiectau arddangos yn gyffredinol.
- “Roedd prosiectau arddangos yn arfer gwneud rhai pethau arloesol ond yn ymarferol maen nhw wedi tueddu i ddilyn diddordebau diweddaraf y gweinidogion. Dydw i ddim yn credu bod y prosiectau [hyn] yn arloesol. ‘Dyw’r rhai a allai fod wedi bod (yn ymwneud â dal carbon) ddim wedi digwydd. Yn bersonol, fe fyddwn i wedi defnyddio’r prosiectau arddangos i gymryd risgiau, nid gwneud pethau a fyddai wedi’u gwneud beth bynnag.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.36 Aeth yr un unigolyn yn ei flaen gan ddweud:

*“Roeddem yn disgwyl dangos sut gall cadwraeth natur a mynediad gael eu cyfuno ar yr un safle. Yn ymarferol (er bod yr arian i’w groesawu) roedd y rhain yn bethau a oedd eisoes yn y rhaglen i’w gwneud ar ryw gam. Gwnaeth y cynllun arddangos ein galluogi i ddwyn rhai prosiectau ymlaen ond ni wnaeth newid ein hymarfer. Dydw i ddim i ddim yn siŵr a oedd yn gwbl ddylanwadol fel cynllun arddangos.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

## Dylunio a chyflawni'r prosiectau arddangos

7.37 Cyfyngedig oedd y wybodaeth fanwl ymysg rhanddeiliaid ynglŷn â gwir ddyluniad y cynlluniau. Roedd y rhanddeiliaid dan sylw naill ai'n ymwneud ar lefelau uwch, mwy strategol, neu ar lefel ddyfnach o fanylder oddi mewn i brosiectau penodol. Yn ddiddorol, dangosodd cyfweiliad cynharach rywfaint o rwystredigaeth ynghylch y trefniadau ariannol a gweinyddol rhwng y sefydliad cyflawni a Llywodraeth Cymru, a oedd yn golygu bod dwy system yn gweithredu oddi mewn i'r sefydliad cyflawni hwnnw ar gyfer caffael a thalu.

7.38 Mae capasiti cymunedol yn cael ei drafod mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, yn arbennig mewn cyswllt â chynlluniau Coetiroedd Cymunedol a Choedwigoedd Bychain. Mae hyn yn fater i'w ystyried yn y dyluniad, a chan gyfeirio at gynllun Coetiroedd Cymunedol mynegodd un rhanddeiliad y pwynt hwn:

*"Mae'n rhaid i'r loteri fod yn hyderus ynghylch capasiti'r ymgeisydd i gyflawni'r gwaith, felly mae'r cais yn ymwybodol o heriol. Fodd bynnag, mae yna lawer o faterion ynghylch capasiti a hyder. Mae swyddogion [enw wedi'i gelu] wedi helpu neu yn helpu hyd at 20 o grwpiau i baratoi Datganiadau o Ddiddordeb a cheisiadau ail gam. O ystyried ei bod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod yn rhaid i goetir gyrraedd Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig, mae rhai o'r cwestiynau'n anodd a thechnegol i grwpiau coetiroedd cymunedol."*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

7.39 Fel mewn ymatebion i sail resymegol y dyluniad, mae'n ymddangos bod gan un rhanddeiliad farn gadarnhaol ynglŷn â Chynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth.

*"Nid oedd gwneud cais i Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn anodd ond mae digon o brofiad yn y sefydliad. Efallai bod eraill yn ei weld yn heriol. Roedd cais ar y cyd [enw wedi'i gelu] yn gymhleth am ei fod yn golygu prynu amryw offer meithrinfeydd coed a phlannu mewn niferoedd bach [tua 30 o bob un]. Mae'n debygol bod y cymhlethdod yn fwy ar ochr y gweinyddwyr [Llywodraeth Cymru], am fod nifer o anfonebau ac archebion prynu i ymdrin â nhw."*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

7.40 Mae'n ymddangos nad oedd y gwaith o fonitro ac adrodd Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn cael ei ystyried yn feichus, er i'r rhanddeiliad hwn ddweud y bu'n rhaid iddynt ddysgu sut i geotagio ffotograffau. Roeddent yn cytuno bod hwn yn offeryn gwerthfawr i ddilysu'r defnydd o grantiau yng nghyd-destun y cynllun hwn.

7.41 Gwnaeth cyfwelai arall sylw tebyg, gan ddweud:

*“Mae angen i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i ffactorau tymhorol. Ffactor arall oedd capasiti staff, a fu’n heriol...Roedd yno heriau ond rwy’n credu y gwnaethom ni’n iawn yn y diwedd. Roedd COVID-19 yn fwy o effaith ar egni staff nag ar y gallu i drefnu a rheoli contractau.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

### **Ymwybyddiaeth ar draws cynlluniau**

7.42 Gofynnwyd i’r rhanddeiliaid ynglŷn â’r graddau yr oeddent yn ymwybodol o’r cynlluniau eraill a’r cysylltiadau rhyngddynt. Roedd eu lefelau ymwybyddiaeth yn amrywio. Yn achos rhanddeiliaid ar lefel cynlluniau neu brosiectau penodol, roedd yr ymwybyddiaeth yn is nag oedd, er enghraifft, ymysg unigolion a oedd yn ymwneud ar lefel rhanddeiliaid uwch neu ymgysylltiedig, megis aelodau o’r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd. Ond hyd yn oed fan yma, roedd yr ymwybyddiaeth yn ymddangos yn anghyson. Mae’n bosibl bod nifer o ffactorau wedi dylanwadu ar lefelau ymwybyddiaeth, gan gynnwys cyfathrebu mewnol yn rhai o’r sefydliadau cyflawni. Efallai mai’r hyn sy’n amlwg yn ymatebion y rhanddeiliaid, fel y mae’r ymateb canlynol yn dangos, yw amlygrwydd Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth.

*“Rwy’n gwybod am brosiectau Coedwigoedd Bychain a Chyfoeth Naturiol Cymru, ond dydw i ddim yn gwybod llawer am y cynlluniau eraill. Mi wnes i helpu [enw wedi’i gelu] gyda chais Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, paratoi gwirfoddolwyr, casglu hadau. Ond mi ddwedwn i fod fy lefel o ymwybyddiaeth yn uwch na’r rhan fwyaf. Nid oes ymdrech lawn wedi’i gwneud hyd yma i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

7.43 Roedd yr elfen hon o’r cyfweliad yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol y bu’r ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y Goedwig Genedlaethol / prosiectau arddangos. Ymateb cymysg gafwyd i hyn. Roedd yr ymatebwyr yn dehongli’r ymadrodd mewn ffyrdd gwahanol. Mewn rhai achosion, siaradodd pobl am ymgysylltu â’r cyhoedd, ac roedd eraill yn ystyried bod y term yn golygu ymgysylltu â’r sector coedwigoedd a choetiroedd.



- 7.44 Ymysg nifer o randdeiliaid, roedd synnwyr bod rhywfaint o bellter i'w deithio eto o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, ac mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru ei hun yn ymwybodol ohono ac yn ei reoli'n ymwybodol. Roedd yn cael ei gydnabod bod pandemig COVID-19 wedi chwarae rhan sylweddol yn llesteirio'r ymgysylltu. Fodd bynnag, roedd canfyddiad hefyd bod hyn efallai'n gyfyngedig hyd yn oed ymysg rhai sydd â diddordeb uniongyrchol mewn coetiroedd.
- 7.45 Gwnaeth y rhanddeiliaid drafod grŵp gorchwyl a gorffen y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd ar y Goedwig Genedlaethol, sy'n beth cadarnhaol ym marn un unigolyn:

*“Mae [enw wedi'i gelu] wedi bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni a daeth yn ôl yn gyflym ynglŷn â chwestiynau a materion penodol. Ond bu'r ymgysylltu'n go dameidiog. Rydym ni wedi gallu cynnal cyswllt ond mae llawer sy'n anhysbys – Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr ateb eto i amryw gwestiynau a ofynnwyd.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.46 Ar y llaw arall, ymatebodd un cyfranogwr:

*“Dydw i ddim yn meddwl bod yr ymgysylltu wedi bod mor drylwyr â'r hyn fyddwn i wedi'i obeithio. Y partion amlwg. Maen nhw'n gweithio yn ôl amserlenni gwleidyddol. Mae'n anodd i raglen ymgysylltu cymunedol Llywodraeth Cymru – bu COVID-19 yn heriol. Ond ni chlywais unrhyw gwynion gan randdeiliaid nas ymgysylltwyd â hwy.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.47 Mae'r rhanddeiliaid yn cydnabod y rôl sydd gan bartneriaid yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar gysyniad y Goedwig Genedlaethol, a neb yn fwy na Chyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd hyn ei gydnabod gan ymatebydd a ddywedodd:

*“Mae gan bawb ddiddordeb yn yr hyn a wnawn. Rydym yn rheoli ystad amrywiol a mawr sydd â llawer o randdeiliaid. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni berfformio, a dangos ein bod yn arweinwyr yn hyn. Gallwn hyrwyddo'r syniad i reolwyr coetiroedd yng Nghymru, ond hefyd i bobl sy'n mynd â'r ci am dro yng nghoetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Er enghraifft, mae pobl eisiau gwybod pam fod ardaloedd mawr o goed ynn yn cael eu torri i lawr.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.48 Roedd trafodaethau am ymgysylltu yn aml yn cyfuno â safbwyntiau ar ymgysylltu â chymunedau amrywiol a'u cynnwys. Mewn rhai achosion roedd hyn yn ymwneud â rôl pwy yw ymgymryd â gwaith ymgysylltu o'r fath.

*“Rwy’n credu eu bod nhw’n dibynnu arnom ni, y cyrff anllywodraethol, ac awdurdodau lleol i ymgysylltu. Ni welais lawer ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn iawn, gwnaed ambell ymgais, ond o ystyried nad oedd Sioe Frenhinol ac ati, prin oedd y cyfleoedd i wneud cyhoeddiadau.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

*“Ar gwestiwn codi ymwybyddiaeth...Mae’n ymddangos bod y cyfrifoldeb am godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu wedi’i adael i’r bobl ar lawr gwlad. Ni fu sôn o gwbl am gynnwys cymunedau – ni fuom yn gweithio gyda phartneriaid ar y prosiectau arddangos o gwbl, am y byddai wedi ychwanegu at y cymhlethdod, waeth pa mor ddymunol. Byddai angen chwe mis arall arnoch i’w wneud.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.49 O ran cynnwys cymunedau amrywiol, ystyriaeth bwysig yw natur y camau hynny i’w cynnwys. Hynny yw, i ba raddau mae modd helpu aelodau’r cyhoedd i ymgymryd â thasgau ymarferol heb beryglu eu hunain. Mynegodd rhywun y pwynt hwn mewn perthynas â Choetir Cymunedol (nid rhan o’r Goedwig Genedlaethol) yr oeddent yn gweithio arno:

*“...ond y syniad yw creu coetir ar gyfer y gymuned leol, nid gyda nhw. Nid ydym mewn sefyllfa i weithio gyda gwirfoddolwyr. Mae gormod o faterion iechyd a diogelwch. Mae’r rhan fwyaf o gontractwyr yn defnyddio pobl gymwys...”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.50 Yn olaf ar yr agwedd hon, mynegodd un cyfwelai yr arsylwad diddorol canlynol (nas profwyd):

*“Roedd syndod i gychwyn bod dau o 14 o goetiroedd blaenllaw y Goedwig Genedlaethol yn Goetiroedd Cymunedol [Coetir Ysbryd Llynfi a Choed y Bont / Coed Dolgoed], am ei bod yn ymddangos nad oedd y grwpiau’n gwybod dim am hyn cyn y lansiad i’r wasg. Fodd bynnag, maen nhw’n falch iawn o gael statws y Goedwig Genedlaethol yn gysylltiedig â’u safleoedd.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

## Y tu hwnt i'r prosiectau arddangos – pwyntiau dysgu ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

- 7.51 Er gwaethaf y synnwyr o rwystredigaeth a deimlwyd mewn rhai mannau, yr hyn sy'n codi o'r cyfweiliadau yw bod cefnogaeth sylweddol i'r syniad ac awydd i barhau i ymwneud â rhaglen y Goedwig Genedlaethol. Er enghraifft,

*“Mae [enw wedi'i gelu] wedi ymrwymo i ymwneud â'r Goedwig Genedlaethol. Mae'r cyswllt rhwng y Goedwig Genedlaethol, adferiad gwyrdd a thargedau newid hinsawdd yn amlwg. Mae'n werth nodi cyflwr pren yng Nghymru. Nid yw 60% o'r coedwigoedd mewn cyflwr da yn ôl Coed Cadw – mae 67% o goetiroedd yn dirywio. Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn nodi mai'r unig ran o'r ystad sy'n gwella yw coetiroedd a reolir. Mae angen gwneud mwy o ymdrech i gael coetiroedd mewn cyflwr da. Mae 20% o goetiroedd Cymru heb eu rheoli.”*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

*“Byddem, fe fyddem ni eisiau cael ein cynnwys. Rydym ni bob amser yn edrych ar dir – a byddem yn gweithio gydag eraill i blannu coed brodorol. Rwy'n credu y bydd y ffocws ar blannu, ond mae'n rhaid i hyn fod yn gysylltiedig â choetir presennol. Byddai'r tîm allgymorth yn helpu perchnogion tir i wneud hyn yn ogystal â darparu pecynnau i ymgysylltu ag ysgolion. Mae angen i ni symud tuag at fenter y mae rhanddeiliaid / y gymuned yn berchen arni. Mae angen mwy o berchnogaeth o'r broses.”*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.52 Barn y rhanddeiliad penodol hwn yw y byddai model o stiwardiaeth, yn debyg i system gomiwn o reoli coetiroedd ar y Cyfandir, yn darparu manteision sylweddol.

- 7.53 Mae mentrau newydd eraill y cyfeirir atynt yn cynnwys ystyried gwarantau carbon:

*“...mae yna sefydliadau masnachu carbon sydd eisiau paru prosiectau a chyllid – nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud hyn. Mae cymdeithasau tai yn ystyried buddsoddi mewn coetiroedd – ond mae angen i rywun fod yn ofalus ynglŷn â'r math 'iawn' o fuddsoddiad i osgoi 'gwyrddgalchu' ('green washing').*

Cyfweiliad â rhanddeiliad, 2021

7.54 Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu syniadau ar fasnachu carbon, a chrybwyllwyd rhyw fath o arbrawf o'r math yma yn gynnar yn natblygiad y rhaglen.

7.55 Arsylwodd rhywun y *"gallai helpu pe byddai rhywun mwy penodol yn nhîm Llywodraeth Cymru sy'n deall mor feichus yw...[rhywfaint o'r monitro]."*

Dywedodd un arall

*"Mae'r rhaglen yn werth ei dilyn ond mae angen i Lywodraeth Cymru feddwl am well dull. Llai biwrocrataidd ac am sawl blwyddyn."*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

7.56 Myfyriodd un person ar yr angen am amrywiaeth o systemau rheoli coetiroedd, ond gan bwysleisio'r synnwyr o ymgysylltiad lleol â choetiroedd.

*"Os ydym am greu a chynnal coetiroedd y dyfodol, mae angen cymysgedd o fentrau a tharddiadau arnom, gan ymwneud yn lleol a thyfu'n lleol".*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

7.57 Roedd un arall yn teimlo bod yr agwedd economaidd heb ei gwerthfawrogi'n ddigonol, gan ddweud:

*"Byddwn wrth fy modd o weld elfen o'r diwydiant pren yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol, i helpu i gyflawni'r strategaeth tai di-garbon."*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

7.58 Roedd un ymatebydd yn dadlau o blaid cyfnod treialu hwy pe byddai cam dilynol, a rhywfaint o eglurder ynglŷn â rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru:

*"Fe ddwedwn i bod angen mwy o amser rhagarweiniol. Os ydych yn ymrwymo i [gynlluniau] rhywogaethau estron goresgynnol, mae angen 3-5 mlynedd. Mae angen manteisio ar y gwaith cychwynnol, ac mae angen nodi'r manteision amgylcheddol ar gyfer...[pob un]... o'r 14 safle a nodwyd."*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

- 7.59 Nodwyd eto y syniad o ystyried faint o amser mae'n ei gymryd i asesu canlyniadau cadwraeth:

*“Yr hyn wnaethom ni fel rhan o'r gwaith [...] yw monitro cyflwr cennau yn ein Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol. Maen nhw'n gyfoethog o gennau ond yn maen nhw o dan gysgod. Rydym ni'n cynnal astudiaethau o gennau i asesu pa effaith gafodd gwaredu'r coed o amgylch. Gallai hyn fod yn beth hirdymor.”*

Cyfweliad â rhanddeiliad, 2021

### **Cynnwys cymunedau amrywiol**

- 7.60 Fel rhanddeiliaid a buddiolwyr, mae deall sut orau i gynnwys cymunedau yn y gwaith o greu'r Goedwig Genedlaethol yn allweddol ar gyfer cynaliadwyedd y rhaglen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. O ystyried natur y cynlluniau, mae'n glir nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru na Chynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth wedi bwriadu cynnwys cymunedau'n uniongyrchol ac er bod rhyw awgrym o fudd eilaidd i gymunedau o ganlyniad i'r mentrau, nid oes ymgysylltiad cymunedol i'w weld hyd yma.
- 7.61 Yn wahanol i gynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru a Chynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, roedd ymgysylltiad cymunedol yn rhan ofynnol a disgwyliedig o'r Coetiroedd Cymunedol, Coedwigoedd Bychain a Phlannu Coed. Roedd strwythur gofynion y cynlluniau i gynnwys y gymuned nid yn unig yn canolbwyntio ar gyflawni, ond hefyd disgwyliadau ynghylch yr ymrwymiad parhaus i gynnal a chadw a gwarchodaeth drwy addysg a hyfforddiant. Y bwriad oedd i'r prosiectau hyn nid yn unig greu coetiroedd a choedwigoedd, ond hefyd datblygu gwarcheidwaid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o blith y cymunedau.
- 7.62 Fel sydd eisoes wedi'i bwysleisio yn yr adroddiad hwn, un o effeithiau mwyaf sylweddol y pandemig ar gynlluniau a phrosiectau fu'r graddau y cwtogwyd ar gamau i gynnwys y gymuned o ganlyniad i gyfarwyddiadau aros gartref a mesurau cadw pellter cymdeithasol. Manylwyd ar union effaith hyn ar gynlluniau a phrosiectau yn yr adroddiad hwn, ond yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig cydnabod bod asesu i ba raddau y mae cymunedau amrywiol wedi'u cynnwys yn eithriadol o heriol. Er gwaethaf yr her hon, y mae tystiolaeth i awgrymu beth weithiodd yn dda a pha feysydd y gallai fod angen mwy o feddwl a chynllunio o ran ymgysylltu.

- 7.63 Hyd yn oed gan ystyried y tarfu a achoswyd gan y cyfyngiadau, mae canfyddiadau'r cyfweliadau gwerthuso a dogfennau'r cynlluniau yn dangos bod cynlluniau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cadwch Gymru'n Daclus wedi cyrraedd amrywiaeth o gymunedau gwahanol. Mewn llawer o achosion, mae diddordeb a brwdfrydedd ynghylch seilwaith gwyrdd wedi'i ennyn yn benodol gan Goedwigoedd Bychain a Choetiroedd Cymunedol (gweler yr Astudiaethau Achos yn Atodiad D).
- 7.64 Mewn llawer o ffyrdd, roedd amseriad y prosiectau hyn yn cael ei ystyried yn eithriadol o ffodus. Er i'r pandemig gyfyngu ar gynnwys cymunedau, roedd yn cael ei ystyried yn rhywbeth a agorodd lygaid y cymunedau i'r angen am natur a mannau gwyrdd ar garreg eu drws. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod y prosiectau wedi denu lefelau uchel o ddiddordeb mewn cymunedau.

*“Yn bennaf oherwydd y pandemig, mae'r diddordeb yn y prosiect hwn a pha mor berthnasol ydyw wedi cynyddu...”*

Astudiaeth Achos o Brosiect, 2021

- 7.65 Mae prosiectau Coedwigoedd Bychain yn enghreifftiau cryf o sut mae modd cynnwys cymunedau amrywiol yn natblygiad y Goedwig Genedlaethol o bosibl mewn ffordd y byddai modd eu gwneud ar raddfa fwy. Gan ganolbwyntio ar safleoedd trefol / o gwmpas trefi, lleoliadau heb lawer o fynediad i fannau gwyrdd / natur ac ardaloedd difreintiedig, mae coedwigoedd y cynllun peilot wedi cynnig cyfle i gynnwys cymunedau mwy amrywiol ac, yn bwysicaf, mae'n ymddangos eu bod yn cael eu croesawu.

*“Fe ddwedwn i [mai'r llwyddiant yw] cyffro'r gymuned leol a'i chefnogaeth i'r prosiect. Mae Pencoedtre mewn ardal ddifreintiedig iawn a gweddol heriol o'r Barri. Fel arfer mae'n anodd ymgysylltu â'r gymuned yn yr ardaloedd yma weithiau ond mae wir yn ymddangos bod y Goedwig Fechan wedi llenwi bwlch yn yr ardal ac roedd pobl wrth eu bodd o glywed bod eu parc am fod ag un o'r safleoedd cyntaf yng Nghymru.”*

Astudiaeth Achos o Brosiect, 2021

- 7.66 Yn bwysig, hyd yn oed â lefelau llawer is na'r disgwyl o gynnwys y gymuned mewn gwaith plannu oherwydd y pandemig, mae'n ymddangos bod creu'r safleoedd hyn wedi agor llygaid i'r hyn sy'n bosibl, ac mae awch sylweddol am brosiectau pellach yn codi o ganlyniad i brosiectau Coedwigoedd Bychain. Cyfeiriodd tri o'r pedwar

safle yr ymgysylltwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad at gynlluniau i'r dyfodol sydd naill ai yn yr arfaeth neu o dan ystyriaeth o ganlyniad i'r prosiect sbarduno.

*“Mae'r Goedwig Fechan yn rhannol yn alwad weledol i ddeffro sy'n cynnwys y gymuned ac wedi'i lleoli'n ganolog ynddi. Mae llawer o fesurau seilwaith gwyrdd eraill eisoes yn yr arfaeth yn y gymuned hon gan gynnwys un prosiect mawr...”*

Astudiaeth Achos o Brosiect, 2021

- 7.67 Gyda chymaint o deimlad cadarnhaol ynghylch y safleoedd hyn, mae'n bwysig deall sut orau i gynorthwyo'r cymunedau i symud o brosiect strwythuredig fel y Coedwigoedd Bychain (prosiectau sydd â dyluniad penodol ac sy'n cael eu rheoli i raddau helaeth gan Cadwch Gymru'n Daclus oddi mewn i'r cynllun peilot) tuag at waith mwy cymhleth o adfer a chreu coetiroedd fel yr hyn sy'n cael ei hwyluso gan gynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae synnwyr clir o ehangu rhwng y ddau gynllun mewn perthynas â'r canlyniadau a ddangosir yn y Theori newid, ond fel a arsylwyd gan arweinydd cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae datblygu coetiroedd yn gymhleth a gallai ymddangos yn anodd iawn i ddarpar ymgeiswyr.
- 7.68 O ystyried bod prosiectau Coetiroedd Cymunedol ar gam cymharol gynnar, mae'n fwy heriol asesu'r graddau y maent wedi cynnwys cymunedau amrywiol. Mae'r dulliau amrywiol a ddefnyddiwyd ar draws y tri phrosiect hefyd yn ffactor sy'n cymhlethu'r ymgais i ddeall yr effaith. Mae'r sefydliadau arweiniol yn amlwg yn dylanwadu ar y graddau y caiff y gymuned ei chynnwys, gyda'r prosiect dan arweiniad y gymuned a'r un prosiect a arweiniwyd ar y cyd yn dangos lefelau uchel o gynnwys y gymuned wrth ffurfio cynlluniau a cheisiadau. Mae'n bosibl y byddai'r arfer hon o gynnwys y gymuned wedi parhau drwy'r gwaith o weithredu'r prosiectau a'r camau cyflawni cynnar oni bai am y pandemig.
- 7.69 Mae'n bwysig ystyried i ba raddau mae cymunedau mwy amrywiol mewn sefyllfa i geisio am gynlluniau fel Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol heb gymorth ychwanegol i ddatblygu syniadau, paratoi ceisiadau a rheoli prosiect. Nid oedd yr un o'r prosiectau a gymeradwywyd yn hawlio eu bod mewn ardaloedd difreintiedig, gan gyfeirio at adnoddau a oedd ar gael (naill ai drwy rolau â thâl neu weithwyr proffesiynol wedi ymddeol) i ddatblygu cynigion a rheoli'r prosiectau a gymeradwywyd. Hyd yn oed o dan yr amodau hyn, yn achos o leiaf ddau brosiect (y rhai a oedd â'r ymgysylltiad cymunedol mwyaf o'r cychwyn) roedd

y gwaith cynllunio'n hir, gan awgrymu y gallai fod angen mwy o gymorth i wireddu prosiectau sy'n cynnwys cymunedau mwy amrywiol. Ochr yn ochr â hyn, mynegodd y rheolwyr prosiect hefyd fod baich cymharol fwy mewn perthynas â phrosesau gweinyddol ac roeddent yn awgrymu y byddai cymorth ychwanegol yn werthfawr.

- 7.70 Er bod cyfyngiadau'r pandemig yn effeithio ar y graddau y mae'r gymuned wedi'i chynnwys hyd yma, y mae rhywfaint o awgrym o'r potensial sydd i gynllun Coetiroedd Cymunedol gynnwys cymunedau yn natblygiad coetiroedd. Gan adlewyrchu'r 'cyffro' ynghylch y Coedwigoedd Bychain i ryw raddau, mae'r twf a nodwyd mewn grwpiau 'Cyfeillion' a'r diddordeb mewn gwirfoddoli yn awgrymu bod diddordeb sylweddol gan gymunedau yn y prosiectau. O ystyried bod y prosiectau'n bwriadu ymgysylltu â chymunedau lleol ac wrth i gyfyngiadau'r pandemig lacio, mae'n debygol y bydd gan gymunedau rôl fawr i'w chwarae dros y misoedd sydd i ddod.
- 7.71 Er bod i gynlluniau'r Coedwigoedd Bychain a Choetiroedd Cymunedol eu cryfderau o ran sut maent yn mynd ati i ymgysylltu â chymunedau, ystyriaeth allweddol yw sut orau i gynorthwyo'r arfer o gynnwys y gymuned mewn ffordd a all helpu i addysgu grwpiau yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd y coetiroedd a grëir. Gallai annog mwy o'r arfer o gynnwys cymunedau yn y gwaith o gynllunio a rheoli prosiect y Coedwigoedd Bychain a/neu fwy o gymorth i ddatblygu cynlluniau a rheoli prosiect cynigion Coetiroedd Cymunedol helpu i gau'r bwloch rhwng y ddau gynllun. Fodd bynnag, er mwyn harneisio'r brwdfrydedd presennol sydd yn y cymunedau, y mae'n glir o'r gwerthusiad hwn bod angen cymorth wedi'i dargedu, arweiniad a mynediad i arbenigedd er mwyn cynnwys cymunedau yn natblygiad tymor byr a thymor hir y Goedwig Genedlaethol.



## **8. Casgliadau ac Argymhellion**

### **Trafodaeth ar y canfyddiadau**

- 8.1 Aeth menter y prosiectau arddangos ati i brofi pa mor briodol yw amrywiaeth o drefniadau ariannu a gweinyddol ar draws pedwar cynllun gwahanol. Aeth ati hefyd i brofi'r graddau y gallai cymunedau amrywiol gael eu cynnwys i gyfrannu at y Goedwig Genedlaethol ac effeithiolrwydd ymgysylltiad rhanddeiliaid yn y broses.
- 8.2 Mae'r tablau ym Mhennod 3 - 7 yn rhoi awgrym o gryfderau a gwendidau pob cynllun. Mae'r adran hon yn dwyn y casgliadau allweddol ynghyd ac yn awgrymu argymhellion yn seiliedig ar y casgliadau hyn.

### **Trosolwg o'r rhaglen**

- 8.3 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan y cynlluniau'r potensial i gyflawni yn erbyn y canlyniadau cyhyd ag yr eir i'r afael â phryderon penodol, yn unol â'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, y mae'n rhy gynnar i ddweud yn hyderus y caiff y canlyniadau eu cyflawni, am fod i'r rhaglen yn gyffredinol orwel hirdymor (hanner can mlynedd), a gallai nifer o ffactorau gwleidyddol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gefnogi neu danseilio eu cyflawniad. Nid yw chwaith yn bosibl dweud yn bendant y caiff y gwaith ei gyflawni yn y tymor byr i ganolig, er enghraifft yn achos Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, oherwydd bod offer wedi'u prynu neu waith cychwynnol wedi'i wneud, oni bai bod ymrwymïadau cyfreithiol wedi'u cytuno.
- 8.4 Defnyddiwyd amrywiaeth drawiadol o ddulliau gweithredu ar draws Cynlluniau Arddangos y Goedwig Genedlaethol fel cyfanwaith – mae pob cynllun yn unigryw yn yr hyn y ceisiodd ei gyflawni a sut i'w gyflawni, a'r prosesau gweinyddol ac adrodd sydd ynghlwm wrthynt.

### **Dylunio a chyflawni'r cynlluniau**

- 8.5 Roedd y sawl a gymerodd ran yn y gwerthusiad o'r farn bod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth wedi'i ddylunio'n dda. Derbyniwyd adborth cadarnhaol yn sgil eglurder ei arweiniad a bod y broses ymgeisio a chyflawni yn gymharol hawdd.

- 8.6 Heriwyd pob un o'r cynlluniau gan derfynau amser tynn, er bod gan gynllun Coetiroedd Cymunedol gyfnod estynedig i 2022. Gwaethygyd yr heriau gan effaith COVID-19 ar gaffael, a'r graddau yr oedd cyflenwadau, offer a deunyddiau ar gael, yn ogystal ag ôl-groniad o waith a achosodd i gontractwyr oedi cyn cael mynediad i rai safleoedd. Yn yr un modd, cyfeiriwyd at effaith yng nghyd-destun y broses ymgysylltu mewn perthynas ag adeiladu capasiti cymunedol. Yn ôl eu natur, roedd rhai cynlluniau'n cynnwys tensiwn bwriadol, ar y naill law rhwng cyflawni targedau ar lawr gwlad ac yn unol â'r amserlen benodol, ac ar y llaw arall rhwng y prosesau caffael, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnwys cymunedau amrywiol.

**Argymhelliad 1:** Cydnabod bod ymgysylltu â'r gymuned ac adeiladu capasiti yn cymryd amser – ystyried sut gallai prosesau ymgeisio gael eu strwythuro'n wahanol i ganiatáu ar gyfer hyn, e.e., drwy ddarparu chwistrelliad cychwynnol o gyllid refeniw i ganiatáu i gynyddu capasiti cymunedol i ddatblygu datganiad o ddiddordeb cyn cyflwyno cais llawn.

- 8.7 Roedd materion tymhorol yn gysylltiedig â hyn. Mewn rhai achosion, cafodd hyn ei waethygu gan yr amser a gymerodd i wneud penderfyniadau dyfarnu, ac mewn eraill i gaffael offer a/neu wasanaethau. Yn ffodus, gwnaeth y gaeaf mwyn ganiatáu i waith barhau lle gellid bod wedi tarfu arno fel arall, er yn achos un prosiect yng nghynllun Ystad Goed Llywodraeth Cymru, gohiriwyd y gwaith oherwydd y tywydd. Gallai hyn fod yn faes i'w adlewyrchu yn y Theori Newid gan ganolbwyntio'n benodol ar ganlyniad sy'n nodi ffyrdd y gellid bod wedi lliniaru effeithiau tywydd garw cystal â phosibl.

**Argymhelliad 2:** Lle y bo'n bosibl, sicrhau bod y prosesau ymgeisio a dyfarnu, gan gynnwys gwrthod, yn rhoi ystyriaeth i ffactorau tymhorol er mwyn gwneud y gorau o waith gwella a rheoli coetiroedd a hysbysu trydydd partïon yn brydlon at ddibenion caffael. Dylid cael rhywfaint o gynlluniau wrth gefn hefyd ar gyfer cyfnodau o dywydd garw.

- 8.8 Yn achos cynllun Coetiroedd Cymunedol, roedd llwyddiant yn dibynnu ar grwpiau 'parod i'w pobi' o unigolion gwybodus, huawdl, llawn ysgogiad i greu consensws a chefnogaeth ymhlith eu cymunedau, ynghyd â lefelau priodol o gyngor a hyder ynglŷn â gwneud ceisiadau ac ymdrin â'r baich gweinyddol o adrodd a llwybrau papur. Yn ddealladwy, roedd y graddau yr oedd hyn wedi'i sylweddoli yn dameidiog o ystyried yr amserlenni tynn. Roedd hyn yn llai o ffactor yn achos Cynllun Adfer y

Diwydiant Coedwigaeth, yn rhannol am fod llawer o'r ymgeiswyr yn unigolion neu sefydliadau a oedd yn gyfarwydd ag ymdrin â gofynion gweinyddol. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achos hwn, mynegodd rhai sefydliadau'r farn bod y broses yn feichus (gweler paragraff 3.7).

- 8.9 Mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â sawl un o'r prosiectau a gynhaliwyd lle'r oedd eu hangen neu lle y dylent fod wedi'u cynnal, neu lle mai hwylustod a chyfle oedd y ffactor allweddol. Mae'n bosibl bod rhai o'r prosiectau a gyflwynwyd yn hwylus a/neu'n fanteisgar. Mae Pennod 5 yn dangos mai 'ffrwythau isel' mewn ffordd oedd y prosiectau yn achos y Coetiroedd Cymunedol.

### **Ymgysylltu â chymunedau amrywiol**

- 8.10 O ystyried mai un o nodau allweddol rhaglen y Goedwig Genedlaethol yw cael mwy o bobl i ymwneud â natur a chynnwys cymunedau amrywiol, mae'n rhaid cydnabod mai effaith COVID-19 fu rhwystro'r graddau y bu'r fath ymgysylltiad yn bosibl. Prosiectau Coedwigoedd Bychain a Phlannu Coed Cadwch Gymru'n Daclus gafodd eu heffeithio'n fwyaf sylweddol gan y cyfyngiadau symud a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, a dioddefodd cynllun Coetiroedd Cymunedol o ganlyniad i'r cyfyngiadau hefyd.
- 8.11 Roedd y graddau'r oedd cymunedau wedi'u cynnwys yn amrywio'n sylweddol, efallai oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â beth mae cynnwys y gymuned yn ei olygu. Roedd 'cynnwys y gymuned' felly'n amrywio o ofyn i'r gymuned fynegi ei chefnogaeth, i ymgysylltu'n llawn â grŵp 'Cyfeillion...'.

**Argymhelliad 3:** Darparu diffiniad clir ac arweiniad ar safonau, gydag enghreifftiau, o'r hyn yw 'cynnwys y gymuned'. Sicrhau bod 'cynnwys y gymuned', 'ymgysylltu â'r gymuned', 'cydgynhyrchu', ac 'ymgyngori' yn cael eu gwahaniaethu'n glir fel bod eu hystyr yn Theori Newid y rhaglen yn fwy eglur.

- 8.12 Teg yw dweud bod y sawl sy'n cyflawni'r ddau gynllun arall – Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth a chynlluniau gwella Cyfoeth Naturiol Cymru – yn 'cynnwys' cymunedau a ddaw o grwpiau demograffig mwy amrywiol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn amryw ffyrdd yn eu gwaith dydd i ddydd. Fodd bynnag, diben canolog eu gweithgareddau yn y cyd-destun hwn yw defnyddio cyllid cyfalaf i gaffael offer ac ymgymryd â gwaith ar lawr gwlad i wella coetiroedd.
- 8.13 At hynny, roedd diffyg gwybodaeth mewn rhai achosion ynglŷn â bodolaeth cynlluniau eraill yn 'nheulu' y Goedwig Genedlaethol, sut maent yn gysylltiedig ac

yn atgyfnerthu'i gilydd, ac wedi'u dewis i brofi agweddau eraill ar gyflawni a gweithredu. Ceir synnwyr bod pob cynllun wedi'i ddylunio i gyflawni cyfres unigryw o amcanion, ond nad oedd y synergeddau rhwng y cynlluniau wedi'u hystyried i'r un graddau. Nid anodd yw nodi sut mae rhesymeg gyffredinol rhaglen y Goedwig Genedlaethol wedi'i dadgyfuno i'r cynlluniau sy'n rhan ohoni, ond mae'n bwysig ailgyfuno'r cynlluniau i brofi a ydynt yn cydweddu yn ôl i'r cynllun. Dylid defnyddio'r prawf hwn wedyn i fynegi i bartïon sydd â diddordeb sut mae eu cynlluniau a'u prosiectau unigol yn cyfrannu at y rhaglen gyffredinol.

**Argymhelliad 4:** Atgyfnerthu'r cyswllt ar draws cynlluniau, er mwyn hybu synergedd, gan adeiladu rhwydwaith o gymorth i ddarparu offer, hyfforddiant, cyngor ac arbenigedd a rhannu arferion gorau. Dylid nodi canlyniad penodol ynglŷn â hyn a'i gynnwys gyda Theori Newid y rhaglen.

- 8.14 Roedd rhywfaint o bryder ym mhob un o'r cynlluniau, ond yn arbennig mewn perthynas â chynlluniau Coetiroedd Cymunedol a Choedwigoedd Bychain, ynglŷn ag i ba raddau y caiff y cyllid ei gynnal, yn arbennig o'r ochr refeniw, er mwyn darparu'r cymorth angenrheidiol i grwpiau a all fod yn llai hyderus i rannu barn neu safbwyntiau ar brosiect a allai fel arall chwarae rôl sylweddol yn helpu i gyflawni targedau'r Goedwig Genedlaethol. I raddau, mae'r fath bryder yn annheg o ystyried bod y rhaglen ar gam cynnar yn ei datblygiad, a'r bwriad oedd i'r prosiectau arddangos fod yn rhaglen wedi'i hariannu am un flwyddyn.
- 8.15 Roedd y cynlluniau oll wedi'u hariannu gan gyllid cyfalaf yn unig, er y caniatawyd elfen o refeniw ar gyfer cynllun Coetiroedd Cymunedol. Teimlodd rhai cyfranogwyr yng nghynllun Coetiroedd Cymunedol fod y cyllid cyfalaf yn unig yn ffactor a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i brosesu eu prosiect, a'r goblygiad oedd efallai na fyddai eu prosiect wedi mynd rhagddo heb i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ddarparu elfen o gyllid refeniw. Dadleuodd rhai y gallai elfen o gyllid refeniw fod wedi gwneud gwahaniaethau sylweddol i'w gallu i chwarae mwy o ran mewn rhai prosiectau. Dylid nodi bod y cyllid refeniw yn bwysig o ran gwneud y mwyaf o'r effaith a gafodd y buddsoddiad cyfalaf a chynnal yr effaith honno.

**Argymhelliad 5:** Archwilio'r defnydd o gyllid refeniw am amser cyfyngedig i ddarparu cymorth i gymunedau a'u galluogi i gynyddu hyder a chapasiti, a chynorthwyo cynaliadwyedd prosiectau.

8.16 Ar y cam hwn, anodd yw asesu effaith COVID-19 ar allu grwpiau o wirfoddolwyr i adfer momentwm a chynnal y gwaith o reoli safleoedd yn y dyfodol.<sup>38</sup> Dros amser, mae'n debygol y caiff capasiti ei adfer, ond gallai fod angen ymdrech sylweddol i rai grwpiau gwirfoddol lleol ddenu eu haelodau o'r newydd, yn arbennig gan mai dinasyddion hŷn yn aml yw cyfran sylweddol o aelodau o'r fath, a bydd y pandemig wedi cael effaith benodol ar y ddemograffeg hon.<sup>39</sup> Gallai fod cyfiawnhad felly i roi cymorth i agweddau ar recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr mewn cynlluniau sydd â thargedau penodol yn ymwneud â chynnwys y gymuned. Wedi dweud hynny, mae elfennau eraill o dystiolaeth yn awgrymu bod gwirfoddoli wedi cynyddu mewn ymateb i'r pandemig, er enghraifft helpu cymdogion a phobl fregus.<sup>40</sup> Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r adborth am gynllun Coedwigoedd Bychain bod diddordeb sylweddol mewn cael mynediad i natur, a brwdfrydedd ynghylch y cysyniad.

**Argymhelliad 6:** Ystyried cyfnod o gydgyrnhoi ac ymgynghori i sicrhau bod offer sydd wedi'u caffael yn cael eu defnyddio i wneud cynnydd ar raglen y Goedwig Genedlaethol, ac adeiladu'r hyder a'r capasiti sydd eu hangen i sicrhau bod yr hyn a roddwyd yn ei le yn cael ei reoli yn y dyfodol. Rhoi cyfeiriad ar y cymorth sydd ar gael i grwpiau i'w galluogi i adfer, efallai drwy Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol neu Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i helpu i ddefnyddio gwirfoddolwyr yn effeithiol yn y cynlluniau hynny ac i ymgysylltu â chymunedau amrywiol.

**Argymhelliad 7:** Ystyried bwrw ymlaen yn ofalus â pheilot estynedig ar gyfer pob prosiect, cyn lansio'r rhaglen yn llawn. Defnyddio'r arbenigedd a ddatblygwyd gan gyfranogwyr yn y prosiectau arddangos i ddarparu cyngor a chymorth, e.e. drwy fentora neu gymorth arall gan gymheiriaid, i'r garfan nesaf o gyfranogwyr a datblygu mesuriad i'w gynnwys yn y Theori Newid i fesur cynnydd ar hyn.

---

<sup>38</sup> Gweler er enghraifft [NTU-Covid-voluntary-sector-report-Feb-2021\\_DIGITAL.pdf \(cpwop.org.uk\)](#)

<sup>39</sup> [Taking Part 2019/20 - Volunteering - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>40</sup> [A look at volunteering during the response to COVID-19 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

- 8.17 Wrth drafod amcanion, mae'n bwysig cydnabod amcanion pwy sydd dan sylw – amcanion y chwaraewyr neu'r grwpiau unigol; amcanion y cynllun; neu amcanion rhaglen y Goedwig Genedlaethol. Ni ddylid tybio bod y rhain yn cyd-daro â'i gilydd. Roedd gan bob cynllun ei gyfres o amcanion, a oedd yn amrywiol eu cymhlethdod. Yn achos Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, er enghraifft, roedd yr amcanion yn gymharol syml, am eu bod yn ymwneud yn bennaf â chaffael offer. Y dybiaeth yw y bydd hyn wedyn yn cael ei ddefnyddio i ymgymryd â gwaith wrth geisio cyflawni amcanion ehangach y Goedwig Genedlaethol.

**Argymhelliad 8:** Archwilio'n feirniadol y graddau y mae'r amryw chwaraewyr mewn cytgor, y graddau y maent yn cydweddu ag amcanion y cynllun, a'r graddau y mae'r rhain yn eu tro yn cynorthwyo amcanion rhaglen y Goedwig Genedlaethol. Sicrhau bod datblygiad y rhaglen a'r gweithgarwch yn cyd-fynd â model y Theori Newid a gytunwyd.

**Argymhelliad 9:** Gwneud y broses werthuso'n un fewnol drwy gael eglurhad o'r cwestiynau sydd i'w gofyn, darparu data i helpu i gynllunio a datblygu'r prosiectau, a sicrhau bod data perthnasol yn cael ei archifo a bod yr ymgylgoreion perthnasol yn cael eu rhestru lle y bo'n bosibl. Dylai hyn gael ei wneud yn rhan greiddiol o'r prosiect a'i ddatblygu drwy gydol oes y prosiect yn hytrach na'i fod yn cael ei ystyried yn rywbeth ychwanegol.

- 8.18 Efallai bod rhai grwpiau wedi penderfynu peidio â gwneud ceisiadau i gynllun Coetiroedd Cymunedol oherwydd y syniad o ymrwymo i reoli'r coetir yn y tymor hwy. Mewn achosion eraill, e.e. Coedwigoedd Bychain, a hyd yn oed yn achos prosiectau Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a Rhywogaethau Estron Goresgynol Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y capasiti i reoli yn parhau.
- 8.19 Yn achos Coedwigoedd Bychain, roedd i'w weld o'r adborth bod elfen o ansicrwydd ynglŷn â sut y byddai neu sut y dylai safleoedd o'r fath gael eu cynnal ar ôl i'r cyfnod cyllido ddod i ben. Roedd yn glir bod llawer o bobl a oedd yn ymwneud â'r prosiect yn frwdfrydig ond efallai nad oeddent yn ymwybodol o'r oblygiadau, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos bod y prosiectau hyn wedi'u cyfarwyddo'n gryf gan staff Cadwch Gymru'n Daclus, efallai yn unol â'u agenda hwy yn hytrach na rhai'r cymunedau. Yn sicr, mae'n ymddangos bod yma fater o 'un ffordd yn addas i bawb' yn y cynllun penodol hwn.

**Argymhelliad 10:** Edrych am arwyddion clir yn y cynigion a'r cynlluniau datblygu ar gyfer Coedwigoedd Bychain ynglŷn â sut maent am gael eu cynnal a'u rheoli yn y tymor hwy gan gynnwys nodi opsiynau ariannu neu ddulliau codi refeniw i wneud hyn gan gynnwys datblygu cynlluniau cynaliadwyedd y prosiectau.

- 8.20 Ni fynegwyd unrhyw faterion yn achos Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth ynglŷn â chanfod offer arbenigol, a chaiff ei dybio na wnaeth Llywodraeth Cymru osod unrhyw gyfyngiadau ar wahân i'r angen i geisio pris cystadleuol am yr eitem yr oedd ei hangen. Deellir y mewnforiwyd nifer o eitemau, yn ôl pob tebyg am nad oedd modd eu cael yn fwy lleol. Yn achos y cynlluniau eraill, nid oes data i ddangos a oedd y glasgoed o stoc leol, nac a oedd unrhyw offer angenrheidiol wedi'u caffael yn lleol. Mae cyfle i'r rhaglen hybu buddsoddi mewn economïau lleol, a chynorthwyo i wneud hynny, er budd cymunedau lleol.
- 8.21 Mae'r ddibyniaeth ar lythrennedd cyfrifiadurol, ac ar effeithiolrwydd technoleg, wedi cynyddu'n aruthrol, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos cyfathrebu yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Roedd rhai o'r cynlluniau'n dibynnu'n helaeth ar systemau ar-lein i brosesu a gweinyddu prosiectau, yn ogystal â dweud wrth bobl am eu bodolaeth. Mae hyn yn tybio elfen o fynediad ac elfen o hyder yn gweithio â'r systemau hyn. Roedd rhywfaint o adborth yn awgrymu diffyg hyder yn rheoli'r prosesau ar-lein (er enghraifft yn achos Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth), ac yn cymryd rhan mewn gweithdai a hyfforddiant (yn achos cynllun Coetiroedd Cymunedol).

**Argymhelliad 11:** Darparu cyngor a chymorth ar ddefnyddio prosesau ymgeisio, monitro ac adrodd ar-lein i sicrhau mynediad ar gyfer y rhai sy'n llai hyderus yn defnyddio cyfryngau digidol.

- 8.22 Wrth i Raglen y Goedwig Genedlaethol symud ymlaen i gam ymgynghori, mae'r gwerthusiad hwn wedi nodi sawl maes sy'n berthnasol i'w harchwilio yn yr ymgynghoriad arfaethedig.

**Argymhelliad 12:** Dylai gwaith ymgynghori yn y dyfodol ganolbwyntio ar:

- Archwilio ymhellach sut i gynnwys cymunedau mwy amrywiol drwy ymgynghori ynghylch mecanweithiau a thrwy gydgyhychu
- Ymgynghori ar natur gwaith i adeiladu capasiti a allai fod yn ofynnol wrth symud ymlaen â'r Rhaglen gan gynnwys natur y capasiti, sut y gellid ei gyflawni, ac ar ba gam(au) y bydd fwyaf buddiol
- Archwilio unrhyw feysydd neu fathau o brosiectau sydd heb eu cynnwys yn y prosiectau arddangos gwreiddiol a datblygu cynlluniau pellach i fynd i'r afael â'r bylchau hyn
- Archwilio sut y byddai cynlluniau, prosiectau a grwpiau buddiant y Goedwig Genedlaethol yn dymuno gael eu cynnull i hwyluso gwaith partneriaeth a rhwydweithio.



Atodiad A: Theori Newid

NODER: Mae'r dudalen wedi'i gosod i argraffu fel taflen A3.

Datblygwyd y Theori Newid drwy weithdy ar-lein gyda staff rhaglen y Goedwig Genedlaethol a rheolwyr prosiectau'r cynlluniau ac roedd yn adlewyrchu'r materion allweddol a nodwyd mewn cyfweiliadau cwmpasu.

| PROSIECTAU ARDDANGOS Y GOEDWIG GENEDLAETHOL                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| NOD / GWELEDIGAETH                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| PROFI DULLIAU I GYFLAWNI, CYLLIDO AC YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID YN EFFEITHIOL ER MWYN CYNORTHWYO I GREU ECOSYSTEM GYSYLLTIEDIG SY'N CWMPASU HYD A LLED CYMRU - COEDWIG GENEDLAETHOL CYMRU |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| CYNLLUNIAU                                                                                                                                                                                | MEWNBYNNAU                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | GWEITHGAREDDAU                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | ALLBYNNAU                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | CANLYNIADAU (TYMOR BYR)                                                                                                                                                                                                                                                                                                | CANLYNIADAU (TYMOR CANOLIG)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | CANLYNIADAU (TYMOR HIR)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| Grantiau coetiroedd cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i adfer, creu, cysylltu a rheoli coetiroedd yng Nghymru.                                                           | <ul style="list-style-type: none"><li>£1 filiwn o gyllid cyfalaif</li><li>Amser staff Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol</li><li>Datblygu partneriaethau, cynhyrchu cynlluniau rheoli</li></ul>                                                                                                                                                                                                                                                                    | <ul style="list-style-type: none"><li>Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cyflawni'r rhaglen grantiau gan ddarparu grantiau o £10k - 250k</li><li>Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn monitro'r rhaglen grantiau</li><li>Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn marchnata'r rhaglen grantiau</li><li>Rheolwr y prosiect yn monitro'r prosiect</li></ul>                                     | <ul style="list-style-type: none"><li>Nifer y ceisiadau am grantiau a dderbynnir yn ôl lleoliad a math</li><li>Nifer y grantiau a ddyfernir yn ôl lleoliad a math</li><li>Amser staff y prosiect mewn FTE</li><li>Nifer y coed heintus a waredir</li><li>Nifer ac amrywiaeth y coed a blannir</li><li>Arwynebedd y tir cyhoeddus diangen a blannir</li><li>Maint y tir [Ha] sydd wedi'i gaffael ar gyfer prosiect y Goedwig Genedlaethol</li><li>Nifer ac amrywiaeth rhywogaethau targed – adar, mamaliaid, infertebratau – amcangyfrif o gynnydd %rannol yn erbyn y llinell sylfaen</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Llai o goed heintus</li><li>Llai o rywogaethau goresgynnol</li><li>Cynnydd yn niferoedd y coed a'u hamrywiaeth</li><li>Cymunedau'n ymwneud mwyfwy â gweithgareddau</li><li>Deall bod pob cynllun yn gyd-ddibynnol - symud tuag at integreiddio a chyduno'n un cysyniad</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Mwy o amrywiaeth o rywogaethau</li><li>Cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr sy'n dymuno profi coetiroedd fel mannau gwylt</li><li>Mwy o gydnabyddiaeth o'r Goedwig Genedlaethol fel symbol o ymrwymiad amgylcheddol Cymru</li><li>Cynnydd mewn niferoedd gwirfoddolwyr cyrff anillywodraethol</li><li>Cefnogaeth sefydliadol a gwleidyddol i'r cysyniad a'r weledigaeth</li><li>Mwy o dderbyniad ymysg y gymuned ffermio o werth coetiroedd</li><li>Gwasanaeth parcymyn y Goedwig Genedlaethol, sy'n seiliedig yn y gymuned, yn esblygu</li><li>Gwelliannau i ansawdd dŵr ac aer</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Gwell bioamrywiaeth</li><li>Cyhoedd sy'n cymryd rhan ac sy'n ystyried bod y Goedwig Genedlaethol yn eiconig a chyffrous</li><li>Gwelliannau sylweddol i ansawdd dŵr</li><li>Cynnydd yn niferoedd y twristiaid yn darparu gwerth i bobl leol</li><li>Y Goedwig Genedlaethol yn agwedd ganolog ar raglenni dysgu i bobl ifanc</li><li>Mwy o ddefnydd o goedwigoedd i ddarparu coed a ffibr</li><li>Y Goedwig Genedlaethol yn darparu ffynhonnell gynaliadwy o incwm a chyfleoedd i arallgyfeirio ar ffermydd</li><li>Cymru'n cael ei hystyried ar flaen y gad yn fyd-eang ym maes adfywio a rheoli coedwigoedd dan arweiniad y gymuned</li></ul> |
| Cynllun Coedwigoedd Bychain Cadwch Gymru'n Daclus                                                                                                                                         | <ul style="list-style-type: none"><li>£170k o gyllid cyfalaif</li><li>Amser staff Cadwch Gymru'n Daclus</li><li>Amser partneriaid - athrawon, gwirfoddolwyr ac ati [oriau]</li><li>Coed ifanc, offer ac ati a brynir ar lefel prosiect unigol - [math, rhywogaeth, nifer a ££]</li><li>Paneli dehongli a strwythurau eraill e.e. ffensys [math a ££]</li><li>Hyfforddiant [amser a ££]</li><li>Materion cyfreithiol, anghenion yswiriant y telir amdanynt [££]</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Cadwch Gymru'n Daclus yn cyflawni'r prosiect</li><li>Cadwch Gymru'n Daclus yn monitro'r rhaglen grantiau</li><li>Cadwch Gymru'n Daclus yn marchnata'r rhaglen grantiau</li><li>Cadwch Gymru'n Daclus yn ymgysylltu â phobl ifanc ac athrawon / arweinwyr ysgolion</li><li>Gwaith parato'r tir e.e. ffensio, clirio, plannu</li><li>Cynhyrchu deunyddiau addysgol</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Nifer y prosiectau yr ystyrir eu cyllido</li><li>Nifer y prosiectau a gyllidir</li><li>Nifer a rhywogaethau'r coed a blannir</li><li>Deunyddiau addysgol a gynhyrchir</li><li>Maint a math y coedwigoedd bychain a grëir</li><li>Nifer a phroffil y bobl ifanc a gyrhaeddir ac yr ymgysylltir â hwy</li></ul>                                                                                                                                                                                                                                            | <ul style="list-style-type: none"><li>Mwy o ymwybyddiaeth ymysg y niferoedd targed o amryw werthoedd coetiroedd</li><li>Mwy o gymorth ac ymgysylltiad gan blant a'u teuluoedd</li></ul>                                                                                                                                | <ul style="list-style-type: none"><li>Mwy o ymgysylltiad a hyder ymysg cymunedau trefol – ymwelwyr a defnyddwyr newydd</li><li>Cynnydd yn nifer y Coedwigoedd Bychain o ganlyniad i gyhoeddusrwydd</li><li>Coedwigoedd Bychain yn darparu cyswllt gwerthfawr rhwng y dref a'r wlad</li><li>Mwy o amrywiaeth o rywogaethau mewn ardaloedd o gwmpas trefi ac ardaloedd trefol</li><li>Cymunedau'n berchen ar eu coetiroedd lleol ac wedi'u grymuso i fod yn gyfrifol am eu gofal – gwasanaethau parcymyn gwirfoddol lleol ar gyfer coetiroedd</li></ul>                                                                        | <ul style="list-style-type: none"><li>Coedwigoedd Bychain yn elfen bwysig yng nghysyniad y Goedwig Genedlaethol</li><li>Coedwigoedd Bychain yn dod yn rhan gyfrannol allweddol o gwricwlwm ysgolion</li><li>Coetiroedd lleol yn labordai awyr agored</li><li>Lle creiddiol i waith rheoli coetiroedd mewn agendau gwleidyddol lleol</li></ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |

PROSIECTAU ARDDANGOS Y GOEDWIG GENEDLAETHOL  
NOD / GWELEDIGAETH

PROFI DULLIAU I GYFLAWNI, CYLLIDO AC YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID YN EFFEITHIOL ER MWYN CYNORTHWYO I GREU ECOSYSTEM GYSYLLTIEDIG SY’N CWMPASU HYD A LLED CYMRU - COEDWIG GENEDLAETHOL CYMRU

| CYNLLUNIAU                                                          | MEWNBYNNAU                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | GWEITHGAREDDAU                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | ALLBYNNAU                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | CANLYNIADAU (TYMOR BYR)                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | CANLYNIADAU (TYMOR CANOLIG)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | CANLYNIADAU (TYMOR HIR)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|---------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cynlluniau<br>Gwella<br>Coedwigoedd<br>Cyfoeth<br>Naturiol<br>Cymru | <ul style="list-style-type: none"><li>£1 filiwn o gyllid cyfalaf</li><li>£200k o gyllid refeniw</li><li>Amser Staff Cyfoeth Naturiol Cymru</li><li>Prynu a llogi offer [math, maint, ££]</li><li>Amser staff ar waith gweinyddol [oriau]</li></ul>                                                                                                | <ul style="list-style-type: none"><li>Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni’r prosiect</li><li>Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro’r cynlluniau</li><li>Cyfoeth Naturiol Cymru yn marchnata’r cynllun a’r prosiectau</li><li>Ceisiadau grant gweinyddu</li><li>Cynllunio rheoli adnoddau naturiol mewn safleoedd</li><li>Ymyriadau a gynhelir – clirio rhywogaethau goresgynnol, gwaredu coed heintus neu a niweidiwyd, rheoli Planigfeydd ar Safle Coetir Hynafol, dehongli, gwell cyfleusterau ymwelwyr e.e. llwybrau pren, llwybrau cerdded ac ati</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Nifer y Cynlluniau Gwella Coedwigoedd yr ystyrir eu cyllido</li><li>Nifer y Cynlluniau Gwella Coedwigoedd a gyllidir</li><li>Amser staff y prosiect mewn FTE</li><li>Nifer y coed heintus a waredir</li><li>Nifer ac amrywiaeth y coed a blannir</li><li>Nifer ac amrywiaeth rhywogaethau targed – adar, mamaliaid, invertebratau – amcangyfrif o gynnydd %rannol yn erbyn y llinell sylfaen</li><li>Nodweddion dynodedig a ddiogelir ac a wellir [coetiroedd SoDdGA]</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Llai o goed heintus</li><li>Gwaredu rhywogaethau goresgynnol</li><li>Cynlluniau coedwigoedd yn cynyddu pwyslais ar wasanaethau’r ecosystem y tu hwnt i gynhyrchiant</li><li>Cynnydd yn nifer y coed a’u hamrywiaeth</li><li>Rheoli a diogelu Planigfeydd ar Safle Coetir Hynafol</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Cynnydd yn amrywiaeth a niferoedd y rhywogaethau</li><li>Y cyhoedd yn ystyried yr ystâd goedwig yn Goedwig Genedlaethol eiconig</li><li>Mwy o gefnogaeth gan sefydliadau</li><li>Gwell rhaglenni addysgol a dehongli</li><li>Y Goedwig Genedlaethol yn cyduno’n un rhaglen adnabyddadwy</li><li>Datblygu gwasanaeth parcmyn proffesiynol y Goedwig Genedlaethol ledled Cymru</li><li>Gwasanaeth gwirfoddolwyr y Goedwig Genedlaethol yn dehongli agweddau ar y Goedwig Genedlaethol i ymwelwyr o blith y cyhoedd</li><li>Mwy o bartneriaethau cyhoeddus / â chyrff anllwyodraethol</li><li>Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy’n dymuno profi coetir gwylt</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Coedwig Genedlaethol gysylltiedig</li><li>Gwell bioamrywiaeth</li><li>Cyhoedd sy’n cymryd rhan ac sy’n ystyried bod y Goedwig Genedlaethol yn eiconig a chyffrous</li><li>Cynnydd yn niferoedd y twristiaid yn darparu gwerth i bobl leol</li><li>Y Goedwig Genedlaethol yn agwedd ganolog ar raglenni dysgu i bobl ifanc – labordy awyr agored</li><li>Mwy o ddefnydd o goedwigoedd i ddarparu coed a ffibr</li><li>Y Goedwig Genedlaethol yn darparu ffynhonnell gynaliadwy o incwm a chyfleoedd i arallgyfeirio ar ffermydd</li><li>Cymru’n cael ei hystyried ar flaen y gad yn fyd-eang ym maes adfywio a rheoli</li><li>Y Goedwig Genedlaethol yn symud tuag at hunangynhaliath</li></ul> |
| Cynllun Adfer<br>y Diwydiant<br>Coedwigaeth                         | <ul style="list-style-type: none"><li>£2 filiwn+ o gyllid cyfalaf yn cefnogi:<ul style="list-style-type: none"><li>Peirianwaith arbenigol [math, maint, ££]</li><li>Addasu peirianwaith i gydymffurfio ag ystyriaethau Covid [££]</li><li>Gweinyddu [oriau]</li><li>Strwythurau – adeiladau, ffensys ac ati [math, nifer, ££]</li></ul></li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>Llywodraeth Cymru’n cyflawni’r prosiect</li><li>Llywodraeth Cymru’n monitro’r cynlluniau a’r prosiectau</li><li>Llywodraeth Cymru’n marchnata’r cynllun a’r prosiectau</li><li>Gweinyddu ceisiadau grantiau prosiectau</li><li>Prynu/llogi offer</li><li>Clirio’r tir</li><li>Gwaith coedyddiaeth</li><li>Ffensio er diogelwch ac ati</li></ul>                                                                                                                                                                      | <ul style="list-style-type: none"><li>Nifer y cynigion llwyddiannus/aflwyddiannus</li><li>Faint o dir a baratoir</li><li>Nifer y coed a blannir/gwaredir am resymau diogelwch/haint</li><li>Faint o bren a gynaeefir</li><li>Nifer y meithrinfeydd coed a gynorthwyir</li><li>Nifer y sefydliadau eraill a gynorthwyir</li></ul>                                                                                                                                                                                      | <ul style="list-style-type: none"><li>Caiff meithrinfeydd coed eu cynorthwyo a rhoddir hyder iddynt i fuddsoddi</li><li>Offer wedi’i ddiweddarau ac yn addas i’r diben</li><li>Coed heintus wedi’u gwaredu</li><li>Cynnydd yn nifer ac amrywiaeth y glasgoed lleol</li><li>Swyddi lleol wedi’u diogelu</li></ul>                 | <ul style="list-style-type: none"><li>Gall meithrinfeydd ymateb i’r galw am goed ifanc o stoc leol</li><li>Wrth i’r galw gynyddu, gall meithrinfeydd ailfuddsoddi a chynnal swyddi</li><li>Galw cynyddol am waith cwmnïau coedyddiaeth wrth i’r stoc goetir leol gynyddu</li><li>Gall cwmnïau ailfuddsoddi mewn offer arbenigol, hyfforddiant a chadw staff</li></ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | <ul style="list-style-type: none"><li>Wrth i goetiroedd aeddfedu, mae’r galw am wasanaethau coedyddiaeth medrus yn cynyddu</li><li>Cwmnïau a staff yn arallgyfeirio i weithgareddau eraill yn seiliedig ar grefftau’r goedwig</li><li>Diwydiant llewyrchus yn datblygu yn seiliedig ar goetiroedd</li></ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |

#### **TYBIAETHAU**

- Dull integredig sydd orau i gyflawni canlyniadau'r prosiectau
- Mae'r sector eisiau chwarae rhan, ac mae ganddo'r gallu i gynorthwyo'r cyflawniad
  - Mae gan bartneriaid y gallu i gyflawni'r prosiect fel y mae wedi'i ddylunio
  - Mae'r Awdurdodau Lleol yn barod i gynorthwyo'r prosiectau

#### **RHWYSTRAU**


- Efallai nad oes gan fuddiolwyr posibl yr ewylllys/awydd i ymwneud â'r prosiect
- Diffyg capasiti ymysg partneriaid prosiectau a sefydliadau cynorthwyol eraill
- Gallai newidiadau i ardaloedd/cynlluniau Awdurdodau Lleol penodol effeithio ar gyflawniad

#### **GALLUOGWYR**

- Amrywiaeth y sgiliau a'r adnoddau y mae partneriaid yn eu dwyn ynghyd
  - Cymorth arbenigol a ddarperir gan bartneriaid
- Gwaith marchnata a datblygu partneriaeth gan yr holl bartneriaid
  - Cymorth gan y panel cyngori ac adnoddau
- Gwaith datblygu partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
  - Cymorth parhaus a ffocws polisi Llywodraeth Cymru


## Atodiad B: Siartiau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth

**Ffigur B.1: Pa fath o sefydliad ydych chi?**



Ffynhonnell: Arolwg Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (Pob Ymgeisydd) 2021. N=20.  
Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pa fath o sefydliad ydych chi'

**Ffigur B2: Y Sefydliadau y mae'r Ymgeiswyr yn Gweithio gyda Hwyr**



Ffynhonnell: Arolwg Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (Pob Ymgeisydd) 2021. N=20.  
Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych wedi gweithio, neu a ydych yn gweithio gyda / yn unrhyw rai o'r meysydd canlynol?'

## **Atodiad C: Proffil Adborth ar y Digwyddiadau i Randdeiliaid**

### *Proffil ymatebion yr arolwg*

Benywod (75%) yn bennaf oedd y rhai a ddarparodd adborth ar y sesiynau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid ac roeddent ar y cyfan dros 35 oed (roedd 84% o'r ymatebwyr rhwng 35 a 74 oed).

Daeth mwyafrif yr ymatebion adborth gan rai sy'n byw ym Mhowys, Caerdydd ac Ynys Môn, ac roedd ymatebion yr arolwg yn awgrymu bod gan y digwyddiad i'r rhanddeiliaid ei hun gyrhaeddiad eang. Gwyn Prydeinig oedd ethnigrwydd mwyaf cyffredin ymatebwyr yr arolwg (64%), er bod traean o'r sampl yn nodi mai Cymry yw eu grŵp ethnig (32%). Dywedodd ychydig dros ddegfed rhan (14%) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt anabledd sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i wneud gweithgareddau dyddiol.

## Atodiad D: Astudiaethau Achos o Brosiectau

### *Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, Cyngor Caerdydd*

#### **Cyflwyniad**

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu gwasanaeth cadwraeth a pharcmyn yn seiliedig yn Fferm y Fforest, sy'n ganolbwynt i weithgarwch gwirfoddoli ar draws parciau a mannau agored y ddinas.

Mae Cyngor Caerdydd yn cael trafferthion â rhywogaethau estron goresgynnol ynghyd â chlefyd coed ynn ar lawer o safleoedd ar eu hystad. Roedd hefyd angen tynnu coed ar raddfa fach ar nifer o safleoedd yn eu coetiroedd, ynghyd â chynnal gwaith rheoli pellach. Er bod yr angen wedi'i ganfod, mae'r cyllidebau'n gyfyngedig. Diben y prosiect oedd prynu'r offer angenrheidiol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yma.

#### **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Efallai mae'r fantais fwyaf ac amlycaf oedd bod y cyngor wedi llwyddo i brynu'r offer angenrheidiol ac mae ar gael iddynt i'w ddefnyddio. Ffactor allweddol arall oedd nad oedd angen hyfforddiant ar bersonél allweddol am eu bod yn gymwys i ddefnyddio'r offer arbenigol yma. Yn amlwg, bydd angen hyfforddi eraill i drin yr offer yn ddiogel.

#### **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Heb chwistrelliad o gyllid y prosiect arddangos, mae'n debygol y byddai'r offer arbenigol, e.e. tractor â sedd y gellir ei throï'r ffordd arall, y tu hwnt i allu'r awdurdod. Cafwyd rhywfaint o gyllid cyfatebol o du'r cyngor drwy werthu tractor llai.

#### **Gwersi a ddysgwyd o'r gweithredu a'r cyflawni**

Mae'n ymddangos na wnaed llawer i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r prosiect hwn a strategaeth drosfwaol Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y gallai hyn fod wedi bod yn well, yn dibynnu ar ba rwydwaith yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweithio yn unol ag ef.

Mae arweinydd y prosiect yn ymwybodol o Goedwigoedd Bychain a phrosiect y goedwig Genedlaethol yn gyffredinol, a chafodd gyfarfod cadarnhaol gyda thîm y Goedwig Genedlaethol. Er ei bod yn ymwybodol o Leoedd Lleol ar gyfer Natur, nid oedd arweinydd y prosiect yn llwyr ymwybodol bod cynllun Coetiroedd Cymunedol ar wahân mewn perthynas â'r Goedwig Genedlaethol. Byddai'n dda rhoi cydnabyddiaeth i Goed Caerdydd yn y Goedwig Genedlaethol, yn arbennig coetiroedd gogledd Caerdydd.

## **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Mae anawsterau weithiau o ran gael caniatâd TG oddi mewn i gyrff cyhoeddus. Os yw Llywodraeth Cymru'n rhedeg systemau ar-lein yn unig, mae angen iddynt sicrhau bod amser digonol yn cael ei roi i ymgeiswyr o'r fath ymdrin â materion diogelwch.

### ***Rheoli Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol / Gwaredu Rhywogaethau Estron Goresgynol, Coed y Brenin***

#### **Cyflwyniad**

Yn unol â strategaeth Coetiroedd i Gymru, dylai pob Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru (ac eithrio'r rhai sydd heb weddillion amlwg) gael ei hadfer i gyflwr mwy naturiol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymgymryd â'r gwaith o arolygu, adfer, rheoli a monitro Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol yn Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Cyfarwyddwyd y gwaith ar lefel uwch. Roedd ei ddyluniad yn seiliedig ar waredu rhywogaethau estron goresgynol mewn safleoedd coetir hynafol gwarchodedig. Cynhaliwyd arolwg Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, a chategoreiddiwyd y safleoedd yn unol â meini prawf megis pwysigrwydd bioamrywiaeth a bygythiadau gan rywogaethau goresgynol megis rhododendron ponticum a chegid y gorllewin. Gwnaed gwaith monitro sylfaenol o gennau, er enghraifft, ar gyfer y dyfodol. Defnyddiwyd contractwyr i gynnal gwaith i waredu rhywogaethau estron goresgynol.

#### **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Roedd modd i'r prosiect ymgymryd â gwaith angenrheidiol i waredu rhywogaethau estron goresgynol, a fydd gydag amser o fudd i leoliadau planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol.

#### **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Yn yr achos penodol hwn, byddai a dylai gwaredu rhywogaethau estron goresgynol o leoliadau planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol [yn dibynnu ar gyfyngiadau cyllidebol] fod yn rhan o raglen reoli Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae prosiect arddangos y Goedwig Genedlaethol wedi ein galluogi i ddechrau ar y broses o waredu rhywogaethau estron goresgynol.

#### **Gwersi a ddysgwyd o'r gweithredu a'r cyflawni**

Mae angen eglurder a chyfeiriad, fel y gall y prosiect ddefnyddio ein hadnoddau ariannol a dynol mor dda a phosibl er budd natur a phobl.

## **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Er bod y cyllid i'w groesawu, mae angen dull gweithredu strategol i alluogi i swyddogion ar lawr gwlad asesu a chynllunio, a gwneud y defnydd gorau o'r arian, yn hytrach nag ymateb i reidrwydd. Mae angen amser rhagarweiniol i'n galluogi i gynllunio at y dyfodol, yn arbennig pan mae arian yn cael ei ryddhau ar gyfer gwaith sydd i'w gynnal yn unol ag amserlen dynn. Mae angen ystyried gwaith plannu yn fwy strategol, ac mae angen iddo fod yn seiliedig ar offer ymchwilio megis mapio ffynonellau gwres i wneud y gorau o gysylltedd ond hefyd amrywiaeth rhywogaethau.

### **Llais y Goedwig**

#### **Cyflwyniad**

Mae Llais y Goedwig yn sefydliad rhwydweithio sydd ag 800 o aelodau ac yn gwmni nid-er-elw sy'n cynrychioli coetiroedd cymunedol. Mae'n gweithredu fel system glirio ar gyfer syniadau, ac fel marchnad ar gyfer yr holl goetiroedd cymunedol.

Ymgeisiodd Llais y Goedwig am ddau grant drwy Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, a chawsant gynnig y ddau. Nid oedd modd bwrw ymlaen ag un am resymau allanol. Roedd y llall yn fenter ar y cyd â Choed Cadw ac yn cael ei arwain gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Roedd y prosiect yn cynnwys datblygu canolfan feithrinfa goed ym meithrinfa goed bresennol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch a phrynu amrywiaeth eang o offer i'w dosbarthu i sefydlu neu ddatblygu meithrinfeydd coed bach cymunedol neu sy'n fentrau cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae 11 o feithrinfeydd yn cael eu cynorthwyo ag offer drwy'r prosiect. Bydd pob meithrinfa sy'n cael ei chynorthwyo yn cynhyrchu ffilm neu blogiad byr yn y 6-8 mis nesaf i arddangos yr hyn y maent wedi'i gyflawni gyda chymorth yr arian.

#### **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Ar hyn o bryd mae 11 o feithrinfeydd yn cael eu cynorthwyo'n ariannol drwy'r prosiect.

#### **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Mwy na thebyg na fyddai – roedd y cyllid yn hanfodol i allu cynorthwyo meithrinfeydd coed newydd gan gynnig mwy na hyfforddiant a chynghor er mwyn iddynt ddatblygu.

#### **Canlyniadau tebygol y prosiect**

Mae'r amcanion wedi'u cyflawni, ond mae'n gylch parhaus o gymorth i grwpiau coetir bach. Ei ddiben yw galluogi grwpiau bach i gael offer.



## **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Parhau ag amrywiaeth eang o gymorth sy'n hygyrch i bob maes yn y sector coedwigaeth – parhau i siarad gyda phobl a chymunedau a'u cynnwys mewn penderfyniadau gymaint â phosibl.

### ***Sustainable Forest Management***

#### **Cyflwyniad**

Mae Sustainable Forest Management yn seiliedig yng Ngheredigion. Mae SFM yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o wasanaethau ymgynghori, ac wedi gweithio gydag Ystad Nanteos ger Aberystwyth, ac ar yr ystad. Mae gan SFM brofiad sylweddol o gydweithio mewn partneriaeth neu drwy gonsortïwm. Darparodd SFM gyngor i'r Fenter Goedwigaeth ar reoli'r gwaith o drawsnewid cellïoedd Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith yng Ngheredigion ac ar Ystad yr Hafod.

#### **Dylunio / Datblygu'r Prosiect**

Cysylltodd Llywodraeth Cymru ag SFM yn uniongyrchol i gyflwyno cynnig. Roedd y prosiect yn seiliedig ar brynu offer paratoi safle. Y bwriad oedd adeiladu capasiti i allu paratoi'r tir yn well a mwy effeithlon er mwyn hwyluso gwaith plannu newydd ar ffermydd. Mae'r peiriant wedi'i ddylunio i ffurfio twmpathau i blannu eginblanhigion coed arnynt ac, wrth wneud hynny, tarfu ar bridd cywasgedig gan ddefnyddio peiriannau fferm sy'n golygu bod y gwaith yn gywir a hawdd i'w reoli.

#### **Heriau a Rhwystrau**

Mae'r broses o geisio am grant yn ymddangos ychydig yn anodd i unigolion sydd heb brofiad o wneud. Mae gofyn bod yn eithriadol o fanwl gywir yn ystod y broses ac mae'n hawdd esgeuluso elfennau sy'n ofynnol. Mae angen glynu wrth derfynau amser llym ac weithiau bydd rhywun heb sylwi ar nodau atgoffa neu hysbysiadau gan arwain at fesurau unioni. Fodd bynnag, roedd tîm Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn y tu draw i 'sgrin' Objective Connect. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn anghyfarwydd â'r broses ac yn gorfod dysgu'r sgiliau wrth fynd.

#### **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Cychwynnodd Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn gyflym iawn gan ymateb ar unwaith i'r sefyllfa anodd a oedd yn wynebu llawer o fusnesau coedwigaeth ar ddechrau'r pandemig. Ysgogodd y Cynllun yr angen i feddwl ymlaen a chynllunio i ddatblygu'r busnes yn barhaus gan ganolbwyntio ar greu coetiroedd newydd. Darparodd y Cynllun gymorth cyfalaf hael i Sustainable Forest Management i brynu offer o'r radd flaenaf a ddyluniwyd i sefydlu coetir ar ffermydd.

## **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Y mae'n annhebygol y byddai SFM wedi ymrwymo i wariant cyfalaf sylweddol ar adeg o ansicrwydd o'r fath. Efallai na fyddai'r prosiect wedi digwydd neu byddai oedi difrifol.

### **Gwersi a ddysgwyd o'r gweithredu a'r cyflawni**

Mae angen yr offer cywir i wneud y gwaith ar raddfa ehangach cyn i'r galw godi. Mae offer sydd wedi'i adeiladu at y diben yn sicrhau gwell ansawdd wrth gyflawni'r gwaith, lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol a gwella agweddau iechyd a diogelwch y gwaith.

### **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Rhaid i Gymru reoli ei choetiroedd presennol mewn ffyrdd gwell, gan leihau'r arfer o gwmpo coed yn glir ac ailblannu a symud tuag at fwy o arfer o reoli'r gorchudd coed yn barhaus. Bydd plannu coed newydd yn cynorthwyo'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru i fod yn fwy integredig drwy gyfuno cynhyrchu pren â manteision lluosog ar ffermydd, gan wella dŵr, bioamrywiaeth a'r amgylchedd tra'n cynhyrchu pren at eu defnydd eu hunain ac i greu gwerth ychwanegol mewn melinau lleol. Bydd mwy o goetiroedd yn gwneud Cymru yn fwy cynaliadwy ac yn well lle i fyw tra'n cyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd.

## **Coedwig Fechan Cinmel**

### **Dylunio / Datblygu'r Prosiect**

Dyfarniad gan Cadwch Gymru'n Daclus oedd y prosiect, a ddyluniwyd ac a gyflawnwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus gan ddilyn eu manyleb a'u proses hwy. Canlyniadau allweddol pwysig, a'r cyfan yng nghyd-destun pandemig gyda phrosiect y ceisiwyd amdano ar ddechrau 2020 ac a weithredwyd o fis Rhagfyr 2020 i haf 2021 gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau symud yn eu lle yn achlysurol.

Canfuwyd y cyfle i greu Coedwig Fechan gan Swyddog Cynllunio Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gyfathrebodd â'r cynghorydd cymuned Barry Griffiths. Bu yntau'n cydgysylltu i raddau wedyn â Chyngor Tref Towyn a Bae Cinmel i wneud cais am y dyfarniad gydag elusen leol Cymdeithas Gymunedol Bae Cinmel a'r Dref sy'n lesio'r cae oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gwnaeth Cadwch Gymru'n Daclus y dyfarniad a rheoli'r prosiect gan gynnwys gosod drwy is-gontract lleol, a chyflwyno cais cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r Goedwig Fechan gael ei gosod yn y cae sy'n cael ei lesio gan Gymdeithas Gymunedol Bae Cinmel a'r Dref.

Golygodd y cyfyngiadau symud nad oedd modd cynnwys y gymuned yn llawn, ond gwnaeth nifer fach o drigolion gynorthwyo i blannu 1,000 o goed mewn diwrnod, a'r cyfan fel sydd wedi'i ddisgrifio a'i gofnodi ar gyfrif tudalen we: <https://www.morfasport.com/tiny-forest/>

Yn bennaf oherwydd y pandemig, roedd y diddordeb yn y prosiect hwn a pha mor berthnasol oedd wedi cynyddu rhwng cyflwyno'r cais ar ddechrau 2020 a'r gwaith gosod yn

2021. Ar y cyd, mae Deddf yr Amgylchedd, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, Agenda Seilwaith Gwyrdd, teithio llesol, amddifadedd, ein hangen am fwy o fioamrywiaeth, mannau naturiol ar gyfer llesiant, y newid yn yr hinsawdd yn ogystal a lliniaru perygl o lifogydd, oll yn cyfeirio at angen brys i ddadwneud gwaddol datblygu dwys a cholli amgylchedd naturiol hygyrch, colli cynefinoedd a gorddatblygu lleol.

Felly, daw'r Goedwig Fechan yn rhannol fel galwad weledol i'n deffro, a hynny'n cynnwys y gymuned ac wedi'i lleoli ynddi. Yn y gymuned hon, mae llawer o fesurau seilwaith gwyrdd eisoes yn yr arfaeth gan gynnwys prosiect mawr "Parc Hanes" sydd bellach yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol Conwy. Mae'r Parc Hanes a phrosiectau seilwaith gwyrdd bach eraill wedi'u hystyried yn gamau pwysig yn sgil prosiect y Goedwig Fechan ac mae Parc Hanes wedi'i restru i'w weithredu yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn fwy nag ystyried prosiect y Goedwig Fechan, a phrosiectau seilwaith gwyrdd eraill sy'n cyd-redeg ag ef, yn fentrau amgylcheddol pwysig ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd, mynd i'r afael â pherygl o lifogydd a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, mae'r prosiectau'n elfennau hanfodol mewn cymunedau bywiog, iechyd a lles i bobl o bob oed a gallu, ac felly'n cysylltu'r arfer o gynllunio lle drwy deithio llesol.

Ar yr un pryd, mae elfen addysgol i'r prosiect drwy gynnwys ysgolion lleol, gyda'r Goedwig Fechan yn cynnwys ardal ddosbarth awyr agored ac yn dangos y berthynas rhwng ecoleg bywyd gwyllt a rhywogaethau planhigion; mae yno elfen chwaraeon gan fod y Goedwig Fechan wedi'i lleoli ar yr un cae â chae pêl-droed cymunedol; mae'n cynnwys pobl o bob oedran a gallu, gan gysylltu â chymunedau cyfagos drwy deithio llesol; ac mae cyfoeth yn elfen hyd yn oed, drwy wneud ein cymuned yn well lle i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae'r canlyniadau i'r dyfodol felly yn rhai tymor byr a thymor hir. Mae yma gyfle i adfywio yn benodol yn rhaglen bresennol y Parc Hanes, sy'n deillio o'r Goedwig Fechan a ddeffrodd y gymuned i'r angen am fannau naturiol hygyrch.

### **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Y prif agweddau llwyddiannus yw sut mae'r prosiect hwn wedi ysgogi ymrwymiad a diddordeb yn yr amgylchedd a phrosiectau eraill a ddaeth i raddau helaeth yn sgil y profiad o gyfyngiadau symud y pandemig.

Mae'r ffactorau llwyddiant fesul eitem yn cynnwys: y cysyniad a gwaith rheoli Cadwch Gymru'n Daclus; ymgysylltiad uniongyrchol â'r gymuned; cyfleoedd i ehangu'r prosiect yn y tymor byr a hir. Mae'r prosiect yn pwysleisio bod angen cynhwysiant a mynediad, ac mae'n cydweddu â mentrau teithio llesol a chynllunio lle sy'n cael eu hystyried a'u cynllunio'n lleol.

### **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Fel arfer, rwy'n credu y byddem yn parhau i dincro â phlannu ar y stryd heb i brosiect arddangos y Goedwig Genedlaethol ehangu ein gorwelion a'n hymwybyddiaeth o'r hyn y

gellid ei wneud ac sy'n rhaid ei wneud i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn seilwaith gwyrdd a ddatblygodd dros genedlaethau.

### **Gwersi a ddysgwyd o'r gweithredu a'r cyflawni**

Rydym yn fwy ymwybodol o lawer o'r elfennau pwysig megis rhywogaethau, cynefinoedd, cyflwr y tir ac ati, ond mae'r arbenigwyr yn Cadwch Gymru'n Daclus, Llais y Goedwig, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy cyn cynnig y wybodaeth hanfodol hon. Ar hyn o bryd, nid ydwyf yn meddwl ein bod wedi gwneud unrhyw gamgymeriadau. Nid oes achos o – y tro nesaf mi fyddem yn... O safbwynt cymunedol, buom yn ffodus i raddau o fod â lleoliad ar lwybr teithio llesol, oddi mewn i'r gymuned breswyl, gan gymysgu chwaraeon a'r amgylchedd, sy'n hygyrch i bawb ac sy'n fodel i brosiectau'r dyfodol ac mae rhai ohonynt wedi'u nodi'n glir.

### **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Ystyried lleoliad hygyrch, ym mhob tywydd; elusen i ymgymryd â'r prosiect sydd â mynediad i wirfoddolwyr a grantiau yn y tymor byr a'r tymor hir; trawsbynciol a chynhwysol. Darparu ar gyfer oedolion gan gynnwys pobl anabl, teuluoedd o ymwelwyr (gyda chŵn).

### ***Gwaith ar goed, draeniau a garddwriaeth i wella Sgwâr Victoria***

#### **Dylunio / Datblygu'r Prosiect**

Cynhaliom arolygon sylfaenol o'r coed a'r ecoleg yn Sgwâr Victoria, wedi'u hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Gan ddefnyddio argymhellion o'r arolygon hyn, lluniodd pwyllgor rheoli Cyfeillion Sgwâr Victoria 'restr ddymuniadau' o gynigion. Trafodwyd y rhestr hon o gynigion gyda'r ecolegydd a gynhaliodd yr arolwg sylfaenol gwreiddiol. Yn sgil trafodaethau gyda'r ecolegydd, cyflwynwyd rhestr derfynol o gynigion mewn cyfarfod cyhoeddus agored. Roedd 55 o bobl yn bresennol yn y cyfarfod, a gofynnwyd iddynt roi eu barn ar bob un o'r cynigion a oedd wedi'u harddangos ar ffurf darluniau yn y lleoliad.

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus agored, comisiynwyd pensaer tirlunio i ddatblygu cynllun i gynnwys yr holl gynigion ar ôl ystyried canlyniad y cyfarfod cyffredinol cyhoeddus. Defnyddiwyd y cynlluniau hyn i geisio am gyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Lle'r oedd yn briodol, comisiynwyd contractwyr i gyflawni'r elfennau hynny o'r prosiect a oedd yn galw am sgiliau proffesiynol a'r defnydd o offer arbenigol. Goruchwyliwyd y gwaith o gyflawni'r elfennau hyn gan y pwyllgor rheoli.

Mae llawer o'r gwaith o gyflawni'r prosiect wedi'i wneud gan wirfoddolwyr, a bydd yn parhau i gael ei wneud ganddynt. Hyd yma, cyfanswm yr oriau o wirfoddoli yw 250 a disgwyliwn i'r rhif hwn gyrraedd tua 400.

Y canlyniadau arfaethedig allweddol oedd:

- Cynyddu'r aelodaeth i 100 erbyn diwedd y prosiect
- Gwella strwythur rheoli'r grŵp
- Datblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol yn yr ardal

- Datblygu cysylltiadau ag ysgolion lleol
- Cynnig yr ardd gymunedol i ysgolion, grwpiau lleol a chartrefi gofal
- Cynnig yr ardd gymunedol yn adnodd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol
- Plannu o leiaf 10 o goed newydd

Hyd yma (Mehefin 2021) mae'r prosiect wedi cyflawni'r canlynol:

- Cynyddwyd yr aelodaeth i 90 – dyddiad cwblhau'r prosiect yw mis Mawrth 2022
- Cynyddwyd maint y pwyllgor rheoli o 4
- Datblygwyd cysylltiadau â 5 o grwpiau garddwriaethol lleol
- Mae COVID-19 wedi rhwystro'r prosiect rhag datblygu cysylltiadau ag ysgolion, ond caiff y rhain eu datblygu wrth i'r cyfyngiadau lacio
- Mae'r ardd gymunedol newydd ei chwblhau a chaiff ei chynnig ar adeg briodol at ddefnydd grwpiau ac ysgolion lleol
- Plannwyd 11 o goed newydd

Y canlyniadau disgwyledig yw gwella bioamrywiaeth ac ecoleg yr ardal a rhoi lle i natur ffynnu ac i bobl leol ac ymwelwyr fwynhau'r gofod fel lle hamdden a lle i fwynhau natur.

Mae'r gwelliannau hyn wedi'u cyflawni a byddant yn cael eu cyflawni drwy weithredu: cynllun strwythuredig ar gyfer cynnal a chadw coed, gwella system ddraenio'r Sgwâr gan ddefnyddio dulliau sy'n dda i'r amgylchedd, creu gardd gors, ardaloedd o flodau gwyllt a threfniadau torri gwair amrywiol, gosod blychau adar ac ystlumod, a thuag at ddiwedd y prosiect gosod camerâu bywyd gwyllt gyda chysylltiadau i'n gwefan.

## **Heriau a Rhwystrau**

Y brif her wrth weithredu'r prosiect oedd yr amryw gyfyngiadau symud oherwydd y pandemig. Yn ffodus i ni, roedd modd i brif elfen y prosiect a oedd wedi'i chontractio, yn ymwneud â choedyddwyr, fynd yn ei blaen heb lawer o oedi.

Fodd bynnag, roedd yn rhaid i ni aros hyd nes bod yr amodau'n caniatáu i ni ddefnyddio nifer gyfyngedig o wirfoddolwyr yn ddiogel. Gwnaethom hyn mewn ymgynghoriad â Chyngor yr Awdurdod Lleol a Sefydliad Gwasanaethau Gwirfoddol anlywodraethol.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio, bu modd i ni ddefnyddio grwpiau mwy o wirfoddolwyr. Wrth i'r prosiect gael ei gyflwyno fesul cam, mae wedi dod yn fwy gweladwy ac yn anochel mae'r diddordeb yn y prosiect a nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu. Mae hyn bron â'n galluogi ni i ddal i fyny â'r amserlen weithredu wreiddiol.

Roeddem wedi bwriadu gosod system ddraenio gan ddefnyddio contractwyr arbenigol ar ddechrau'r prosiect. Fodd bynnag, gan nad oedd modd i'r arbenigwyr yma ddarparu llety diogel i'w timau, sy'n gweithio ledled y Deyrnas Unedig, ni fydd modd iddynt gynnig y gwasanaeth hwn tan yr hydref.

## **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Wrth i'r prosiect ddod yn fwy gweledol, ac wrth fynd ati'n fwriadol i ddenu cyhoeddusrwydd lleol, un o'r prif lwyddiannau fu cynyddu nifer yr aelodaeth a'r bobl sy'n barod i wirfoddoli.

Mae'r diddordeb hwn ymysg y cyhoedd hefyd wedi galluogi i'r prosiect recriwtio aelodau newydd i'n pwyllgor rheoli, a fu'n destun pryder i ni hyd at y cam hwn.

### **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Hyd y gwn i, mae prosiect arddangos y Goedwig Genedlaethol yn brosiect wedi'i ariannu ar y cyd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Heb y cyllid, ni fyddai'r prosiect wedi'i gynnal a byddai man agored Sgwâr Fictoria yn parhau i fod heb waith cynnal a chadw sylweddol ac ni fyddai wedi elwa o well ecoleg a bioamrywiaeth.

### **Gwersi a ddysgwyd o'r gweithredu a'r cyflawni**

Fel rheolwr prosiect profiadol yn y byd masnachol, nododd arweinydd y prosiect fod modd i lawer o'r disgyblaethau y mae ganddynt brofiad ohonynt gael eu trosglwyddo'n hawdd i'r sector gwirfoddol, gyda rhai gwahaniaethau sylweddol yn y defnydd o lafur gwirfoddolwyr.

Rydym wedi dysgu bod angen i chi ganfod pa brofiad personol ac adnoddau sydd gan bob un o'ch gwirfoddolwyr a sut mae modd defnyddio'r rhain yn y ffordd fwyaf effeithiol wrth gyflawni'r prosiect.

Mae caniatáu i wirfoddolwyr berchnogi a rheoli elfennau o'r prosiect wedi bod yn rymusol i'r unigolion hynny, ac wedi gwella eu profiad o'r prosiect yn gyffredinol.

### **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Pan fyddwch yn cael gwybod eich bod am dderbyn cyllid, rhowch gyhoeddusrwydd i hynny cyn gynted â phosibl drwy gymaint o gyfryngau ag y gallwch. Gwnewch yn siŵr bod gennych dudalen Facebook yn ystod y broses ymgeisio fel y gallwch ddechrau ennyn diddordeb. Yn eich cais, neilltuwch arian i greu gwefan er mwyn denu mwy o gyhoeddusrwydd.

Unwaith y byddwch wedi derbyn yr arian – DECHREUWCH AR UNWAITH – CREWCH FOMENTWM. Efallai y bydd gennych bobl ar eich pwyllgor rheoli a fydd yn annog bod yn ofalus ac y dylid ymdrin â'r prosiect mewn ffordd ofalus a phriodol, a gwneud yn siŵr bod pawb yn barod!

Doeddwn i byth yn gwbl siŵr sut oedd penderfynu a oeddem yn 'barod', ac o'm rhan i, a diolch byth ym marn mwyafrif ohonom yn y pen draw, y ffordd i gael pobl yn barod yw drwy greu momentwm a thrwy gychwyn arni.

Os ydych yn llwyddiannus yn eich cais, byddai gofyn i chi fod wedi llunio amserlen weithredu, sy'n cael ei galw'n 'fap ffordd' y dyddiau yma, felly fe ddylech fod yn barod.

Os oes gennych amserlen gymharol hir i gwblhau eich prosiect, peidiwch ag oedi cyn cychwyn oherwydd hyn. Mae'n llawer gwell bod ag amser dros ben ar y diwedd, efallai i ailedrych ac ailweithio ar rannau o'r prosiect nad ydych yn gwbl hapus â nhw.

Ond, a dyma lle byddwn yn annog rhywfaint o ofal, byddwch yn barod i fonitro'r cynnydd, adolygu a diwygio yn ôl yr angen.

Dylech gyfarfod yn rheolaidd â'r pwyllgor rheoli, aelodau, a'r cyhoedd. Lluniwch gylchlythrau rheolaidd a byr ond llawn gwybodaeth, ac ewch ati i gyfathrebu, cyfathrebu, cyfathrebu.

## **Coedwig Fechan Pencoedtre**

### **Dylunio / Datblygu'r Prosiect**

I gychwyn, cysylltodd swyddogion Cadwch Gymru'n Daclus â ni i weld a oedd yr awdurdod yn agored i'r syniad o fod yn un o'r pum Coedwig Fechan beilot, ac a allem feddwl am unrhyw safleoedd a allai fod yn addas yn ardal ein hawdurdod.

Roeddem eisoes yn edrych am ffyrdd o greu mwy o fioamrywiaeth mewn sawl man agored / parc yn y Barri, gan dargedu plannu mwy o goed yn arbennig. Roedd Parc Pencoedtre eisoes wedi'i nodi fel safle a oedd heb lawer o orchudd coed. Nodwyd hynny mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan aelodau o grŵp amgylcheddol lleol – Gweithredu dros Natur y Barri. Roedd y grŵp trigolion lleol – Bwrdd Trigolion Gibbonsdown – hefyd wedi mynegi dymuniad i weld coed yn cael eu plannu a gwelliannau amgylcheddol eraill yn yr ardal hon, yn ogystal â'r aelodau lleol.

Canfuwyd ardal addas ar y safle mawr hwn yn dilyn trafodaeth gyda'r bwrdd trigolion, ein peirianwyr (ynghlŷn â gwasanaethau, mynediad, draenio, llifogydd ac ati) a swyddogion y parciau. Aeth contractwr lleol sydd â phrofiad helaeth o waith paratoi'r tir a thirlunio i'r afael â pharatoi'r safle o dan gyfarwyddyd swyddogion arweiniol Cadwch Gymru'n Daclus a chynghor gan y swyddog parciau. Gwnaeth Cadwch Gymru'n Daclus wedyn drefnu ac ymgymryd â'r gwaith o blannu'r coed a gosod tomwellt gyda gwirfoddolwyr lleol. Gwnaed hyn yn eithriadol o effeithlon a diogel hyd yn oed o dan y rheolau COVID-19 cymharol lym oedd yn eu lle ar y pryd.

Roedd ymgysylltu â'r gymuned yn anodd ar y pryd oherwydd sefyllfa COVID-19, ond er hynny, roedd diddordeb ac ymgysylltiad y gymuned yn ddymunol o uchel. Gallem fod wedi treblu nifer ein gwirfoddolwyr ar y diwrnod plannu. Cysylltodd ysgolion a grwpiau ieuenctid lleol â ni i weld sut i ymweld ac ymwneud â'r prosiect.

Cawsom lawer o ddiddordeb gan aelodau'r gymuned ynghlŷn â'r posibilrwydd o greu coedwigoedd bychain ychwanegol mewn rhannau eraill o'r Fro. Amser sydd ei angen i ddod o hyd i safleoedd addas.

Rydym yn obeithiol iawn y bydd llawer iawn o ymgysylltiad a diddordeb parhaus yn y goedwig wrth iddi dyfu.

### **Heriau neu rwystrau**

Yn anffodus, cawsom ein taro ag ergyd a gafodd lawer o sylw, pan wnaeth gang bychan o bobl ifanc gynnu tân ac achosi i 75% o'r gwaith plannu cychwynnol gael ei golli. Er hyn, neu'n wir oherwydd hyn, cawsom ein plesio gan ymateb y gymuned a ddaeth ynghyd i gefnogi'r prosiect drwy gynnig cymorth, coed a rhoddion hyd yn oed.

### **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Fe ddwedwn i [mai'r llwyddiant yw] cyffro'r gymuned leol a'i chefnogaeth i'r prosiect. Mae Pencoedtre mewn ardal ddifreintiedig iawn a gweddol heriol o'r Barri. Fel arfer mae'n anodd ymgysylltu â'r gymuned yn yr ardaloedd yma weithiau ond mae wir yn ymddangos bod y Goedwig Fechan wedi llenwi bwlch yn yr ardal ac roedd pobl wrth eu bodd o glywed bod eu parc am fod ag un o'r safleoedd cyntaf yng Nghymru.

### **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Rydym wedi gallu dangos bod y gymuned wir eisiau gweld mwy o orchudd coed a pharc sy'n fwy bioamrywiol a chyfeillgar i natur – yn hytrach na'r erwau presennol o "goncrit gwyrdd" y gwair sydd wedi'i dorri'n fyr. Mae'r grŵp eisoes wedi rhoddi £1000 o'u cyllid i blannu mwy o goed yr hydref yma, ac mae aelodau lleol wedi nodi swm sylweddol o gyllid S106 i wella mannau agored gan gynnwys mwy o goed ac ardal weirglodd.

### **Gwersi a ddysgwyd o'r gweithredu a'r cyflawni**

Mae ymgysylltu yn fater allweddol; mae gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol a swyddogion/aelodau lleol o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol. Fe allan nhw helpu i ledaenu'r neges ar lawr gwlad a bod yn ymwybodol iawn o'r teimladau yn lleol er mwyn helpu i lywio'r ffordd mae eich prosiect yn datblygu ac yn ymgysylltu ymhellach â chymunedau lleol.

### **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Rwy'n credu y byddai'n wych bod popeth yn ei le i ganiatáu i chi ddechrau ym mis Medi, gydag amserlen ar gyfer plannu ym mis Hydref. Osgoi'r gwaethaf o'r tywydd gwlyb a rhoi dechrau da i'r coed fyddai fy unig sylw pellach.

### **#COED Rhyd-y-Penau a Gwern-y-Bendy**

#### **Dylunio / Datblygu'r Prosiect**

Mae'r coetiroedd yn rhan o waith ehangach i ddatblygu'r safle, yn gysylltiedig â Chronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien. Roedd Dŵr Cymru'n awyddus i adfywio ardaloedd o goetir a oedd wedi'u hesgeuluso yn gysylltiedig â safle Cronfeydd Dŵr Llysfaen a Llanisien ond roeddent eisiau gwneud hynny â chefnogaeth y gymuned a thrwy grŵp Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd a oedd newydd ei sefydlu. Roedd dyluniad y prosiect yn canolbwyntio ar sut i gyflawni camau gweithredu tymor byr, tra'n sicrhau ymagwedd hirdymor a'r angen am gynllun Rheoli Coetiroedd i gasglu gwybodaeth a llywio'r canlynol:

- Cyflwr sylfaenol yr ardal goetir a bygythiadau uniongyrchol iddi, megis rhywogaethau goresgynnol.
- Camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir i adfer y coetir a gwella bioamrywiaeth.
- Deall sut gall y coetir gael ei ddefnyddio i hybu ymgysylltiad cymunedol at ddiben dysgu/addysg, hyfforddi gwirfoddolwyr a gwaith rheoli parhaus, a mynediad i'r cyhoedd yn y dyfodol – yn ogystal â diogelu nodweddion ecolegol drwy ddynodi parthau.



Rhan bwysig o ddatblygu'r prosiect a sut y caiff gweithgareddau eu cynnal yw gweithio mewn partneriaeth â grwpiau diddordeb arbenigol.

Mae'r prosiect wedi'i gydweddu â phrosiect newydd 065 Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW) i sicrhau bod yr hyn a gyflawnir a'r safle ehangach yn ategu ei gilydd. Roedd modd i Reolwr Partneriaeth ENRaW oruchwylio datblygiad y ddau brosiect, yn ogystal a chynorthwyo datblygiad Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd (drwy ENRaW), a fydd yn rhanddeiliaid allweddol mewn gweithgarwch gwirfoddoli i adfywio'r coetiroedd ac yn cynorthwyo i'w rheoli i'r dyfodol. Bydd Parcmyr tymhorol Dŵr Cymru yn cynorthwyo'r sesiynau gwirfoddoli, ac yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch ac amgylcheddol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod perthynas gynaliadwy yn cael ei sefydlu rhwng y grŵp gwirfoddoli a Dŵr Cymru. Caiff rhaglenni hyfforddi gwirfoddolwyr eu cynnal, a chaiff cyfarpar diogelu personol ei ddarparu ynghyd ag offer er mwyn i'r gwirfoddolwyr weithio'n ddiogel. Mae ffioedd proffesiynol hefyd wedi'u cynnwys yn y prosiect i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gynorthwyo â gweithgareddau penodol, fel adfer y pyllau pysgod hanesyddol, gwaith diogelu, a datblygu arwyddion a dehongli. Bydd hyn yn helpu i gyflawni camau gweithredu tymor byr a fydd yn cynnig manteision hirdymor i'r amcanion mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Rydym hefyd yn sefydlu perthynas â rhanddeiliaid i gefnogi'r amcanion a nodi cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol.

### **Ffactorau llwyddiant y prosiect**

Y ffactorau llwyddiant hyd yma fu'r lefel o gefnogaeth a ddangoswyd gan randdeiliaid sydd â diddordeb, y lefel o ddiddordeb ymysg y gymuned sy'n dymuno bod yn wirfoddolwyr a dysgu mwy am reoli cadwraeth, y rhaglen addysg a gweithio gyda phrifysgolion lleol.

### **Beth sydd wedi digwydd oherwydd Prosiect Arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?**

Mae'r rhaglen adfywio ar gyfer y coetiroedd wedi'i phrysuro – byddai'r gwaith hwn wedi'i wneud yn nes ymlaen a thros gyfnod hirach, a fyddai wedi arwain at rywogaethau goresgynnol yn lledaenu ymhellach. Mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu ymysg y gymuned o'r angen i ddiogelu coetiroedd lleol. Y rhaglen hyfforddiant i wirfoddolwyr – mae'r prosiect wedi galluogi i'r hyfforddiant ganolbwyntio ar y coetir a meithrin sgiliau'r gwirfoddolwyr er mwyn iddynt allu helpu i'r dyfodol.

### **Gwersi a ddysgwyd o'r gweithredu a'r cyflawni**

Mae sicrhau bod y prosiect yn cydweddu â grant Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW) wedi sicrhau y gall y rhaglen gael ei chyflawni, ac y gall cymorth gan sefydliadau y cydweithir â hwy gael ei reoli. Gan mai cyfalaf yw'r grant yn bennaf, mae angen i swyddi presennol fynd i'r afael ag agweddau gweinyddol y prosiect. Er bod Dŵr Cymru wedi gallu ymdopi â hyn, gallai fod yn heriol i sefydliadau llai.

### **Cyngor allweddol i reolwyr prosiect/polisi eraill Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol**

Cydweithwch – mae llawer o sgiliau a gwybodaeth yn y gymuned ac amrywiaeth eang o randdeiliaid a all gynorthwyo'r prosiectau hyn. Meddylwch yn y tymor hir; mae angen i lawer

o'r camau gweithredu sydd angen eu cyflawni yn ystod y cyfnod ariannu fod yn gynaliadwy er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor.

Dylai anghenion addysg a hyfforddiant gael eu hymgorffori yn y prosiect. Cofiwch goridorau bywyd gwyllt – nid yw natur yn cael ei gadw mewn ffiniau ac mae angen ystyried bioamrywiaeth yr ardal ehangach.

## Adran gyfeiriadau

Cafwyd mynediad i bob dolen y tro diwethaf ar 06/08/2021

Adweek (2021) 'Networking Is the Biggest Challenge Virtual Event Marketers Face in 2021'

Centre of People, Work, and Organisational Practice (2021) 'Respond, recover, reset: the voluntary sector and COVID-19', Nottingham.

Llafur Cymru (2021) 'Symud Cymru Ymlaen: Maniffesto Llafur Cymru', Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2016) 'Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Act 2016', Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2020) 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-2021' Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2021) 'Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026', Caerdydd.

Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (2018) 'Summary for Policymakers of IPCC Special Report on Global Warming of 1.5°C approved by governments' Cyhoeddiad ar-lein.

Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (2019) 'State of Nature Report', cyhoeddiad ar-lein.

White, M.P. et al., 'Spending at least 120 minutes a week in nature is associated with good health and well-being'. Scientific Reports. Mehefin 2019.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2020) 'Taking Part 2019/20 – Volunteering statistics', Llundain.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2021) 'A look at volunteering during the response to COVID-19', Llundain.

## Atodlen o Gwestiynau'r Gwerthusiad

### Canllaw Trafod Cyfweiliadau Cwmpasu

#### Cyflwyniad

1. I gyflwyno eich hun, gofynnwn i chi roi amlinelliad o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â datblygu a chyflawni prosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol **oddi mewn i'ch cynllun arddangos chi**.
2. Beth mae eich cynllun arddangos yn ceisio ei gyflawni? Beth mae'r cynllun arddangos yn galluogi i'ch sefydliad ei gyflawni?
3. Sut ydych chi'n ystyried mae eich cynllun arddangos yn cyfrannu tuag at y Goedwig Genedlaethol?
4. Yn eich barn chi, beth yw'r sail resymegol i sefydlu prosiectau arddangos? Pa mor eang mae rheolwyr prosiect a rhanddeiliaid yn deall a derbyn y sail resymegol hon?
5. Ym mha ffyrdd mae eich cynllun yn unigryw, a sut ydych chi'n meddwl mae'n integreiddio â'r cynlluniau eraill yn y rhaglen arddangos gyffredinol?

#### Dylunio

6. A oeddech chi neu eich sefydliad yn ymwneud â **dylunio** eich cynllun arddangos? Soniwch wrthym am eich rhan chi.
7. I ba raddau'r oedd sefydliadau partner eraill yn rhan o'r gwaith o'i ddylunio?
  - a. A oedd y graddau'r oedd partneriaid wedi'u cynnwys yn teimlo'n iawn (neu a oedd yn ormod / ddim yn ddigon?)
  - b. A oedd unrhyw sefydliadau/rhanddeiliaid na fu'n rhan o'r gwaith dylunio a ddylai / a allai fod?
8. A ystyriwyd opsiynau eraill, gwahanol, ar gyfer dylunio a chyflawni eich cynllun? Os felly, beth oedd eu natur? Allwch chi ddweud pam y cawsant eu gwrthod?

#### **Gweithredu** [*wrth hyn, rydym yn golygu sut aethoch ati i sefydlu'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni*]

9. Rhowch amlinelliad o'ch profiad o'r broses weithredu
  - a. Beth ydych chi'n meddwl oedd cryfderau penodol y broses weithredu?
  - b. Beth ydych chi'n meddwl oedd heriau penodol y broses weithredu?

## **Cyflawni**

### ***Byddwn yn trafod effeithiau pandemig COVID-19 yn y man; gofynnwn i chi drafod y dulliau gweithredu a oedd wedi'u cynllunio i gyhwyn, os gwelwch yn dda***

10. Soniwch wrthym am y model cyflawni ar gyfer eich cynllun.
11. Pa mor dda ydych chi'n meddwl mae eich cynllun wedi'i hyrwyddo?
  - a. A yw'r cynllun wedi'i anelu neu'i dargedu at y meysydd, unigolion a grwpiau priodol?
  - b. Yn eich barn chi, a fu'r cynllun yn denu a chynorthwyo'r 'math cywir o brosiectau' o ganlyniad i hyn?
12. Pa ddogfennau allweddol sy'n cael eu defnyddio wrth gyflawni eich cynllun? Allwch chi ddweud sut mae'r dogfennau hyn yn cael eu rhannu a'u defnyddio?
13. Gan fyfyrto ar y model cyflawni'r ydych newydd ei ddisgrifio, yn eich barn chi a oes unrhyw anawsterau neu wendidau'n gysylltiedig ag ef?
14. A oes gennych unrhyw farn ar y ffynonellau gwybodaeth gorau y gallai'r gwerthusiad eu defnyddio i asesu cyflawniadau'r cynllun yn erbyn yr amcanion craidd?

## **Rheoli a Llywodraethu**

15. Pa strwythurau rheoli sydd yn eu lle ar gyfer eich cynllun arddangos?
16. Sut mae data monitro yn cael ei gasglu ar gyfer eich cynllun?
  - a. Pa mor gynhwysfawr ydych chi'n ystyried yw'r wybodaeth fonitro (a oes unrhyw fylchau/meysydd lle mae data'n cael ei gasglu mewn ffordd anghyson)?
  - b. A yw casglu data monitro wedi achosi unrhyw heriau i chi?
  - c. A oes / a fu unrhyw heriau penodol yn gysylltiedig â chasglu data yn sgil GDPR?

## **Perfformiad**

### **Effeithiau COVID-19**

17. Gan feddwl am gyflawni eich cynllun yn ystod pandemig COVID-19, pa addasiadau wnaethoch chi i'ch model cyflawni (os oedd rhai) mewn ymateb i hynny?
  - a. Pa heriau, os oedd rhai, wnaethoch chi eu hwynebu wrth gyflawni ac addasu eich model cyflawni?
  - b. Pa mor effeithiol oedd y dull hwn er mwyn cynnal momentwm?

### **Perfformiad Cyffredinol**

18. Yn gyffredinol, sut ydych chi'n meddwl mae eich cynllun yn cyflawni yn erbyn amcanion/canlyniadau rhaglen drosfwaol y Goedwig Genedlaethol?
19. Pa fylchau (os oes rhai) sydd yn y model cyflawni a fabwysiadwyd ar gyfer eich cynllun?

20. Beth yw'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â model cyflawni eich cynllun a allai effeithio ar lwyddiant y prosiectau ynddo wrth gyflawni'r canlyniadau targed?
21. Beth yw'r prif wersi a ddysgoch hyd yma y gellid eu defnyddio wrth ddatblygu a chyflawni'r rhaglen yn y tymor hwy?
22. Sut mae eich cynllun yn ceisio sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy yr elfen o gyflawni'r rhaglen rydych chi'n ymwneud â hi?

### **Y Gwerthusiad**

23. A oes unrhyw gwestiynau, pobl, ffynonellau data neu randdeiliaid penodol y dylai'r gwerthusiad eu hystyried?

### **Cloi**

24. A oes unrhyw beth sydd heb ei drafod yn y cyfweiliad y credwch sy'n bwysig i ni ei ystyried ar y cam hwn o'r gwerthusiad?

## Canllaw Trafod Rheolwyr Prosiect

### Cyflwyniad

1. I gyflwyno eich hun, gofynnwn i chi roi amlinelliad o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â datblygu a chyflawni prosiect arddangos y Goedwig Genedlaethol.
2. Sut y gwnaethoch glywed am y rhaglen a'r cynllun ar gyfer eich prosiect chi?
3. Yn eich barn chi, beth yw'r sail resymegol i sefydlu prosiectau arddangos? Pa mor eang ydych chi a rhanddeiliaid eraill yn deall a derbyn y sail resymegol hon?
4. Beth mae eich prosiect arddangos yn ceisio ei gyflawni? Beth mae'r prosiect arddangos yn ceisio galluogi i'ch sefydliad chi a rhanddeiliaid eraill ei gyflawni?
5. Ym mha ffyrdd ydych chi'n ystyried mae eich prosiect yn cyfrannu tuag at rhaglen y Goedwig Genedlaethol?
6. Ym mha ffyrdd mae eich prosiect yn unigryw? Ydych chi'n meddwl bod y prosiect yn integreiddio'n dda gyda phrosiectau eraill yn y cynllun ac yn y rhaglen arddangos yn gyffredinol? Os ydyw, sut? Ac os nad ydyw, pam nad ydyw?

### Dylunio

7. Oeddech chi'n bersonol yn ymwneud â **dylunio** eich prosiect? Soniwch wrthym am eich rhan chi.
8. I ba raddau'r oedd sefydliadau partner eraill / y gymuned leol yn rhan o'r gwaith o'i ddylunio?
  - a. A oedd y graddau'r oedd partneriaid / y gymuned wedi'u cynnwys yn teimlo'n iawn (neu a oedd yn ormod / ddim yn ddigon?)
  - b. A oedd unrhyw sefydliadau / rhanddeiliaid / y gymuned heb eu cynnwys bryd hynny?
  - c. O edrych yn ôl, a oedd unrhyw sefydliadau / rhanddeiliaid / grwpiau cymunedol y dylid/gellid bod wedi'u cynnwys?
9. A ystyriwyd opsiynau eraill, gwahanol, ar gyfer dylunio a chyflawni eich prosiect? Os felly, beth oedd eu natur? Allwch chi ddweud pam y cawsant eu gwrthod? Pam y dewiswyd yr opsiwn llwyddiannus? Sut oedd yn wahanol i'r rhai a wrthodwyd?

### Gweithredu *[wrth hyn, rydym yn golygu'r berthynas weinyddol â chydgyssylltwyr y cynllun]*

10. Rhowch amlinelliad o'ch profiad o'r broses weithredu ac adrodd
  - a. Beth yw ei chryfderau penodol?
  - b. Beth yw ei heriau penodol?
  - c. Unrhyw awgrymiadau i'w newid?

## Cyflawni

***Byddwn yn trafod effeithiau pandemig COVID-19 yn y man; gofynnwn i chi drafod y dulliau gweithredu a oedd wedi'u cynllunio i gychwyn, os gwelwch yn dda***

11. Soniwch wrthym ni am y model cyflawni ar gyfer eich prosiect. Ystyriwch:
  - Sut y cafodd y prosiect ei gynllunio
  - Pwy oedd wedi'u cynnwys
  - Sut y cafodd ei hyrwyddo
  - Logisteg
  - Ymgysylltiad â rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys y gymuned leol) a gwirfoddolwyr, ac ystyriaethau amrywiaeth a chynwysoldeb
  - Ystyriaethau cyllidebol
12. Yn eich barn chi, **pa mor dda** mae'r cynllun a'ch prosiect chi wedi'u hyrwyddo?
13. Gan fyfyrir ar y model cyflawni'r ydych newydd ei ddisgrifio, yn eich barn chi a oes unrhyw anawsterau neu wendidau'n gysylltiedig ag ef?

## Rheoli a Llywodraethu

14. Pa strwythurau rheoli sydd yn eu lle ar gyfer cyflawni eich prosiect arddangos? Oddi mewn i'ch sefydliad chi a hefyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill?
15. Sut mae data monitro yn cael ei gasglu ar gyfer eich prosiect arddangos?
  - a. Pa mor gynhwysfawr ydych chi'n ystyried yw'r wybodaeth fonitro (a oes unrhyw fylchau/meysydd lle mae data'n cael ei gasglu mewn ffordd anghyson)?
  - b. A yw casglu data monitro wedi achosi unrhyw heriau i chi?
  - c. Ydych chi'n defnyddio'r data monitro eich hun yn y sefydliad?

## **Perfformiad**

### Effeithiau COVID-19

16. Gan feddwl am gyflawni eich prosiect yn ystod pandemig COVID-19, pa addasiadau wnaethoch chi i'ch model cyflawni (os oedd rhai) mewn ymateb i hynny?
  - a. Pa heriau, os oedd rhai, wnaethoch chi eu hwynebu wrth gyflawni ac addasu eich model cyflawni?
  - b. Pa mor effeithiol oedd y dull hwn er mwyn cynnal momentwm?
  - c. A wnaeth y pandemig gynnig unrhyw fanteision mewn perthynas â'ch model cyflawni?



### **Perfformiad Cyffredinol**

17. Yn gyffredinol, sut ydych chi'n meddwl mae eich prosiect yn cyflawni yn erbyn ei amcanion/canlyniadau?
18. Beth yw manteision allweddol model cyflawni eich prosiect? A beth yw'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â model cyflawni eich prosiect a allai effeithio ar ei lwyddiant o ran cyflawni'r canlyniadau targed?
19. Beth yw'r prif wersi a ddysgoch hyd yma? [Holi am Ffactorau Llwyddiant a Heriau]
20. Sut mae eich prosiect yn ceisio sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy yr elfen o gyflawni'r rhaglen rydych chi'n ymwneud â hi?

### **Cynnwys y Gymuned**

21. Gan feddwl am gynnwys y gymuned yn eich prosiect, beth sydd wedi gweithio'n benodol o dda? A beth sydd heb weithio cystal neu beth oedd yn heriol?
22. A oes unrhyw beth y byddech yn ei wella ynglŷn â'r ffordd rydych wedi cynnwys y gymuned leol yn eich prosiect?

### **Cloi:**

23. A oes unrhyw beth sydd heb ei drafod yn y cyfweiliad y credwch sy'n bwysig i ni ei ystyried ynglŷn â'ch prosiect?

## **Canllaw Trafod Rhanddeiliaid**

### **Cyflwyniad**

1. I gyflwyno eich hun, ym mha ffordd ydych chi wedi ymwneud â phrosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol neu raglen y Goedwig Genedlaethol? [Holi ai datblygu a/neu gyflawni]
2. Yn eich barn chi, beth yw'r sail resymegol i sefydlu:
  - a. Y Goedwig Genedlaethol
  - b. Prosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol?
3. Pa mor eang ydych chi'n meddwl mae eich cydweithwyr yn deall y sail resymegol?
4. Beth ddywedech chi yw eich lefel o ymwybyddiaeth o:
  - a. Raglen y Goedwig Genedlaethol
  - b. Y prosiectau arddangos
5. Sut gallai eich lefel o ymwybyddiaeth gael ei gwella?

### **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

6. I ba raddau'r ydych yn meddwl bod yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid ynghylch rhaglen / prosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol wedi bod yn effeithiol?
  - a. Allwch chi esbonio pam eich bod yn dweud hynny?
7. A fu unrhyw nodweddion cadarnhaol o'r gwaith ymgysylltu â'r rhanddeiliaid a wnaed hyd yma, ac a allwch chi ddarparu rhywfaint o fanylion amdanynt?
8. I ba raddau'r ydych yn meddwl bod eich barn ar raglen / prosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol wedi'u hystyried?
9. A oes unrhyw feysydd lle gallai'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid gael ei wella o gwbl?

### **Cynnwys cymunedau amrywiol**

10. I ba raddau'r ydych yn meddwl y mae'r prosiectau arddangos wedi gallu ymgysylltu â / cynnwys cymunedau amrywiol?
  - a. Allwch chi esbonio pam eich bod yn dweud hynny?
11. A fu unrhyw nodweddion cadarnhaol o'r gwaith ymgysylltu â chymunedau amrywiol a wnaed hyd yma, ac a allwch chi ddarparu rhywfaint o fanylion amdanynt?
12. A oes unrhyw feysydd lle y gallai'r ymgysylltiad â chymunedau amrywiol gael ei wella o gwbl?
13. A oes unrhyw grwpiau cymunedol y gallai gwaith y prosiectau arddangos fod wedi methu â'u cynnwys hyd yma?

### **Effeithiolrwydd cyllido a chyflawni**

14. Ydych chi wedi bod yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar gyllido a/neu gyflawni rhaglen / prosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol? **Os nad ydych, ewch ymlaen i C18.**
15. I ba raddau'r ydych yn meddwl bod y prosiectau arddangos wedi cyflawni nodau ac amcanion rhaglen y Goedwig Genedlaethol:
- a. Yn y dulliau cyllido a ddefnyddiwyd ar eu cyfer?
    - i. Unrhyw fanteision i'r dulliau hyn?
    - ii. Unrhyw anfanteision i'r dulliau hyn?
  - b. Yn y dulliau cyflawni a ddefnyddiwyd ganddynt?
    - i. Unrhyw fanteision i'r dulliau hyn?
    - ii. Unrhyw anfanteision i'r dulliau hyn?
16. A fu unrhyw nodweddion cadarnhaol o gyllido prosiect arddangos, a'u cyflawniad, a wnaed hyd yma yr hoffech ddwyn i'n sylw?
17. A oes unrhyw feysydd lle gallai cyllido prosiect arddangos, a'u cyflawniad, gael eu gwella o gwbl?

### **Chwarae rhan yn y dyfodol**

18. Os nad ydych chi wedi ymwneud â rhaglen / prosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol yn flaenorol, a fydddech eisiau chwarae rhan yn y dyfodol?
- a. Os bydddech, beth fyddai'r ffordd orau i hynny gael ei hwyluso i chi / eich sefydliad?
  - b. Os na fydddech, a oes unrhyw reswm penodol pam na fydddech eisiau chwarae rhan?
19. Os ydych chi wedi ymwneud â rhaglen / prosiectau arddangos y Goedwig Genedlaethol yn flaenorol, a fydddech eisiau parhau i chwarae rhan?
- a. Os bydddech, beth fyddai'r ffordd orau i hynny gael ei hwyluso i chi / eich sefydliad?
  - b. Os na fydddech, a oes unrhyw reswm penodol pam na fydddech eich chwarae rhan?
20. A oes unrhyw unigolion/sefydliadau eraill a allai chwarae rhan yn rhaglen y Goedwig Genedlaethol?

### **Cloi:**

21. A oes unrhyw beth sydd heb ei drafod yn y cyfweiliad y credwch sy'n bwysig i ni ei ystyried ar gyfer y gwerthusiad? (Er enghraifft, effaith COVID-19 ar ddatblygu/cyflawni'r prosiect)

## **Canllaw Trafod Astudiaethau Achos**

### **Enw'r ymatebydd/ymatebwyr:**

### **Enw'r prosiect:**

#### **Dylunio / Datblygu'r Prosiect**

1. Allwch chi sôn rhywfaint wrthyf i am y canlynol:
  - a) Sut aethpwyd ati i ddylunio / datblygu'r prosiect hwn?
  - b) Sut y cafodd y prosiect ei weithredu/cyflawni?
  - c) Beth fu'r canlyniadau allweddol (er enghraifft, sefydlu strwythurau rheoli, prosesau'r prosiect, datblygu mesurau i gynnwys y gymuned ac unrhyw allbynnau targed – plannu coed ac ati) hyd yma?
  - d) Beth yw canlyniadau disgwyledig eich prosiect i'r dyfodol?
24. Allwch chi sôn wrthyf i am unrhyw heriau neu rwystrau a sut y cawsant eu goresgyn?
25. Beth fu'r ffactorau llwyddiant penodol yn eich prosiect hyd yma?
26. Beth sydd wedi digwydd oherwydd prosiect arddangos y Goedwig Genedlaethol y mae'n bosibl na fyddai wedi digwydd beth bynnag?
27. Pa wersi ydych chi'n meddwl ydych chi / eich sefydliad wedi'u dysgu hyd yma o weithredu a chyflawni eich prosiect?
28. Beth fyddai eich darnau allweddol o gyngor i reolwyr polisi / prosiectau arddangos eraill y Goedwig Genedlaethol?

### **Cloi:**

A oes unrhyw beth sydd heb ei drafod yn y cyfweiliad y credwch sy'n bwysig i ni ei ystyried yn ein hastudiaeth achos?

### **Caniatâd:**

Ydych chi'n dymuno i'r astudiaeth achos hon fod yn anhysbys? Ydw / Nac ydw

29. A fyddech yn hapus i ddyfyniadau gael eu defnyddio o bethau'r ydych wedi eu dweud wrthym heddiw? Byddwn / Ni fyddwn

## **Arolwg Ar-lein Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth**

Mae gennym ddiddordeb yn eich profiadau o Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth. Nod yr arolwg byr hwn yw casglu eich barn ar sut mae'r cynllun wedi gweithio i chi a'ch sefydliad hyd yma.

Pa fath o sefydliad ydych chi (Ticiwch fel sy'n briodol)

- Cyhoeddus (1)
- Preifat (2)
- Trydydd Sector (3)
- Elusen (4)
- Cwmni Buddiannau Cymunedol (5)
- Unig Fasnachwr (6)
- Partneriaeth (7)
- Arall (8)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os Pa fath o sefydliad ydych chi? (Ticiwch fel sy'n briodol) = Arall*

1A) Dywedwch pa fath o sefydliad ydych chi:

---

---

1. Tua faint o gyflogeion mae eich sefydliad yn eu cyflogi?

- 1 i 5 (1)
- 6 i 10 (2)
- 11 i 20 (3)
- 21 i 50 (4)
- 51 i 100 (5)
- 101+ (6)

2. Pa fath o weithgareddau'r ydych chi'n eu gwneud? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Meithrinfa goed / cynhyrchu eginblanhigion (1)
- Coedyddiaeth (2)
- Plannu (3)
- Cynaeafu (4)
- Gwerthu cynnyrch e.e. coed tân, siarcol, pren (5)
- Cynnal a chadw tir (6)
- Arall (7)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os Pa fath o weithgareddau'r ydych chi'n eu gwneud? Ticiwch bob un sy'n berthnasol. =  
Arall*

3A) Dywedwch pa weithgareddau'r ydych chi'n eu gwneud

---

---

3. Ym mha awdurdod lleol ydych chi wedi eich lleoli? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Cymru Gyfan (23)
- Blaenau Gwent (1)
- Pen-y-bont ar Ogwr (2)
- Caerffili (3)
- Caerdydd (4)
- Sir Gaerfyrddin (5)
- Ceredigion (6)
- Abertawe (7)
- Conwy (8)
- Sir Ddinbych (9)
- Sir y Fflint (10)
- Gwynedd (11)
- Ynys Môn (12)
- Merthyr Tudful (13)
- Sir Fynwy (14)
- Castell-nedd Port Talbot (15)
- Casnewydd (16)
- Sir Benfro (17)

- Powys (18)
- Rhondda Cynon Taf (19)
- Torfaen (20)
- Bro Morgannwg (21)
- Wrecsam (22)

4. A ydych wedi gweithio, neu a ydych yn gweithio gydag unrhyw rai o'r canlynol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Sefydliadau anllywodraethol e.e. Coed Cadw, RSPB, Llais y Coedwig, Cadwch Gymru'n Daclus (1)
  - Pobl sydd â heriau symudedd / golwg (2)
  - Pobl sydd ag anabledd dysgu / ymddygiad (3)
  - Pobl sydd â heriau emosiynol (4)
  - Ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol / economaidd (5)
  - Grwpiau ieuenctid / ysgolion (6)
  - Pobl mewn rhaglenni adfer ar gyfer cyffuriau neu alcohol (7)
  - Pobl mewn rhaglenni cymorth i droseddwyr sy'n cael eu rhyddhau (8)
  - Pobl sy'n gwneud gwasanaeth cymunedol (9)
  - Grwpiau LGBT+ (10)
  - Grwpiau ffydd (11)
  - Grwpiau ethnig / diddordebau diwylliannol (12)
  - Grwpiau menywod (13)
  - Grwpiau dinasyddion hŷn (14)
  - Unrhyw sefydliadau neu grwpiau eraill (noder beth) (15)
- 

5. Sut y gwnaethoch glywed am Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Ar lafar (1)
- Gwahoddiad uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru (2)
- Cylchlythyr Un Llais Cymru (3)
- Cylchlythyr y diwydiant/sector (4)
- Y cyfryngau cymdeithasol (5)
- Methu â chofio (6)
- Arall (7)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os Sut y gwnaethoch glywed am Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) = Arall*

6. Dywedwch sut y gwnaethoch glywed am Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth?

---

---

7. Beth wnaethoch chi wneud cais i'w wneud drwy Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Addasu offer/peiriannau meithrinfa goed (1)
  - Prynu offer/peiriannau meithrinfa goed (2)
  - Gwella capasiti prosesu hadau (3)
  - Addasu offer paratoi safle (4)
  - Prynu offer paratoi safle (5)
  - Prynu offer rheoli coed ynn (6)
  - Dronau arolygu (7)
  - Prynu/addasu meddalwedd asesu (8)
  - Prynu offer mesureg (9)
  - Offer neu weithgaredd(au) eraill (Nodwch beth) (10)
- 

8. Pa fater neu faterion mae eich prosiect/cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy?

---

---

10. Ar raddfa o 1 i 5 (gydag 1 yn golygu nid yn heriol o gwbl a 5 yn golygu eithriadol o heriol); Pa mor heriol oedd y broses o ymgeisio am arian?

- 1 Nid yn heriol o gwbl (1)
- 2 (2)
- 3 (3)
- 4 (4)
- 5 Eithriadol o heriol (5)

9. Defnyddiwch y lle yma os ydych yn dymuno ymhelaethu ar eich profiadau o'r broses ymgeisio. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn nodi meysydd i'w gwella.



---

---

10. A ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn digon o wybodaeth neu gymorth yn ystod y broses ymgeisio?

- Ydw (1)
- Nac ydw (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

Os A ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn digon o wybodaeth neu gymorth yn ystod y broses ymgeisio? = *Nac ydw*

11. Pa gymorth ychwanegol y byddech wedi hoffi ei gael yn ystod y cam ymgeisio?

---

---

12. Faint o arian y gwnaethoch gais amdano? **Nodwch werth rhifiadol yn unig e.e. 5000. Peidiwch ag ychwanegu coma, symbol £ ac ati**

---

13. A wnaethoch gynnig/darparu unrhyw arian cyfatebol (naill ai'n ariannol a/neu'n wirfoddol)?

- Do (1)
- Naddo (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

Os A wnaethoch gynnig/darparu unrhyw arian cyfatebol (naill ai'n ariannol a/neu'n wirfoddol)? = *Do*

14A) A oedd yr arian cyfatebol hwn yn ariannol neu'n wirfoddol?

- Ariannol (1)
- Gwirfoddol (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

Os A oedd yr arian cyfatebol hwn yn ariannol neu'n wirfoddol? = *Ariannol*

14B) Pa % o arian cyfatebol y gwnaethoch ei darparu/cynnig?

---

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os A oedd yr arian cyfatebol hwn yn ariannol neu'n wirfoddol? = Gwirfoddol*

14C) Tua faint oedd gwerth cyfatebol y gwirfoddoli?

---

---

14.A oedd eich cais yn llwyddiannus?

- Oedd (1)
- Nac oedd (2)

*Ewch ymlaen i: C19 A oedd eich cais yn llwyddiannus?? = Nac oedd*

15.A oedd yn rhaid i chi addasu eich cais i fodloni'r cyfyngiadau cyllido?

- Oedd (1)
- Nac oedd (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os A oedd yn rhaid i chi addasu eich cais i fodloni'r cyfyngiadau cyllido? = Oedd*

16.Ym mha ffordd y gwnaethoch addasu eich cais i fodloni'r cyfyngiadau cyllido?

---

---

17.Pa more heriol oedd sefydlu'r prosiect?

- 1 Nid yn heriol o gwbl (1)
- 2 (2)
- 3 (3)
- 4 (4)
- 5 Eithriadol o heriol (5)

A ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn digon o wybodaeth neu gymorth yn ystod y broses reoli?

- Ydw (1)
- Nac ydw (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os A ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn digon o wybodaeth neu gymorth yn ystod y broses reoli? = Nac ydw*

18. Pa gymorth ychwanegol y byddech wedi hoffi ei chael?

---

---

Mae gennym ddiddordeb yn eich stori. Defnyddiwch y lle hwn i roi amlinelliad o'ch prosiect a'r effaith y gallai fod wedi ei chael arnoch chi a'ch sefydliad, ar eich cymuned, ac ar ddyfodol coetiroedd Cymru.

19. Effaith y prosiect **arnoch chi a'ch sefydliad**

---

---

20. Effaith y prosiect **ar eich cymuned leol**

---

---

21. Effaith y prosiect **ar ddyfodol coetiroedd Cymru**

---

---

22. Ar raddfa o 1 i 5 (gydag 1 yn golygu nid yn heriol o gwbl a 5 yn golygu eithriadol o heriol)

Pa mor heriol fu rheoli'r prosiect hyd yma?

- 1 Nid yn heriol o gwbl (1)
- 2 (2)
- 3 (3)
- 4 (4)
- 5 Eithriadol o heriol (5)

23. A yw eich prosiect wedi'i gwblhau neu'n agos i gael ei gwblhau?

- Ydy (1)
- Nac ydy (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os A yw eich prosiect wedi'i gwblhau neu'n agos i gael ei gwblhau? = Ydy*

24. Pa mor heriol oedd cwblhau eich prosiect?

- 1 Nid yn heriol o gwbl (1)
- 2 (2)
- 3 (3)
- 4 (4)
- 5 Eithriadol o heriol (5)

25. Pa ffactorau ydych chi'n meddwl fydd yn eich galluogi i barhau â'ch prosiect yn y dyfodol?

---

---

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os A oedd eich cais yn llwyddiannus? = Nac oedd*

26. A ydych yn meddwl eich bod wedi derbyn digon o adborth ynglŷn â pham nad oedd eich cais yn llwyddiannus?

- Ydw (1)
- Nac ydw (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os A ydych yn meddwl eich bod wedi derbyn digon o adborth ynglŷn â pham nad oedd eich cais yn llwyddiannus? = Nac ydw*

27. Pa wybodaeth neu gymorth pellach fydddech chi wedi hoffi eu derbyn?

---

---

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os A oedd eich cais yn llwyddiannus? = Oedd*

28. A wnaeth unrhyw rai o'r materion canlynol effeithio ar eich gallu i gyflawn/cwblhau eich prosiect?

**Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

- Absenoldeb yn ymwneud â choronafeirws (salwch personol, hunanynysu neu ar y rhestr warchod) (1)
- Cyfyngiadau symud yn ymwneud â choronafeirws (2)
- Absenoldebau eraill neu gydweithwyr yn methu ag ymrwymo (3)
- Problemau gyda mynediad i safle (4)
- Ffactorau rheoliadol e.e. caniatâd (5)
- Prynu offer arbenigol (6)
- Arall (7)
- ☒ Dim un o'r uchod (8)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

30(A) Nodwch pa faterion eraill wnaeth effeithio ar gyflawni/cwblhau eich prosiect

---

---

29. I ba raddau'r ydych yn ymwybodol bod Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn rhan o fenter ehangach i ddatblygu Coedwig Genedlaethol?

- Nid wyf yn ymwybodol (1)
- Rwyf wedi clywed am y Goedwig Genedlaethol ond nid wyf yn gwybod beth ydyw (2)
- Rwyf wedi clywed am y Goedwig Genedlaethol a'i phrosiectau a chynlluniau arddangos (3)
- Rwy'n ymwneud â chynlluniau a phrosiectau eraill sy'n gysylltiedig â phrosiect arddangos y Goedwig Genedlaethol (4)

30. Yn olaf, pe byddai cynllun tebyg yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol, a fydddech yn ystyried ymgeisio eto?

- Byddwn (1)
- Ni fyddwn (2)

*Dangoswch y Cwestiwn Hwn:*

*Os Yn olaf, pe byddai cynllun tebyg yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol, a fydddech yn ystyried ymgeisio eto? = Ni fyddwn*

32(A) Pam na fydddech yn gwneud cais i gynllun tebyg yn y dyfodol?

---

---